# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 11 MEDI 2019 am 9.30 o'r gloch yp | | WEDNESDAY, 11 SEPTEMBER, 2019 at 9.30 a.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O. Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Kenneth P Hughes, R.Ll.Jones **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Glyn Haynes

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Mr. Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) a Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

# R H A G L E N

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd canlynol:-

- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 13 Mehefin, 2019
- Cofnodion y cyfarfod arbennig a gafwyd ar 11 Gorffennaf, 2019

4 **MONITRO CONTRACTAU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** (Tudalennau 11 - 28)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

5 **TREFNIADAU DIOGELU (GWASANAETHAU CYMDEITHASOL)** (Tudalennau 29 - 84)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

6 **PANEL ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION : ADRODDIAD CYNNYDD** (Tudalennau 85 - 100)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc

7 **RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 101 - 116)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2019

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, R Ll Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Margaret Murley Roberts.<br><br>Mr Keith Roberts – Yr Eglwys Gatholig Rufeinig,<br>Mr Dafydd Gruffydd – Rheolwr Gyfarwyddwr – Medrwn Môn.<br><br>Arweinydd y Cyngor – Y Cynghorydd Llinos M Huws (ar gyfer eitem 7);<br>Y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS – Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff (ar gyfer eitem 5);<br>Y Cynghorydd R Meirion Jones – Aelod Portffolio Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant (ar gyfer eitem 6).<br><br>**Aelodau eraill o'r Cyngor Sir a wahoddwyd mewn perthynas ag Eitem 5**<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, J Arwel Roberts, Dafydd R Thomas, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau),<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 (ar gyfer eitem 5),<br>Pennaeth Dros Dro Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff (ar gyfer eitem 5),<br>Prif Swyddog Rheoli Gwastraff (ME) (ar gyfer eitem 5),<br>Pennaeth Dysgu (ar gyfer eitem 6);<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Eric W Jones, Alun Mummery ***(Aelodau eraill o'r Cyngor Sir a wahoddwyd mewn perthynas ag Eitem 5)*** |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Uwch Reolwr (FEE) – Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn (ar gyfer eitem 6);<br>Rheolwr Bwrdd Rhaglen Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwynedd ac Ynys Môn) (NH) (ar gyfer eitem 7). |

---

Dywedodd y Cadeirydd y bydd Mr Geraint Roberts, Swyddog Sgriwtini yn gadael ei swydd ddiwedd y mis a'i fod yn dymuno diolch iddo am ei gefnogaeth i'r Pwyllgor hwn. Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn dymuno cyfleu eu dymuniadau gorau i Mr Roberts.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd a ganlyn:-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ebrill, 2019.
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mai, 2019 (Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd).

**4 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**5 CONTRACT RHEOLI GWASTRAFF A GLANHAU STRYDOEDD**

Cyflwynwyd – adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a Phennaeth Dros Dro Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff mewn perthynas â'r cynnig i gaffael contract rheoli gwastraff a glanhau strydoedd newydd o 5 Ebrill, 2021.

Cynhaliwyd trafodaeth fanwl ar yr opsiynau yn yr adroddiad i sicrhau fod y Contract Rheoli Gwastraff a Glanhau Strydoedd yn cyfarfod ag anghenion presennol y Cyngor a'i anghenion yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD nodi'r opsiynau a amlinellir yn yr adroddiad.**

**GWEITHREDU : Cyfeirio'r argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod a gynhelir ar 17 Mehefin, 2019.**

Ni phleidleisiodd y Cynghorydd Glyn Haynes ar Eitem 5.

**6 PARTNERIAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL GWYNEDD AC YNYS MÔN**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Dysgu mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed gan ddisgyblion drwy'r bartneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a ddaeth i rym ym mis Medi 2017.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant fod y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad ar gyfer Gwynedd a Môn yn weithredol ers mis Medi 2017 a bod yr adroddiad yn amlygu cynnydd a wnaed gan ddisgyblion o fewn y gwasanaeth.

Adroddodd yr Uwch Reolwr (FEE) – Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad ar gyfer Gwynedd a Môn (ADY a Ch) fod y Gwasanaeth ADY a Ch wedi canolbwyntio ar ysgolion Ynys Môn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae asesiadau mewn lle gan y Timau o fewn y Gwasanaeth i adrodd ar gynnydd disgyblion sy'n derbyn cefnogaeth gan y Gwasanaeth. Nodwyd bod y wybodaeth a gasglwyd gan y Gwasanaeth ADY wedi cael ei defnyddio i gymharu'r prosesau a ddilynwyd ar ddechrau'r flwyddyn ac ym mis Mai, 2019, a gwelwyd bod y prosesau a'r darpariaethau wedi gwella mewn 52% o ysgolion. Ym mis Mai, roedd 89% o ysgolion yn gallu dangos bod ganddynt brosesau a darpariaeth o ansawdd dda ac mae hynny'n welliant ers y broses CAG flaenorol. Nododd bod yr holl wasanaethau o fewn y Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad yn gallu dangos eu bod wedi cyfrannu at ddatblygu ansawdd y ddarpariaeth drwy'r hyfforddiant y maent wedi'i ddarparu a'r sgiliau y maent wedi'u trosglwyddo (a ddangosir yn Atodiad 3 – 7 yr adroddiad) ac mae ganddynt brosesau i sicrhau fod y wybodaeth yn cael ei gwreiddio yn yr ysgolion. Ychwanegodd fod Holiadur Gwasanaeth wedi'i anfon at ysgolion yng Ngwynedd ac Ynys Môn ym mis Mai 2019 ynghylch a yw darpariaeth y Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad yn mynd i'r afael ag anghenion ysgolion. Nodwyd mai ychydig o ymatebion a dderbyniwyd, fodd bynnag, roedd yn amlwg o'r ymatebion fod angen i'r gwasanaeth ADY a Ch wella'r ffordd y mae'n cyfathrebu gydag ysgolion, disgyblion a'u teuluoedd. Ychwanegodd y Swyddog fod sylwadau cadarnhaol wedi'u derbyn am waith y Timau Gwasanaeth ADY a Ch sy'n ymweld ag ysgolion a'r budd gwerth chweil y mae'r disgyblion yn ei gael o'r Gwasanaeth.

Cyfeiriwyd at Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlysoedd (2018) a'r gwaith a wnaed i gyfarfod â gofynion y Ddeddf pan ddaw i rym ym mis Medi, 2020. Ym mis Ebrill, 2018, cwblhawyd Arolwg Parodrwydd Cychwynnol gyda'r Awdurdod a'r Arweinydd Trawsnewid ADY Rhanbarthol (Llywodraeth Cymru). Pan ailadroddir yr arolwg ym mis Gorffennaf 2019, disgwylir y bydd yr ardaloedd sy'n cael eu datblygu yn dangos digon o gynnydd fel y gellir ystyried eu bod o fewn y categori 'diogel'.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chodwyd y materion a ganlyn:-

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y berthynas waith rhwng ysgolion Môn a'r Gwasanaeth ADY a Ch yn gyffredinol ac am sicrwydd fod ysgolion yn gallu helpu disgyblion, yn unol â'u hanghenion penodol, cyn eu cyfeirio at y Gwasanaeth ADY a Ch. Dywedodd yr Uwch Reolwr (FEE) - Gwasanaeth ADY a Ch, ei bod yn bwysig cefnogi staff ADY a Ch ac i gynnal a datblygu perthynas dda gyda'r ysgolion a disgyblion. Darparwyd hyfforddiant i ysgolion drwy'r cyfleusterau hyfforddi 'Haen 2' sy'n rhoi sylw i waith sydd angen ei wneud cyn cyfeirio disgyblion at y Gwasanaeth ADY a Ch;

- Cyfeiriwyd at yr heriau a wynebwyd yn y gorffennol pan oedd angen mewnbwn y Bwrdd Iechyd ar gyfer plentyn a gyfeiriwyd at y Gwasanaeth ADY a Ch. Dywedodd yr Uwch Reolwr (FEE) – Gwasanaeth ADY a Ch, fod nifer dda o gynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd yn bresennol mewn cyfarfodydd cynllunio unigol a bod Therapyddion Iaith a Lleferydd yn bresennol hefyd os oes angen. Ychwanegodd, fel rhan o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018), y bydd disgwyl i'r Gwasanaethau Iechyd ymateb o fewn cyfnod byr o amser;
- Nodwyd fod gan Swyddogion Ansawdd ystod o gyfrifoldebau a gofynnwyd a oes cyfrifoldeb ar y Swyddogion Ansawdd os na lynir at yr amserlen wrth ddelio gyda phlentyn sydd ag anghenion penodol. Dywedodd yr Uwch Reolwr (FEE) – Gwasanaeth ADY a Ch – fod y Swyddogion Ansawdd yn gyfrifol am 'fapio' ysgolion o ran cysondeb a monitro'r ddarpariaeth mewn ysgolion;
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch yr heriau y mae'r Gwasanaeth ADY a Ch yn eu hwynebu mewn perthynas â'r ddeddf newydd, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) (2018). Dywedodd yr Uwch Reolwr (FEE) - Gwasanaethau ADY a Ch - fod cyfeiriadau at 'les' plentyn/disgybl yn y Ddeddf newydd yn cael eu croesawu, ac yn arbennig o safbwynt disgyblion ysgolion uwchradd. Ychwanegodd y bydd darparu ar gyfer y grŵp oedran 0-3 yn her i'r gwasanaeth gan y bydd rhaid penderfynu a fydd y ddarpariaeth ADY a Ch yn cael ei chynnig cyn i blentyn ddechrau yn yr ysgol gynradd. Nodwyd hefyd y bydd y grŵp 16-25 oed yn grŵp oedran newydd y bydd rhaid i'r gwasanaeth ddarparu ar eu cyfer o fewn y cwricwlwm addysg newydd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**GWEITHREDU : Derbyn adroddiad diweddaru ar y Gwasanaeth ADY a Ch ym mis Tachwedd 2019.**

## 7 BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS – ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT

Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol Drafft 2018/19 y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod sefydliadau cyhoeddus yng Ngwynedd ac Ynys Môn wedi cytuno i gydweithio, o dan Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (2015), drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Is-grwpiau cysylltiedig wedi gweithredu yn unol â'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy cenedlaethol fel y nodir yn yr adroddiad. Nodwyd fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cytuno, drwy'r Cynllun Llesiant, i ychwanegu dwy egwyddor sy'n bwysig i drigolion Gwynedd ac Ynys Môn, sef yr Iaith Gymraeg a chydraddoldeb. Nododd yr Arweinydd bod y Pwyllgor Sgriwtini hwn yn rhan o'r broses ymgynghori ar Adroddiad Blynyddol Drafft y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. O dan flaenoriaeth yr Iaith Gymraeg, mae'r Bwrdd wedi sefydlu prosiect, o'r enw 'ARFER', a fydd yn gwella'r defnydd o'r Iaith Gymraeg yn y sefydliadau hynny sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Ychwanegodd yr Arweinydd fod yr Is-grŵp 'Cartrefi ar gyfer Pobl Leol' wedi cytuno i gynnwys y Cymdeithasau Tai yn y Grŵp. Erbyn hyn mae'r Is-grŵp yn canolbwyntio ar gynlluniau tai arloesol.

Rhagwelir y gall arwain at wella effeithiolrwydd ynni, cael effaith gadarnhaol ar newid hinsawdd ac ar dlodi tanwydd. Dywedodd Rheolwr Gyfarwyddwr Menter Môn fod gan Menter Môn brosiect arloesol, Cartrefi Clyfar, a holodd a fyddai modd cynnwys mewnbwn gan Menter Môn yn yr Is-grŵp 'Cartrefi ar gyfer Pobl Leol'.

Ar ôl cynnal sesiwn cwestiwn ac ateb, **PENDERFYNWYD derbyn Adroddiad Blynyddol Drafft y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**

**GWEITHREDU : Fel yr uchod.**

## 8 AELODAETH Y PANEL SGRIWTINI CYLLID

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini mewn perthynas ag enwebu un Aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i fod yn aelod o'r Panel Sgriwtini Cyllid.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Glyn Haynes i wasanaethau ar y Panel Sgriwtini Cyllid.**

**GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.**

## 9 RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini ar Raglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Gorffennaf 2019.

**PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith hyd at fis Gorffennaf 2019.**

**GWEITHREDU : Fel yr uchod.**

**Y CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

## PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf, 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr K P Hughes, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Dafydd Roberts a Margaret M Roberts.<br><br>Y Cynghorydd Llinos M Huws - Arweinydd y Cyngor a Deilydd Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Rheolwr Sgriwtini,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Trefor Ll Hughes, Nicola Roberts.<br><br>Mrs Anest Gray Frazer - Yr Eglwys yng Nghymru,<br>Mr Dafydd Gruffydd - Menter Môn<br>Mr Keith Roberts - Yr Eglwys Gatholig Rufeinig. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**3 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARTNERIAETH GOGLEDD CYMRU (RHAN 9) - 2018/19**

Cyflwynwyd – adroddiad gan Gyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â’r uchod.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor a’r Deilydd Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn ofynnol dan Ran 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol baratoi a chyflwyno adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru (roedd copi o’r adroddiad ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad). Nododd mai pwrpas Rhan 9 y Ddeddf yw gwella canlyniadau a llesiant pobl, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y

gwasanaethau a ddarperir. Prif amcanion y Bwrdd, sy'n cael eu nodi yn yr adroddiad, yw annog cydweithrediad, partneriaeth ac integreiddio. Ychwanegodd fod y Bwrdd Iechyd, yn ystod 2018/19, wedi adolygu a chryfhau ei gynrychiolaeth ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, gyda saith o gynrychiolwyr ar y Bwrdd. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithio gyda'u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth, gofalwyr a phlant. Mae'n gosod dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gydweithredu â ac i ddarparu gwybodaeth i awdurdodau lleol at ddibenion eu swyddogaethau yn y maes gwasanaethau cymdeithasol. Dywedodd y Deilydd Portffolio mai'r mater pwysicaf y mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi manteisio arno eleni yw arian Cymru Iachach gan Lywodraeth Cymru er mwyn trawsnewid y ffordd y mae iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu. Nododd fod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi cyflwyno pedwar bid i Lywodraeth Cymru a llwyddodd pob un ohonynt i sicrhau arian.

Ychwanegodd Arweinydd y Cyngor fod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi cymeradwyo Strategaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru ynghyd â strategaeth ar gyfer Gofalwyr mewn partneriaeth â gofalwyr, sefydliadau gofalwyr a phartneriaid.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a chodwyd y prif faterion a ganlyn:-

- Gofynnwyd oni fyddai wedi bod yn fwy priodol i sefydlu dau Fwrdd Partneriaeth ar draws Gogledd Cymru gan ei bod yn ymddangos fod gan y bwrdd nifer fawr iawn o aelodau. Dywedodd Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Byrddau Partneriaeth wedi eu sefydlu i gyd-fynd ag ardaloedd y Byrddau Iechyd, yn unol â'r rheoliadau presennol;
- Cyfeiriwyd at y modd y mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cyfrannu at waith partneriaeth lleol. Dywedodd Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol fod gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol rôl strategol a'i nod yw llywio cynnydd. Mae arian y grant trawsnewid, h.y. arian y Gronfa Cymorth Canolradd gan Llywodraeth Cymru, yn cael ei ddyrannu drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac mae Ynys Môn yn derbyn £1.2m o arian refeniw sydd yn ariannu, ymysg pethau eraill, y cynllun Nightowls; Cartrefi Clud Môn; Unedau Mân Anafiadau; Uned Gofal Lliniarol yn Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi; prosiect Llawr y Dref, Llangefni; Unigolion ag Anableddau Dysgu. Ychwanegodd y byddai £13m yn cael ei ddarparu drwy arian yr Adolygiad Seneddol ac mae'n hanfodol bod Cyngor Sir Ynys Môn yn sicrhau'r budd mwyaf o'r adnoddau hyn i breswylwyr lleol;
- Gofynnwyd pa gynlluniau sydd yn eu lle i ddatblygu cyllidebau cyfun ar gyfer awdurdodau lleol. Dywedodd Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol y cytunwyd eleni ar broses ar gyfer cyfuno cyllidebau sydd, yn ei hanfod, yn ymarfer casglu gwybodaeth dan arweiniad Cyngor Sir Ddinbych;
  - Cyfeiriwyd at ddatganiad yn yr Adroddiad Blynyddol h.y. '*newid y system gyfan ac ail-fuddsoddi adnoddau i fodel ataliol sy'n hyrwyddo iechyd a lles da, ac sy'n defnyddio tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio orau yn effeithiol'.* Gofynnwyd a oes arian ar gael i gefnogi model o'r fath. Dywedodd Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol mai nod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw llywio buddsoddiad arian grant er mwyn cefnogi

trawsnewid a galluogi pobl i gael mynediad i wasanaethau yn eu cymunedau lleol, lle bynnag y bo hynny'n bosib, ac i leihau achosion lle mae anghenion unigolion am wasanaethau yn dwysau.

**PENDERFYNWYD nodi gwaith a chynnydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn 2018/19**

**GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.**

## 4 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i ddiffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

## 5 AIL-DENDRO'R GWASANAETHAU BYW Â CHYMORTH (ANABLEDDAU DYSGU)

Cyflwynwyd – adroddiad gan Gyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â phroses ail-dendro'r Gwasanaethau Byw â Chymorth (Anableddau Dysgu).

Cynhaliwyd trafodaeth fanwl ar yr opsiynau a'r effaith ar unigolion o fewn y Gwasanaethau Byw â Chymorth a rhoddwyd ystyriaeth i effeithlonrwydd a gwerth am arian mewn perthynas â'r broses ail-dendro.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith fod y ddarpariaeth gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Byw â Chymorth (Anableddau Dysgu) yn cael ei ail-dendro.**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.00 pm

**Y CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 11 Medi 2019 |
| **Pwnc:** | Trefniadau Monitro'r Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Craffu ar drefniadau Monitro yn y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Y Cyng. Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cyng. Llinos Medi Huws |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Alwyn Jones – Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Fôn Roberts – Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Dafydd Bulman – Rheolwr Trawsnewid Strategol a Busnes<br>01248 752013 DafyddBulman@ynysmon.gov.uk<br><br>Bethan Williams – Rheolwr Contract<br>01248 752013 BethanWilliams@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Mae'n berthnasol i'r holl Aelodau |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn ystyried y trefniadau monitro contract sydd mewn lle ar hyn o bryd yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd ynghyd â manylion am adolygiad pellach. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Cefnogi oedolion bregus a theuluoedd i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib. |

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal

- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1. Mae’r adroddiad yn trafod y trefniadau monitro contractau ar gyfer gofal cymdeithasol. Beth yw cyfanswm gwerth y contractau gofal cymdeithasol hyn ar gyfer y gwasanaethau plant ac oedolion?

2. Ym mha fodd y mae’r fframwaith monitro contractau yn atgyfnerthu gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant?

3. Ym mha fodd y mae’r Gwasanaeth yn bwriadu cynyddu ei swyddogaeth monitro contractau i gynnwys darpariaeth fewnol a hynny o fewn y capasiti presennol ?

4. Beth yw’r risgiau i’r Gwasanaethau Cymdeithasol?

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

**Adroddiad Monitro Gofal Cymdeithasol**

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi gwybodaeth i Aelodau am drefniadau monitro contract o fewn Gofal Cymdeithasol.

### 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae’r Tîm Contractau Gofal Cymdeithasol eisoes wedi sefydlu fframwaith monitro contractau ac mae’n parhau i gael ei ddatblygu ar y cyd â Darparwyr, asiantaethau partner megis Iechyd, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a drwy waith cydweithredol gydag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru.

Yn ogystal ag adborth gan asiantaethau partner, mae’r fframwaith monitro contract yn cymryd i ystyriaeth y wybodaeth a ganlyn:

- Adborth gan y Defnyddiwr Gwasanaeth
- Adborth gan y Gofalwr / Perthynas
- Adborth gan Reolwyr Gofal
- Atgyfeiriadau Diogelu Oedolion
- Gwasanaethau Cwsmer Corfforaethol / proses gwynion
- Tîm Datblygu’r Gweithlu – hyfforddiant staff a chymwysterau

Ar hyn o bryd, mae'r Fframwaith Monitro Contract yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig / beth mae 'da' yn ei olygu i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, yn ogystal â rhai sy'n ymwneud â darparu gofal a chymorth. Ceisiwyd adborth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, yn ogystal â theulu sy'n ofalwyr a gofalwyr cyflogedig, ac mae'r adran yn bwriadu ymgorffori hyn mewn prosesau monitro yn y dyfodol.
Mae swyddogion o'r Tîm Contractau yn parhau i gymryd rhan mewn trefniadau cydweithio rhanbarthol – a chefnogi nifer o fentrau ar draws Gogledd Cymru, gan gynnwys:

- Proses Uwchgyfeirio Pryderon Gogledd Cymru, sydd wedi cael ei adolygu erbyn hyn ac a elwir yn awr yn Gwasanaethau o Safon: Cyflawni'r Fframwaith Beth sy'n Bwysig
- Mae'r Cytundeb Cyn Lleoli Rhanbarthol ar gyfer Gofal Preswyl yn parhau i gael ei ddatblygu ar draws Gogledd Cymru. Fe'i cyflwynwyd i ddarparwyr yn ystod 2017/18 a bu gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cytundeb a gyd-gynhyrchwyd i sicrhau fod gwasanaethau o safon yn cael eu darparu i breswylwyr Ynys Môn drwy waith partneriaeth. Drafftiwyd manyleb ddiwygiedig yn seiliedig ar ganlyniadau er bod oedi o ran gweithredu'r fersiwn derfynol ar hyn o bryd o ganlyniad i her gan Fforwm Gofal Cymru. Nod y Cytundeb Cyn Lleoli Rhanbarthol yw cryfhau'r hyn a ddisgwyliwn gan Ddarparwyr gofal preswyl, o ran yr hyn a gomisiynir, a beth y mae'n ofynnol i Ddarparwyr ei ddarparu o dan y contract.

Mae Gofal Cymdeithasol yn parhau i weithio tuag at 'Mwy na Geiriau': y Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Iaith Gymraeg yn y Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Nod y fframwaith hwn yw cryfhau'r Iaith Gymraeg yn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud yn hynny o beth, gyda'r angen am wasanaethau iaith Gymraeg yn cael eu hymgorffori wrth gynllunio a darparu'r gwasanaeth, ac yna'n cael ei adolygu drwy drefniadau monitro contract rheolaidd. Dangosodd adborth gan gartrefi gofal preswyl fod nifer y siaradwyr Cymraeg yn parhau i fod yn weddol sefydlog.

Yn ogystal, mae'r angen i gydymffurfio â dyletswydd yr Awdurdod Lleol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn parhau. Mae hyn yn cynnwys yr angen i sicrhau fod yr holl sefydliadau sy'n gwneud gwaith dan gontract a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu yn glynu at Bolisïau Cydraddoldeb yr Awdurdod ac yn cael eu monitro wrth wneud hynny.

Adolygwyd y fframwaith rheoleiddio ar gyfer cofrestru ac arolygu darparwyr gofal. Daeth Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) i rym ar 2 Ebrill 2018. Dan y Ddeddf, roedd gofyn i ddarparwyr ailgofrestru gyda AGC ac mae Swyddogion o'r Tîm Contractau yn cael eu diweddaru pan fydd darparwyr unigol wedi cwblhau'r broses ailgofrestru.

Mae'r Tîm Contractau yn parhau i gyfrannu at adroddiad CAG misol Cartrefi Gofal Gogledd Cymru sydd yn rhoi trosolwg o gyflwr y farchnad Gofal Preswyl fesul sir; gan amlygu nifer y darparwyr o dan fesurau uwchgyfeirio pryderon; nifer y llefydd gwag ayb. Y Bwrdd Iechyd sy'n rheoli adroddiad CAG Gogledd Cymru. Yna, bydd yr adroddiadau CAG yn cael eu defnyddio fel adnodd lleol a rhanbarthol ar gyfer mapio cyflwr y farchnad

Gofal Preswyl ehangach, o safbwynt gôr neu dan-ddarpariaeth, ac yn cael eu defnyddio i alluogi uwch reolwyr o Iechyd a Gofal Cymdeithasol i roi gwell gwybodaeth i'r farchnad ddarparu am ein bwriadau o ran comisiynu yn y dyfodol.

**3. ARGYMHELLIAD**

Bod Aelodau'r pwyllgor yn llunio eu casgliadau a'u hargymhellion ar sail y wybodaeth yn yr adroddiad hwn a'r drafodaeth yn y cyfarfod.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD**

Sicrhau bod yr holl wasanaethau a gomisiynir yn fewnol ac yn allanol yn cyfarfod â safonau ansawdd a gofynion rheoleiddio.

**4. GWYBODAETH GEFNDIR**

Mae Gofal Cymdeithasol yn comisiynu cyfran sylweddol o'i wasanaethau gan y sector Annibynnol. O ganlyniad, mae prosesau a gweithdrefnau cadarn mewn lle i sicrhau fod gwasanaethau o safon yn cael eu darparu i'r grwpiau mwyaf bregus ar Ynys Môn.

Contractau Gofal Cymdeithasol gyda nifer o ddarparwyr cofrestredig i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol statudol. Mae pum categori bras o wasanaethau:

- Cartrefi gofal preswyl
- Gofal Cartref
- Byw â Chymorth
- Taliadau Uniongyrchol
- Maethu a Lleoliadau Preswyl

**4. 1 Cartrefi Gofal Preswyl**

Mae 25 o Ddarparwyr Cartrefi Gofal Preifat ar Ynys Môn sydd wedi cofrestru i ddarparu 590 o welyau ar draws y sir (ar 31 Mawrth, 2019).

Ar hyn o bryd, mae 6 o lefydd gwag ar draws y cartrefi preswyl ledled Ynys Môn, sy'n dangos bod cyflenwad digonol o welyau i gwrdd â galw am ofal preswyl. Dengys ffigyrau ar gyfer 2018/19 gyfartaledd o 4 lle gwag y mis (lle mae cartrefi wedi datgan eu ffigyrau llefydd gwag). Dengys ffigyrau diweddar ostyngiad yn nifer y lleoliadau preswyl a gomisiynwyd gan CSYM. Mae nifer y gwelyau a gomisiynir gan y Cyngor yn parhau i fod yn weddol sefydlog er bod arwyddion o ostyngiad, sy'n adlewyrchu gwelliannau yn y broses atgyfeirio a'r broses Ailalluogi/gofal cartref, gan gadw pobl yn y gymuned yn eu cartrefi eu hunain yn hirach.

Mae gan Swyddogion Contract a Monitro raglen o waith, sy'n cynnwys gwaith monitro arferol ar gartrefi gofal a chefnogi cartrefi sydd yn rhan o'r broses Uwchgyfeirio Pryderon. Yn ystod 2018/19, nid oedd unrhyw gartref yn destun proses Uwchgyfeirio Pryderon. Mae AGC yn cymryd rhan lawn yn y broses Uwchgyfeirio Pryderon, fel y mae'r Bwrdd Iechyd

yn achos cartrefi nyrsio. Mae gofyn i swyddogion hysbysu Awdurdodau Lleol eraill pan fydd cartref yn cael ei roi mewn mesurau Uwchgyfeirio Pryderon. Nid yw'r wybodaeth ar gael i'r cyhoedd. Fodd bynnag, gall aelodau'r cyhoedd gael copïau o adroddiad arolygiad diweddaraf AGC er mwyn gweld a oes unrhyw bryderon ynghylch ansawdd.

Mae swyddogion o'r Cyngor yn parhau i weithio i gefnogi darparwyr gyda materion thematig ar draws cartrefi gofal preswyl, megis gwelliannau mewn gweithgareddau ar gyfer preswylwyr, gwelliannau mewn cynlluniau gofal person ganolog a mwy o ddarpariaeth ac ymwybyddiaeth o ofal dementia. Gwnaed gwelliannau sylweddol o fewn Cartrefi Gofal Preswyl o ran cyflawni a darparu tystiolaeth o'r 9 canlyniad penodol a nodwyd yn y fframwaith monitro. (Mae Atodiad 1a ac 1b yn dangos gwelliannau yn erbyn y marciau ar gyfer pob Cartref Preswyl yn ystod cylchoedd monitro 2015 a 2018.)

### 4.1.1 Dulliau Ymgysylltu ar gyfer Cartrefi Gofal

Nodwedd allweddol o'r dull o fonitro contractau Gofal Cymdeithasol Oedolion yw treulio amser gyda defnyddwyr gwasanaeth o fewn cartrefi gofal i gael eu barn ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Cesglir barn gofalwyr a theuluoedd hefyd drwy holiaduron. Yn ddiweddar, cynhaliwyd ymarfer monitro cymheiriaid o fewn Cartrefi Gofal Preswyl ar Ynys Môn a defnyddir y canfyddiadau i archwilio a chasglu profiadau mentoriaid gyda'r cartrefi, asesu ymyrraeth, a chanlyniadau canfyddedig ar gyfer preswylwyr.

Yn ogystal â chwblhau holiaduron gyda defnyddwyr gwasanaeth, mae Swyddogion Monitro Contract yn treulio amser yn arsylwi ar ymarfer a sut mae staff yn rhyngweithio o fewn y cartrefi gofal preswyl. Mae'r dull hwn yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer gweld profiad byw pobl sy'n byw â dementia, gan fod dulliau arsylwi yn darparu gwybodaeth amhrisiadwy am ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ac maent yn hanfodol os nad yw defnyddwyr yn gallu ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon gyda'r Swyddog Monitro Contract.

Mae'r tîm Contract wedi mabwysiadu fframwaith monitro Gogledd Cymru, sy'n defnyddio gwaith sydd yn rhoi mwy o bwyslais ar arsylwi i gofnodi perfformiad darparwyr. Mae gwaith arsylwi cychwynnol wedi profi'n ddefnyddiol wrth gasglu pryderon a gweithio gyda darparwyr i godi safonau. Mae'r Tîm Contractau'n parhau i adolygu a mireinio dulliau o gasglu adborth mewn ffordd syml, sy'n osgoi dyblygu, ac mewn modd sy'n canolbwyntio ar yr 'Hyn sy'n Bwysig' i unigolion a'r canlyniadau a gyflawnir i bobl sy'n derbyn gofal.

Mae Gofal Cymdeithasol oedolion yn parhau i ymateb i adroddiad cenedlaethol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 'Lle i'w Alw'n Gartref?'. Parheir i gyflawni'n gadarnhaol yn erbyn y cynllun gweithredu, yn arbennig mewn perthynas â hyfforddiant ac eirioli. Rhoddwyd adborth ar gynnydd i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, ac mae'r cynllun gweithredu yn dal i gael ei ddarparu a'i fireinio er mwyn gwella gwaith partneriaeth gyda BIPBC, hyfforddiant, a chreu gwell cyswllt rhwng cartrefi preswyl a'u cymunedau lleol. Mae'r gyfradd ymateb mewn perthynas ag adborth gan deulu/perthynas wedi dyblu, sydd yn beth da i'w nodi ac, yn gyffredinol, mae lefelau boddhad ar draws yr holl feysydd yn uchel a'r prif feysydd sydd angen eu gwella yw lefelau staffio, gweithgareddau a systemau golchi dillad. Fe wyddom o brofiad nad yw pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal yn

tueddu i gwyno, felly mae hyd yn oed yn fwy pwysig fod gwybodaeth yn cael ei drionglu gydag adborth arall (gan gynnwys Diogelu) a chanfyddiadau'r Swyddogion Monitro.

**4. 2 Darparwyr Gofal Cartref**

Cafodd ein contract gofal cartref ei ail-dendro ym mis Mehefin 2018 ar sail model ardal, gan rannu'r Sir yn 3 ardal a dyfarnu pob ardal i un darparwr unigol. Roedd y model contract hwn yn caniatáu i ddarparwyr reoli costau'n well drwy wneud arbedion o ran darparu gwasanaeth, darparu gwasanaeth mwy lleol a gwella lefelau recriwtio a chadw staff. Penodwyd Rheolwr Trawsnewid a Monitro dynodedig ar gyfer y cyfnod trawsnewid a gweithiodd y swyddog yn agos â darparwyr hyd at ddiwedd Mawrth 2019. Erbyn hyn, mae'r contract wedi cael ei drosglwyddo'n ôl i'r tîm contractau fydd yn monitro'r 3 darparwr yn erbyn fframwaith fonitro er mwyn sicrhau gwasanaeth cynaliadwy ac o safon uchel.

Er y gwelwyd gwelliannau o ran recriwtio a chadw staff yn ystod y flwyddyn – bu cynnydd yn nifer y bobl yn gweithio yn y sector gofal ar Ynys Môn o gymharu â gostyngiad yn 2017/18 – mae'r sector yn parhau i wynebu heriau. Mae hon yn broblem ledled y DU er bod swyddogion y Cyngor yn dal i fod yn ymrwymedig i ddarganfod atebion lleol i bwysau lleol. Mae'r Tîm yn gweithio'n agos â'r Darparwyr y dyfarnwyd y contractau iddynt er mwyn deall y pwysau o fewn y sector a chanfod atebion i liniaru'r pwysau hwnnw. Cynhelir cyfarfodydd fforwm chwarterol gyda Darparwyr i drafod materion sy'n effeithio ar y farchnad gofal cartref ar Ynys Môn. Mae Darparwyr yn parhau i gyfeirio at gystadleuaeth gan sectorau cyflogaeth eraill fel problem. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gyda Darparwyr i archwilio sut y gellir gwneud y sector yn fwy deniadol i ddarpar weithwyr er mwyn rhoi hwb i lefelau recriwtio a chadw staff presennol. Ar Fawrth 5ed, 2019, lansiodd Gofal Cymdeithasol Cymru ymgyrch cenedlaethol i recriwtio staff i'r sectorau gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar, gan dynnu sylw at y miloedd mwy o ofalwyr y bydd eu hangen ar draws Cymru erbyn 2030: https://www.gofalwn.cymru/. Mae'r cyngor yn cefnogi'r ymgyrch hwn.

Cymeradwywyd y strategaeth gweithlu rhanbarthol a chynllun gweithredu gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac erbyn hyn mae'n cael ei weithredu gan nifer o randdeiliaid. Gwnaed cysylltiadau hefyd â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac mae mewnbwn gan iechyd a gofal cymdeithasol i'r Bwrdd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn cael ei gryfhau er mwyn cynyddu'r ffocws ar y sector holl bwysig hwn.

Mae ffocws sylweddol ar y sector gofal cartref yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol gan fod hwn yn faes risg uchel, yn arbennig o ganlyniad i broblemau recriwtio a chadw staff a'r galw am y gwasanaethau hyn i ganiatáu pobl i barhau i fyw gartref, i hwyluso trefniadau rhyddhau cleifion o'r ysbyty mewn modd amserol ac i ddarparu cefnogaeth i ofalwyr.

**4.2.1 Dulliau Ymgysylltu ar gyfer Defnyddwyr Gwasanaeth Gofal Cartref**

Nodwedd allweddol o'r dull o fonitro contractau Gofal Cymdeithasol oedolion yw sicrhau fod defnyddwyr gwasanaeth yn cael cyfle i leisio eu barn am ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Bydd defnyddwyr gwasanaeth yn cwblhau holiaduron yn eu hamser eu hunain ac fe'u hanfonir atynt gydag amlenni parod er mwyn iddynt eu dychwelyd.

### 4.2.2 Dulliau Ymgysylltu ar gyfer Gweithwyr Gofal Cartref

Fel rhan o waith monitro safonau gofal cartref y Tîm Contractau, mae swyddogion yn ymgysylltu â staff gofal er mwyn casglu eu barn am eu profiad fel gweithwyr cymorth (telerau ac amodau, boddhad yn y gwaith ayb), eu barn am ansawdd y gwasanaethau a ddarperir a sut mae darpariaeth gwasanaeth yn cael effaith ar eu rôl. Defnyddir cyfweliadau wyneb yn wyneb ynghyd â holiaduron fel rhan o'r rhaglen fonitro.

Bydd adborth gan staff drwy gyfrwng holiaduron yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ar ddull y tîm o fonitro'r darparwyr. Mae hwn yn ffordd bwysig o drionglu ymatebion a bydd yn caniatáu Swyddogion i nodi unrhyw bryderon a chasglu tystiolaeth bellach.

### 4.3 Darparwyr Byw â Chymorth

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, mae gan Gofal Cymdeithasol Oedolion 4 Darparwyr Byw â Chymorth sydd yn cefnogi hyd at 49 person ag anableddau dysgu i fyw yn eu cartrefi eu hunain/cartrefi a rennir (16 o gartrefi – 'cynlluniau') ar Ynys Môn.
Bydd y 4 contract yn cael eu hail-dendro yn ystod yr Hydref 2019, a bydd y contractau newydd yn cael eu dyfarnu ym mis Ebrill 2020. Fel rhan o'r broses dendr, bydd tenantiaid a'u teuluoedd, neu eiriolwyr eraill, yn cael eu cynnwys; mae'r Adran wedi cytuno ar broses gyda'r adran Gaffael Gorfforaethol, sy'n bodloni gofynion gweithdrefnau Caffael y Cyngor ond hefyd yn canolbwyntio ar y bobl sy'n derbyn cefnogaeth. Mae gan y tîm Anableddau Dysgu draddodiad hir o gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd mewn tendrau contact a dewis darparwyr newydd, a'r dull cyd-gynhyrchu hwn o gaffael gwasanaethau sydd wedi derbyn y croeso mwyaf gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd.

### 4.4 Taliadau Uniongyrchol

Mae gan y tîm Cyllid Cleientiaid swyddog dynodedig sy'n gyfrifol am brosesu a gweinyddu cynllun Taliadau Uniongyrchol y Cyngor ar ran yr Adran. Mae'r Swyddog wedi gweithio'n galed i sefydlu proses glir a chadarn ar gyfer delio gydag ymholiadau; sefydlu systemau i reoli taliadau newydd a pharhaus er mwyn symleiddio prosesau sydd eisoes mewn lle; gwneud taliadau misol a rheoli cyfraniadau cleientiaid, yn ogystal â gwneud taliadau a'u hadolygu. Mae'r prosesau diwygiedig mewn lle yn awr ac mae'r llwyth gwaith o ran rheoli Taliadau Uniongyrchol yn hydrin.

### 4.5 Gwasanaethau Plant (Maethu a Phreswyl)

Mae'r holl leoliadau yn y gwasanaethau plant yn cael eu monitro'n flynyddol drwy ymarfer bwrdd gwaith. Mae hyn yn golygu anfon allan holiadur monitro i bob Darparwr a gofyn am ddogfennau cefnogol megis rotâu a matrics hyfforddi. Ar ôl derbyn y wybodaeth, ysgrifennir adroddiad ar bob Darparwr. Rhennir unrhyw bryderon sy'n codi yn ystod y gwaith monitro gyda'r Rheolwr Gwasanaeth. Yna, cynhyrchir adroddiad trosolwg ar gyfer y Pennaeth Gwasanaeth. Ar hyn o bryd mae monitro gwasanaethau plant yn digwydd yn ystod misoedd yr haf a'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod rheolwyr gwasanaeth ym mis Medi. Gofynnir i unrhyw ddarparwr newydd sydd yn cael ei gomisiynu yn dilyn y

monitro blynyddol i gwblhau'r un broses fonitro pan fydd plentyn yn cael ei leoli gyda nhw er mwyn casglu gwybodaeth cyn y broses fonitro systematig flynyddol.

Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaethau Plant yn comisiynu nifer o leoliadau gan Gonsortiwm Comisiynu Plant Cymru ac mae tîm monitro yn gweithio fel rhan o'r consortiwm hwn. Gall timau lleoli a chomisiynwyr awdurdod lleol ddefnyddio'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant i nodi lleoliadau addas ar gyfer plant yn eu gofal drwy gyflwyno manylion am anghenion y plant a gwneud chwiliad. Yn ogystal, gall Ynys Môn gyhoeddi atgyfeiriadau lleoliadau a chynnal proses dendro, gan ddefnyddio'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant i lunio rhestr fer o ddarparwyr sydd yn berthnasol i anghenion y plant.

Mae cronfa ddata'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant yn cynnwys manylion lleoliadau gofal ac adroddiadau monitro ar gyfer yr holl ddarparwyr gwasanaeth, yn cynnwys cartrefi preswyl a gofalwyr maeth. Mae'r wybodaeth yn cael ei diweddaru'n rheolaidd gan ddarparwyr gofal ac mae tîm monitro Consortiwm Comisiynu Plant Cymru yn sicrhau fod yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant yn darparu'r wybodaeth fwyaf diweddar.

**4.6 Capasiti Monitro a Rhaglen**

Mae gan Gofal Cymdeithasol dîm o 3 - 1 Rheolwr Contract, 1 Swyddog Contract ac un Dadansoddwr Data ac Ariannol sydd yn monitro perfformiad Darparwyr Gwasanaeth allanol.

Y bwriad wrth symud ymlaen yn 2019/20 yw y bydd perfformiad holl wasanaethau mewnol yr Adran sydd wedi cofrestru gydag AGC yn cael ei fonitro gan y tîm Contractau hefyd. Bydd hyn yn cynnwys darpariaeth fewnol yn cynnwys Gwasanaethau Byw â Chymorth, gofal Preswyl a gwasanaethau dydd Anableddau Dysgu. Bydd hyn yn sicrhau fod ein gwasanaethau mewnol yn derbyn yr un gwiriadau ansawdd a chydymffurfiaeth trylwyr â'n darparwyr allanol.

Gweithredwyd dull clir yn seiliedig ar raglen waith, gan lynu ati, er mwyn cynorthwyo i fonitro Darparwyr a gomisiynwyd mewn modd amserol.

- Mae 37 Darparwr wedi cael ymweliad monitro 'llawn' dros gyfnod o 12 mis yn ystod 2018/19 (29 o gartrefi preswyl/nyrsio yn cynnwys IOACC yn berchen ar 4 prosiect byw â chymorth, 4 gwasanaeth dydd).
- Derbyniodd 1 Darparwr eu hymweliad monitro 'llawn' diwethaf rhwng 12 – 18 mis yn ôl er eu bod wedi derbyn ymweliadau monitro dilyn i fyny yn ystod 2018/19.

Mae'r rhaglen fonitro yn un ddeinamig ac yn cael ei hail-flaenoriaethu i adlewyrchu unrhyw wybodaeth a dderbynnir am berfformiad unrhyw Ddarparwr penodol. Os codir pryderon mwy difrifol, trefnir cyfarfod o weithwyr proffesiynol er mwyn caniatáu i AGC, Iechyd, Rheolwyr Gofal a'r Swyddog Monitro Contractau asesu'r sefyllfa. Os oes angen, rhoddir Gweithdrefn Uchafu Pryderon Gogledd Cymru ar waith ac efallai y bydd gwaharddiad yn cael ei roi mewn lle i atal y Darparwyr rhag derbyn mwy o waith nes bod y sefyllfa wedi gwella. Os na fydd gwelliant, yna rhoddir ystyriaeth i ddod â'r contract i

ben a throsglwyddo'r gwasanaeth i Ddarparwyr eraill. Fodd bynnag, anaml iawn y bydd hyn yn digwydd.

Bydd rheolwyr yn parhau i adolygu a diwygio'r broses fonitro er mwyn gwneud gwell defnydd o dechnoleg i gasglu adborth, ac i symleiddio adroddiadau, gan sicrhau y canolbwyntir ar ganlyniadau. Defnyddir gwybodaeth fonitro i ail-ddylunio ein dull o fonitro contractau gan sicrhau, tra bod y gofynion statudol angenrheidiol yn dal i gael eu monitro, y bydd y mwyafrif o'r gwaith monitro yn canolbwyntio ar sicrhau fod yr 'hyn sy'n bwysig' i ddefnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr yn cael ei ddarparu. Yn ogystal, byddwn yn gweithio'n agos gyda AGC i ddeall yn well lle mae dulliau monitro'r naill a'r llall yn cael eu dyblygu, a nodi meysydd lle gellir symleiddio ein gwaith monitro yn unol â gofynion monitro a rheoleiddio newydd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Rydym yn gobeithio bod mewn sefyllfa i ddechrau gweithredu'r fframwaith fonitro newydd hon yn 2020.

**4.7 Lefelau Cymwysterau**

Parheir i fonitro'n ofalus lefelau cymwysterau staff a gyflogir gan Ddarparwyr. Mae AGC yn ei gwneud yn ofynnol i holl reolwyr y Darparwyr fod â chymwysterau priodol cyn y gellir eu 'cofrestru'. Mae'r gofyn hwn wedi arwain at roi mwy o ffocws ar ddatblygu rheolwyr cynorthwyol / dirprwy reolwyr cymwys er mwyn cynllunio ar gyfer olyniaeth petai'r rheolwr cofrestredig yn gadael. Er mwyn cofrestru, rhaid i'r rheolwr feddu ar Gymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) lefel 4 neu Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (QCF) lefel 5.

Yn 2014, datblygodd Llywodraeth Cymru ddatganiad blynyddol newydd gyda ffigyrau i'w cofnodi ar gyfer 31 Rhagfyr. Mae'r datganiad hwn yn monitro lefel cymwysterau darparwyr. Mae'r cyfrifiad yn darparu gwybodaeth hefyd ar drosiant staff a nifer y staff sy'n siarad Cymraeg.

Ym mis Mawrth 2015 roedd 58% (=311) o Staff Gofal Sylfaenol Darparwyr Gofal Preswyl yn gymwys (wedi cyflawni NVQ lefel 2 neu QCF lefel 3). Ym mis Gorffennaf 2018 roedd y ffigwr hwn yn 68% (=406). O'r 29 cartref Gofal ar Ynys Môn a lenwodd yr arolwg staff, roedd pob un yn cwrdd â'r lefel cymhwyster o 50%. Mae'n gadarnhaol nodi fod nifer y gweithwyr gofal yn y sector wedi cynyddu yn gyffredinol o gymharu â gostyngiad cyffredinol yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Mae canrannau staff cymwys wedi cynyddu o fewn y sector cartrefi gofal. Ymddengys fod staff yn symud o fewn cartrefi gofal, ac o ganlyniad mae sgiliau yn cael eu cadw o fewn y sector ac mae staff newydd yn dod i mewn i'r sector gofal cartref hefyd. Mae'n bwysig nodi fod y Tîm Datblygu Gweithlu yn cynnig hyfforddiant ar gyfer yr holl staff Gofal Cymdeithasol ar draws y sir a bod staff sydd heb gymhwyso eto o bosib yn gweithio tuag at gymhwyster ac yn derbyn hyfforddiant. Mae swyddogion o'r tîm Strategaeth Gweithlu a Datblygiad yn monitro hyn.

Bydd cymwysterau ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol yn newid ym mis Medi 2019 gyda set newydd o gymwysterau a fydd yn orfodol ar draws Cymru. Mae hyn yn lleihau'n

sylweddol yr ystod o gymwysterau derbyniol er mwyn sicrhau cysondeb ac ansawdd yr hyfforddiant ar draws Cymru. Mae hyn yn gosod y safon ar gyfer gweithwyr cymorth ar lefel 2 ac am y tro cyntaf bydd 'arholiadau' yn cael eu cyflwyno a chynnydd yn lefel yr asesiad allanol. Mae hyn yn mynd llaw yn llaw â'r Fframwaith Sefydlu newydd ar gyfer Cymru a'r gofyniad bod y gweithlu gofal cymdeithasol yn cael ei gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru erbyn Ebrill 2020. Mae hwn yn gam sylweddol ymlaen o ran cydnabod proffesiynoldeb, sgiliau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd y gweithlu hwn.

**4.8 Hyfforddiant Staff**

Mae Darparwyr yn cael eu monitro i sicrhau fod eu staff yn derbyn hyfforddiant priodol i gefnogi anghenion y defnyddiwr gwasanaeth unigol ar sail anghenion eu cynllun gofal. Mae'r hyfforddiant angenrheidiol yn cynnwys cyrsiau'n ymwneud ag iechyd a diogelwch megis codi a chario (hyd at safon 'Pasbort'), cymorth cyntaf mewn argyfwng yn y gwaith, rheoli heintiau a hyfforddiant arbenigol megis ymwybyddiaeth o strôc, ymwybyddiaeth o ddementia, ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, ymddygiad heriol, a diogelu oedolion bregus. Mae'r Swyddogion Monitro Contract a Swyddogion Gweithlu yn monitro cydymffurfiaeth â'r safonau hyn yn ofalus.

Mae'r rhaglen hyfforddi Gofal Lliniarol, 'Chwe Cham' yn parhau i gael ei chyflwyno, ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'n tîm Gweithlu a Datblygu, ar draws y cartrefi preswyl a nyrsio. Yn ogystal, mae'r Swyddogion Contractau a Monitro yn derbyn yr hyfforddiant a byddant yn ymgorffori adolygiad o'r rhaglen yn y fframwaith fonitro er mwyn sicrhau fod cartrefi'n parhau i ddarparu gofal diwedd bywyd i breswylwyr sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac y gellir gwarantu ei ansawdd.

Hefyd, mae Gofal Cymdeithasol yn parhau i gynorthwyo Darparwyr i gael mynediad at hyfforddiant drwy'r 'Bartneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol', er bod y Darparwr yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau fod eu staff yn derbyn hyfforddiant priodol. Yn ogystal, anfonir diweddariadau rheolaidd at Ddarparwyr ynghylch yr adnoddau dysgu a datblygu sydd ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.

**4.9 Recriwtio Diogel**

Mae'r prosesau Recriwtio Diogel a ddefnyddir gan Ddarparwyr yn cael eu monitro'n ofalus gan y Tîm Contractau. Mae hyd yn cynnwys cydymffurfiaeth â pholisi Recriwtio Diogel y Cyngor, rheoliadau Llywodraeth Cymru a Safonau Gofynnol Cenedlaethol a Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012. Mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i adolygu'r polisi Recriwtio Diogel a chanllawiau i wasanaethau a ddarperir drwy gontract. Mae Swyddogion Contract a Monitro yn gweithio gyda'r swyddog arweiniol i ddatblygu system fwy cadarn fydd yn gwella ymhellach allu'r tîm i fonitro cydymffurfiaeth darparwyr â gofynion recriwtio diogel.

- Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS):

- Rhaid i'r Darparwr sicrhau fod unrhyw berson a gyflogir (neu sy'n gweithio fel gwirfoddolwr) yn meddu ar Wiriad DBS Uwch gyda gwiriad yn erbyn y Rhestri Gwahardd Oedolion a/neu Blant. Dylid adnewyddu'r gwiriad DBS Uwch ddim amlach na bob 3 mlynedd ond o leiaf bob 4 blynedd.

- Rhaid gwirio hunaniaeth unrhyw berson a gyflogir neu a gymerir ymlaen gan y Darparwr. Rhaid i gyd-lofnodwr (neu eu cynrychiolydd) wirio hunaniaeth y person wyneb yn wyneb, yn unol ag argymhelliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

- Os yw'r gwiriad DBS yn amlygu unrhyw droseddau, rhybuddion neu wybodaeth arall, rhaid i'r Darparwr roi cyfweliad i'r unigolyn cyn eu cyflogi neu eu cymryd ymlaen, er mwyn cynnal asesiad risg priodol. Rhaid cadw cofnodion llawn o unrhyw gyfweliadau/cyfarfodydd oherwydd efallai y bydd y Tîm Contractau eisiau eu harchwilio.

- Ni ddylai'r Darparwr gyflogi na chymryd ymlaen unrhyw berson sydd ar restri Gwahardd Plant neu Oedolion Bregus y DBS i weithio mewn 'gweithgaredd a reoleiddir' gan fod hyn yn drosedd.

Bydd gwiriadau pellach yn cael eu gwneud fel a ganlyn:

- Gofynnir am eirdaon (yn unol â'r Rheoliadau, lle bo hynny'n berthnasol) a gofynnir cwestiynau am faterion disgyblu ac ymddygiad blaenorol ac ynghylch a oedd unrhyw faterion oedd yn peri pryder.

- Bydd tystysgrifau cymwysterau a dogfennau cofrestru (os yn berthnasol) yn cael eu gwirio gan wneud copïau ohonynt.

- Os yw'r swydd yn swydd gofrestredig e.e. Gwaith Cymdeithasol, gwirio nad yw'r unigolyn ar hyn o bryd, nac wedi bod yn y gorffennol, yn destun unrhyw ymchwiliadau neu wrandawiadau ymddygiad gan y Corff Cofrestru e.e. Cyngor Gofal Cymru.

- Bod esboniad yn cael ei roi am unrhyw fylchau mewn hanes cyflogaeth ac yn cael eu cadarnhau yn ysgrifenedig gan yr unigolyn.

- Yn unol â Deddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006, bydd dogfennau'n cael eu gwirio a'u dilysu i sicrhau fod gan yr unigolyn hawl i weithio yn y DU.

- Cofnodion Tramor: Os yw'r unigolyn wedi byw neu weithio tu allan i'r DU am fwy na blwyddyn (neu 6 mis yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf), rhaid i'r cyflogwr wneud pob ymgais rhesymol i gael yr hyn sy'n cyfateb i wiriad DBS yn y wlad honno.

Mae'r Tîm Contractau'n ymweld ag adeiladau'r Darparwyr i sicrhau fod cofnodion yn gallu dangos cydymffurfiaeth â'r safonau uchod – edrychir ar o leiaf bedair ffeil yn ystod pob ymweliad monitro. Os canfyddir achos o fethu â chydymffurfio, ychwanegir hyn i'r cynllun gweithredu cyffredinol. Yn dibynnu ar natur y methiant i gydymffurfio e.e. dim gwiriad DBS mewn lle, gofynnir i'r darparwr am dystiolaeth o Asesiad Risg neu hyd yn oed i roi dyletswyddau eraill i'r aelod staff nes y bydd y gwiriad DBS wedi'i gwblhau. Yn achos

materion megis bylchau mewn hanes cyflogaeth, bydd yn cael ei ddilyn i fyny fel rhan o'r cynllun gweithredu. Darperir adborth i AGC ar gyfer gwybodaeth bellach.

## 6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

D/B

## 7 – Oblygiadau Ariannol

Mae'r Awdurdod Lleol yn ariannu un Swyddog Monitro Contract i fonitro contractau ar draws y Gwasanaethau Oedolion a Phlant/Teuluoedd. Cyflwynwyd y swydd hon i'r strwythur yn 2016 a'i gwneud yn swydd barhaol.

## 8 – Atodiadau

Atodiad 1 – Fframwaith monitro
Atodiad 2.1 - Mesurau perfformiad canlyniadau 2015
Atodiad 2.2 - mesurau perfformiad canlyniadau 2018

## 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014)
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_en.pdf

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (2016)
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted

Gofal Cymdeithasol Cymru – adnoddau ar gyfer y Fframwaith Sefydlu a'r broses gofrestru ar gyfer gweithwyr gofal.
https://gofalcymdeithasol.cymru/

| Math o ddarparwr | Gwaith papur a ddefnyddir | Math o ymweliad | Amlder monitro | Math o fonitro |
|---|---|---|---|---|
| Cartref preswyl/nyrsio ar Ynys Môn (Oedolion) | Holiadur cyn-monitro darparwyr<br>Holiadur Iechyd a Diogelwch y Darparwyr<br>Holiadur staff<br>Holiadur defnyddiwr gwasanaeth/perthynas | Ymweliad safle y ceir rhybydd amdano ymlaen llaw, edrych ar ffeiliau'r defnyddwyr gwasanaeth a ffeiliau'r staff.<br>Edrych ar bolisïau, llyfr damweiniau a digwyddiadau, cofnodion o gwynion a thaflenni MAR.<br>Edrych o gwmpas y cartref. | Blynyddol | Ymweliad y ceir rhybudd amdano ymlaen llaw.<br>Darllen adroddiad arolygiad CIW |
| Preswyl/nyrsio – tu allan i ' r Sir | Holiadur cyn-monitro darparwyr<br>Holiadur Iechyd a Diogelwch y Darparwyr<br>Holiadur staff | Ddim yn berthnasol | Blynyddol | Monitro 'bwrdd gwaith' *('desk top)* - gofyn am gopïau o unrhyw adroddiadau gan yr awdurdod lletyol, a gofyn a oes unrhyw broblemau.<br>Darllen adroddiad arolygiad CIW/CQC |
| Byw â chymorth | Holiadur cyn-monitro darparwyr<br>Holiadur Iechyd a Diogelwch y Darparwyr<br>Holiadur staff | Ymweliad safle y ceir rhybudd amdano ymlaen llaw, edrych ar ffeiliau'r defnyddwyr gwasanaeth a ffeiliau'r staff.<br>Edrych ar bolisïau, llyfr damweiniau a digwyddiadau, cofnodion o | Blynyddol | Ymweliad y ceir rhybudd amdano ymlaen llaw.<br>Darllen adroddiad arolygiad CIW |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gwynion a thaflenni MAR. Edrych o gwmpas y cartref. | | |
| Gwasanaethau dydd | Holiadur cyn-monitro darparwyr<br>Holiadur Iechyd a Diogelwch y darparwr<br>Holiadur staff | Ymweliad safle y ceir rhybudd amdano ymlaen llaw. Edrych ar ffeiliau'r defnyddwyr gwasanaeth a ffeiliau'r staff. Edrych ar sampl o bolisïau, llyfr damweiniau a digwyddiadau ac edrych o gwmpas y cartref. | Blynyddol | Ymweliad y ceir rhybudd amdano ymlaen llaw. |
| Lleoliadau Plant/Pobol Ifanc | Ffurflen monitro darparwyr - gofynnir i ddarparwyr gwblhau ffurflen naill ai fel lleoliad preswyl neu fel lleoliad preswyl sydd hefyd yn darparu addysg. Holiadur Iechyd a Diogelwch | Ddim yn berthnasol | Blynyddol | Monitro 'bwrdd gwaith' – Gofyn i'r awdurdodau lletyol am gopïau o adroddiadau ac unrhyw wybodaeth, ond gall hyn fod yn anodd, yn enwedig gyda lleoliadau yn Lloegr. Edrych ar adroddiadau AGC, Estyn ac Ofsted. |

**Atodiad 2 - 2 Perfformiad Canlyniadau 2015**

| | | Canlyniad 1 | | | | | Canlyniad 2 | | | | | Canlyniad 3 | | | | | Canlyniad 4 | | | | | Canlyniad 5 | | | | | Canlyniad 6 | | | | | Canlyniad 7 | | | | | Canlyniad 8 | | | | | Canlyniad 9 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Mae Defnyddwyr Gwasanaeth yn byw mor annibynnol | | | | | Mae gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth ddewis a rheolaeth | | | | | Mae Defnyddwyr Gwasanaeth yn ddinasyddion llawn, a | | | | | Mae Defnyddwyr Gwasanaeth yn cael cyfleoedd i wired | | | | | Mae Defnyddwyr Gwasanaeth yn derbyn cefnogaeth i g | | | | | Mae Defnyddwyr Gwasanaeth yn teimlo'n saff ac yn dd | | | | | Mae Defnyddwyr Gwasanaeth yn cael eu trin ag urddas | | | | | Mae Defnyddwyr Gwasanaeth yn cael eu diogelu rhag c | | | | | Mae Defnyddwyr Gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau o safon uchel | | | | | |
| DARPARWR | | Rhagorol | Da | Angen Gw | Gwael | | Rhagorol | Da | Angen Gw | Gwael | | Rhagorol | Da | Angen Gw | Gwael | | Rhagorol | Da | Angen Gw | Gwael | | Rhagorol | Da | Angen Gw | Gwael | | Rhagorol | Da | Angen Gw | Gwael | | Rhagorol | Da | Angen Gw | Gwael | | Rhagorol | Da | Angen Gw | Gwael | | Rhagorol | Da | Angen Gw | Gwael | Marc | Safle |
| A | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 120 | 1 |
| B | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 95 | 2 |
| C | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 85 | 3 |
| D | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 85 | 3 |
| E | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 85 | 3 |
| F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 85 | 3 |
| G | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 85 | 3 |
| H | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 80 | 7 |
| I - | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 80 | 7 |
| J- | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 80 | 7 |
| K- | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 75 | 10 |
| L | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 65 | 11 |
| M | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 60 | 12 |
| N | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 60 | 12 |
| O | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 55 | 14 |
| P | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 50 | 15 |
| Q | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 50 | 15 |
| R | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 50 | 15 |
| S - | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 40 | 18 |
| T - | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 40 | 18 |
| U - | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 40 | 18 |
| V | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 30 | 21 |
| W | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 5 | 22 |
| X | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 5 | 22 |

Y - Wedi cael ei ohirio

**Atodiad 2.1 - Perfformiad Canlyniadau 2018**

| Darparwr | | | Canlyniad 1 | | | | | Canlyniad 2 | | | | | Canlyniad 3 | | | | | Canlyniad 4 | | | | | Canlyniad 5 | | | | | Canlyniad 6 | | | | | Canlyniad 7 | | | | | Canlyniad 8 | | | | | Canlyniad 9 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae Defnyddwyr Gwasanaeth yn byw mor annibynnol a | | | | | Mae gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth ddewis a rheolaeth | | | | | Mae Defnyddwyr Gwasanaeth yn ddinasyddion llawn, a | | | | | Mae Defnyddwyr Gwasanaeth yn cael cyfleoedd i wired | | | | | Mae Defnyddwyr Gwasanaeth yn derbyn cefnogaeth i g | | | | | Mae Defnyddwyr Gwasanaeth yn teimlo'n saff ac yn dd | | | | | Mae Defnyddwyr Gwasanaeth yn cael eu trin ag urddas | | | | | Mae Defnyddwyr Gwasanaeth yn cael eu diogelu rhag c | | | | | Mae Defnyddwyr Gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau o safon uchel | | | | | | |
| | DARPARWR | | Rhagorol | Da | Angen Gw | Gwael | | Rhagorol | Da | Angen Gw | Gwael | | Rhagorol | Da | Angen Gw | Gwael | | Rhagorol | Da | Angen Gw | Gwael | | Rhagorol | Da | Angen Gw | Gwael | | Rhagorol | Da | Angen Gw | Gwael | | Rhagorol | Da | Angen Gw | Gwael | | Rhagorol | Da | Angen Gw | Gwael | | Rhagorol | Da | Angen Gw | Gwael | Marc | Safle | |
| | I - | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 100 | 1 | |
| | D | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 100 | 2 | |
| | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 90 | 2 | |
| | T - | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 90 | 2 | |
| | U - | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 90 | 2 | |
| | M | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 90 | 2 | |
| | E | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 90 | 2 | |
| | J- | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 90 | 2 | |
| | A | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 90 | 2 | |
| | V | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 85 | 3 | |
| | S - | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 85 | 3 | |
| | B | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 80 | 4 | |
| | O | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 80 | 4 | |
| | C | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 80 | 4 | |
| | L | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 70 | 5 | |
| | H | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 70 | 5 | |
| | G | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 65 | 6 | |
| | N | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 60 | 7 | |
| | R | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 60 | 7 | Mae'r cartref wedi cau |
| | Q | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 55 | 8 | |
| | W | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 40 | 9 | Mae'r cartref wedi cau |
| | X | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | P | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cartrefi y bu'r Hyb yn eu monitro yn y gorffennol | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 90 | 2 | |
| | 2 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 90 | 2 | |
| | 3 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 85 | 3 | |

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**<u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 11.09.19 |
| **Pwnc:** | Trefniadau Diogelu Corfforaethol |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Bwriad yr adroddiad felly yw ceisio rhoi trosolwg ar waith y Bwrdd Diogelu Corfforaethol am y cyfnod adrodd ynghyd â chrynhoi'r blaenoriaethau i'r dyfodol. |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng. Gwilym Owen Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Mae hwn yn fater ar draws pob portffolio. |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Mae hwn yn fater ar gyfer pob Pennaeth Gwasanaeth. Cyflwynir yr adroddiad yn enw y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn unol â'r cyfrifoldeb â'r atebolrwydd statudol sydd wedi ei freinio yn y rôl honno dros faterion diogelu. |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Anwen Huws<br>01248751811<br>AnwenMHughes@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | |

**1 – Argymhelliad/ion**

1. Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar yr adroddiad a nodi'r trefniadau sydd mewn lle a'r meysydd y mae'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol yn gyrru arnynt er mwyn sicrhau cwrdd â'n dyletswyddau statudol yn y maes yma
2. Cynnig sylwadau er mwyn llywio a dylanwadu ar y blaenoriaethau yn y Cynllun Gweithredu
3.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Un o flaenoriaethau corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn yw sicrhau bod pobl fregus yn cael eu diogelu ac y gallant fyw bywydau mor annibynnol â phosib. Mae'r Cyngor yn credu fod gan bob plentyn ac oedolyn yr hawl i fod yn ddiogel rhag niwed. Mae "Diogelu" yn gyfrifoldeb i bawb ym mhob Gwasanaeth o fewn y Cyngor. Er mai Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r Gwasanaeth Arweiniol ar gyfer delio ag ymholiadau mewn perthynas â honiadau / pryderon y gallai plant ac oedolion fod yn dioddef niwed sylweddol, mae cyfrifoldeb ar bawb i ddiogelu lles plant, pobl ifanc ac oedolion, beth bynnag yw rôl yr unigolyn.

| 3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini |
|---|
| **Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**<br><br>**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• hirdymor<br>• atal<br>• integreiddio<br>• cydweithio<br>• cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]** |

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| A ydi trefniadau llywodraethu yn effeithiol?<br><br>Pa gynnydd sydd yn cael ei wneud yn erbyn y cynllun gwaith?<br><br>A ydi'r adnoddau mewn lle ar gyfer cyflawni'r cynllun gwaith?<br><br>A oes tystiolaeth fod cyfleodd i staff ac aelodau yn glir am y disgwyliadau a roddir arnynt o ran ymateb yn briodol i bryderon y ceir gwybod amdanynt?<br><br>A oes tystiolaeth fod gweithdrefnau corfforaethol cadarn yn eu lle ac yn cael eu gweithredu yn gyson?<br><br>Sut mae'r Cyngor yn sicrhau fod ymarfer diogel mewn gwasanaethau a gomisiynir a bod yr holl ddarparwyr sy'n gweithredu ar ran y Cyngor yn ymarfer eu cyfrifoldebau diogelu mewn modd effeithiol? |

| 4 – Cefndir / Cyd-destun |
|---|
| Mi ddylai pob sefydliad sy'n gweithio â phlant, pobl ifanc ac oedolion fod wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo eu lles. Mae cyfrifoldebau statudol arnom mewn sawl maes. Mae'r rhain wedi eu diffinio yn y Cynllun Gweithredu sydd yn Atodiad 1. Yn fyr:-<br><br>- Dyletswydd ar Gyngor Sir Ynys Môn i sicrhau ei fod yn ymgymryd â'i swyddogaethau mewn ffordd sy'n diogelu ac yn hyrwyddo lles plant ac oedolion all fod mewn peryg |

- Dyletswyddau dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ar gyfer atal trais yn seiliedig ar ryw, camdriniaeth a thrais rhywiol.
- Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i adnabod unigolion a theuluoedd bregus y mae risg y byddant yn cael eu radicaleiddio gan bob math o derfysgaeth

- Deddf Caethwasiaeth Fodern yn gosod dyletswyddau fel ymatebwr cyntaf i achosion o gaethwasiaeth.

Wrth gyfeirio at Ddiogelu Corfforaethol rydym yn cynnwys materion sydd yn ymwneud ag

- Arweinyddiaeth Gorfforaethol – rheolaeth a chraffu effeithiol ar drefniadau llywodraethu diogelu corfforaethol

- Polisïau a Chanllawiau priodol mewn lle er mwyn sicrhau bod yr holl staff ac aelodau yn gwybod beth y disgwylir iddynt ei wneud o ran ymateb yn briodol i bryderon y rhoddir gwybod amdanynt; gweithdrefnau effeithiol ar gyfer cofnodi ac ymateb i ddigwyddiadau ac unrhyw honiadau neu amheuon ynghylch niwed neu gamdriniaeth

- Recriwtio Staff yn Ddiogel – sicrhau bod y Cyngor yn cynnal gweithle diogel

- Hyfforddi a Datblygu – sicrhau bod yr holl weithlu ac aelodau yn deall arferion diogel a'r hyn sydd yn ofynnol ganddynt

- Partneriaid, gwirfoddolwyr a gwasanaethau a gomisiynir- sicrhau arferion diogel mewn gwasanaethau a gomisiynir a bod pawb sy'n darparu gwasanaeth ar ran y Cyngor yn cyflawni eu cyfrifoldebau diogelu yn effeithiol.

- Systemau – sicrhau goruchwyliaeth a rheolaeth effeithiol o faterion diogelu ym mhob gwasanaeth a thrwy'r Cyngor cyfan

Ar lefel Gorfforaethol, mae'r cyfrifoldeb ar gyfer monitro effeithiolrwydd y trefniadau diogelu ar draws y Cyngor wedi cael ei freinio yn y Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol. Rhaid i'r Bwrdd adrodd i'r Aelodau - gan roi trosolwg o berfformiad y Cyngor o ran cydymffurfio â'r Polisi Diogelu Corfforaethol. Mae angen i'r Pwyllgor Sgriwtini herio a chraffu ar waith a pherfformiad y Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol. Bydd sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini yn llywio ac yn dylanwadu ar y blaenoriaethau yn rhaglen waith y Bwrdd Corfforaethol.

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| |

| |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

| 7 – Oblygiadau Ariannol |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| Atodiad 1 - Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol 2018-20<br>Atodiad 2 – Adroddiad Blynyddol y Cyngor i Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru<br>& Adroddiad Blynyddol y Cyngor i Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru<br>Atodiad 3 - Gwybodaeth Hyfforddiant |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| |

**Adroddiad Diogelu Corfforaethol 2018/19 a 2019/2020 (hyd at ddiwedd Mehefin 2019)**

## 1. Cyd destun

1.1 Bydd yr Aelodau yn ymwybodol bod y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i'r maes diogelu, fel cyfrifoldeb corfforaethol a rhennir. Yn flynyddol, mae disgwyl i bob Pennaeth Gwasanaeth nodi ei amcanion Diogelu ar gyfer y flwyddyn, a byddent yn cael eu hadlewyrchu yn eu Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth. Ar ran y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, bydd y Rheolwr Perfformiad Corfforaethol yn sicrhau bod hyn yn digwydd yn gyson yn y Cynlluniau Cyflenwi Gwasanaethau. Bob chwarter, mae disgwyl bod pob Pennaeth Gwasanaeth yn adolygu eu cynnydd mewn perthynas â chyflawni eu Cynlluniau Cyflenwi Gwasanaeth, gan gynnwys yr amcanion Diogelu.

1.2 Bydd yr Aelodau hefyd yn ymwybodol bod Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol wedi ei sefydlu ar gyfer rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyfarwyddwr Statudol o effeithiolrwydd ein trefniadau diogelu fel Cyngor. Mae'n cwrdd yn chwarterol fel rhan o'r Cyfarfod Penaethiaid. Mae hyn yn sicrhau fod pob Pennaeth Gwasanaeth yn rhan o waith y Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol. Mae gan y Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol drosolwg o'r agenda diogelu ehangach sydd yn bodoli. Mae'r meysydd ffocws wedi ei chynnwys yn y rhaglen waith sydd i'w gweld yn atodiad 1. Bydd yr aelodau yn nodi fod hyn yn cynnwys dyletswyddau adnabod ac atal radicaleiddio, gofynion caethwasiaeth fodern, a gofynion trais yn erbyn menywod, cam-drin rhywiol a chamdrin domestic.

1.3 I gefnogi gweithredu'r Cynllun Gwaith sefydlwyd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol Gweithredol. Mae aelodaeth y grŵp yn cynnwys pencampwyr diogelu o bob gwasanaeth o'r Cyngor: fe'i cadeirir gan Gwyneth Hughes, Gwasanaeth Dysgu ar hyn o bryd.

1.4 Mae trefniadau partneriaeth a llywodraethol eraill, megis

1.4.1 Byrddau Diogelu Rhanbarthol ar gyfer Plant ac Oedolion, ar gyfer ymdrin â materion arbenigol y maes. Mae'r Byrddau hyn yn rhai statudol sydd yn draws asiantaeth, gyda chyfrifoldebau penodol a chyfreithiol. Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i gyfrannu at y Byrddau hyn yn rhanbarthol o ran gweithredu. Ceir copïau o'n hadroddiadau blynyddol i'r Byrddau hyn yn atodiad 2 & 3. Dyma linc i adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru:- https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/wp-content/uploads//2019/07/V10-Final-NWSB-Report-cymraeg-docx.pdf.

1.4.2 Mae Bwrdd Contest Rhanbarthol sydd yn fwrdd aml asiantaethol. Annwen Morgan, Prif weithredwr Cynorthwyol sydd yn cynrychioli Cyngor Sir Ynys Môn arno. Mae Partneriaeth Diogelu Gymunedol Gwynedd a Môn gyda'r cyfrifoldeb i oruchwylio rhaglenni Prevent o fewn y gwasanaethau'r bartneriaeth.

1.4.3 Bwrdd Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, cam-drin domestig a Thrais Rhywiol. Daeth y ddeddf Trais yn erbyn Menywod, cam drin domestig a thrais rhywiol (Cymru) i rym yn 2015. Nod y ddeddf yw gwella ymateb y sector Gyhoeddus yng Nghymru i gam drin a thrais o'r fath. Yn benodol mae'r ddeddf yn gosod cyfrifoldebau ar Gynghorau i sefydlu strwythur gweithredu

Rhanbarthol. I'r perwyl hyn mae Bwrdd Strategol Rhanbarthol wedi ei sefydlu. Caroline Turner (ac nawr Alwyn Jones), Cyfarwyddwr Statudol sy'n cynrychioli'r Cyngor ar y Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi penodi 'Cynghorydd Rhanbarthol', fel sydd yn ofynnol yn y ddeddf ac maent yn awr yn gweithio ar raglen trawsffurfio ranbarthol

1.4.4 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caethwasiaeth Fodern Gogledd Cymru. Fe'i cadeirir gan Annwen Morgan, Prif Weithredwr Cynorthwyol. Nod y bwrdd yw cydlynu camau i fynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern ledled Gogledd Cymru.

**Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol**

1.5 Yn ystod y cyfnod adrodd caewyd Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol 2016/17 – 2017/18. Roedd ffocws y cynllun hwnnw ar sicrhau fod trefniadau mewn lle ar gyfer

- Arweinyddiaeth Gorfforaethol
- Sefydlu Polisïau perthnasol
- Datblygu prosesau recriwtio diogel
- Diffinio gofynion hyfforddiant a darparu hyfforddiant
- Dylanwadu ar ein partneriaid, gwirfoddolwyr a gwasanaethau y'u comisiyir.
- Sicrhau fod systemau priodol mewn lle

1.6 Yn dilyn hyn, sefydlwyd y cynllun gweithredu cyfredol. Mae ffocws y gwaith hwnnw ar sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer

- Arweinyddiaeth a Llywodraethu Corfforaethol
- Datblygiadau newydd a mawr - Diogelu Perthnasedd
- Cyfathrebu ac Ymwybyddiaeth:
- Gweithlu Diogel a Medrus
- Cefnogaeth ac Ymyriadau Effeithiol
- Partneriaid, gwirfoddolwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd

Adroddir ar yr amcanion, y camau gweithredu a'r cynnydd unigol ar y Cynllun Gweithredu yn Atodiad 1.

## 2. Cyflawniadau Allweddol

**Fframwaith Polisïau**

2.1 Mae'r Awdurdod Lleol wedi sefydlu sawl polisi perthnasol i'r maes diogelu. Yn ystod y cyfnod adrodd adolygwyd y Polisi Diogelu Corfforaethol er mwyn cydnabod dyletswyddau diogelu ehangach ac i ddarparu fframwaith cynhwysol o'r polisïau perthnasol. Bu gweithred o gydymffurfiad drwy Borth Polisi. Hyd at 17 Gorffennaf 2019, roedd 95% o staff â mynediad at gyfrifiadur wedi derbyn y polisi (sef 927 allan o 973 o staff). Fodd bynnag, nid yw staff yn gallu cymryd rhan o gwbl os nad oes ganddynt fynediad at gyfrifiadur fel rhan o'u gwaith. Mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried gwahanol ddulliau i gyrraedd y gwahanol gategorïau o staff.

2.2 Yn ogystal cafodd nifer o bolisïau a chanllawiau ymarfer eu datblygu a'i lansio yn ystod y cyfnod adrodd. Bydd hyn yn rhoi cyngor ac arweiniad i staff o'r hyn sydd yn ddisgwyliedig ohonynt mewn amgylchiadau penodol.

2.2.1 Cafodd y Polisi Trwyddedau Tacsis ei ddiwygio er mwyn sicrhau fod derbyn hyfforddiant diogelu yn dod yn amod cofrestru. Darparwyd hyfforddiant perthnasol i yrwyr tacsi.
2.2.2 Lansiwyd Canllaw Ymarfer Diogelu i staff ar draws y cyngor mewn amgylchiadau penodol e.e. Gwneud cyfeiriad i'r Gwasanaeth Plant: Mynychu Cynhadledd Achos Amddiffyn Plant, Mynychu Grŵp Craidd Amddiffyn Plant

2.2.3 Canllaw Ymarfer Prevent a Pholisi Dim Llwyfan ('No Platform') er mwyn cefnogi gweithredu'r dyletswydd atal radicaleiddio.

2.2.4 Lluniwyd canllawiau ymarfer da yn gosod disgwyliadau ymddygiad ar gyfer gyrwyr bysiau ysgol. Unwaith y'i cymeradwyir, byddwn yn argymell eu cyflwyno fel ymrwymiad gwirfoddol yn y lle cyntaf. Pan fo'r gwasanaethau hyn yn cael eu hail dendro dylid ystyried mabwysiadu'r canllaw fel rhan o'r manylder gwasanaeth.

**Wylfa Newydd**

2.3 Cwblhawyd astudiaeth o effaith Wylfa Newydd ar faterion diogelu er mwyn bwydo'r Adroddiad Effaith Lleol ac adnabod camau lliniaru angenrheidiol. Fe wnaeth y gwrandawiad DCO archwilio materion yn ymwneud â diogelu ym mis Ionawr 2019. Cwblhawyd mewnbwn i gytundebau A106.

**Hyfforddiant**

*2.4* Mae rhaglen hyfforddiant Diogelu Cyffredinol a Sylfaenol ar gael ac mae gofyn i Wasanaethau fapio eu hanghenion yn unol â'r Fframwaith Hyfforddiant Diogelu er mwyn bwydo rhaglen gorfforaethol. Yn atodiad 3 ceir ffigyrau hyfforddiant am y cyfnod adrodd. Mae hyfforddiant arbenigol diogelu yn cael ei drefnu yn ogystal yn unol ag anghenion y gweithlu.

2.5 Mae sawl pecyn e ddysgu perthnasol ar gael ac mae angen i wasanaethau ystyried sut y gallent sicrhau bod cwblhau y rhain yn ffurfio rhan o'r broses gynefino ar gyfer aelodau staff newydd e.e. modiwl e-ddysgu Caethwasiaeth Fodern, Modiwl e ddysgu Prevent a'r modiwl e-ddysgu Lefel 1 ar y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV).

**Caethwasiaeth Fodern**

2.6 Ymrwymodd yr Awdurdod Lleol i'r Côd Ymarfer Cyflogaeth Foesegol o fewn cadwyni cyflenwad sydd yn anelu at sicrhau bod pob sefydliad yn y sector cyhoeddus yn gweithredu i ddileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol. Mae polisïau perthnasol e.e. Polisi Canu Chwiban a'r Polisi Recriwtio wedi eu adolygu er mwyn adlewyrchu gofynion y Côd Ymarfer. Mae cymalau cytundebau a chymalau caffael wedi eu diweddaru. Mae angen yn nawr sicrhau fod gwasanaethau perthnasol yn gweithredu yn unol â'r ymrwymiad a bod gofynion y còd yn treiddio drwy'r modd yr ydym yn caffael ac yn rheoli contractau. Cyhoeddwyd datganiad yr Awdurdod Lleol o'r modd y bu iddo weithredu ar ymrwymiadau'r Côd Ymarfer.

2.7 Mae'r modiwl e ddysgu Caethwasiaeth Fodern wedi ei lansio. Mae lefel cydymffurfiad yn 48% (Awst 2019)

2.8 Nid yw'r cyfeiriadau sydd yn ein cyrraedd mewn perthynas â Chaethwasiaeth yn uchel.

Mae llwybrau ymateb mewn lle. Mae gwasanaethau perthnasol wedi cydweithio â Heddlu Gogledd Cymru ar sawl ymchwiliad/ymarfer wedi eu cynllunio.

**Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Cham-drin Rhywiol**

2.9 Yn sgil y ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Cham-drin Rhywiol sefydlwyd y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol, sy'n cynnwys chwe grŵp hyfforddi. Mae holl broffesiynau'r gwasanaethau cyhoeddus yn perthyn i un o'r grwpiau hyn ac mae'n ofynnol bod pob aelod o weithlu'r Cyngor yn derbyn yr hyfforddiant perthnasol. Roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Gynghorau sicrhau fod ei holl staff wedi cwblhau hyfforddiant Lefel 1 erbyn 31.03.18. Ni lwyddwyd i gyrraedd hwn am amryw o resymau gan gynnwys nad oedd safon iaith Gymraeg y deunyddiau dysgu yn ddigonol yn ogystal â materion technegol. Mae lefel cydymffurfiad ar hyn o bryd yn 71% (Awst 2019)

2.10 Yn ogystal bu'n ofyn i'r Awdurdod Lleol

- Adnabod y staff rheini sydd angen Hyfforddiant Gofyn a Gweithredu sef Lefel 2 Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol.
- Unigolion o fewn gwasanaethau i'w hyfforddi fel hyfforddwyr Gofyn a Gweithredu
- Unigolion o fewn gwasanaethau i'w hyfforddi fel Pencampwyr Gofyn a Gweithredu sef Lefel 3 Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol.

Roedd yr Awdurdod Lleol yn barod i gyflwyno'r hyfforddiant yn ystod 2019/20 ar sail rhaglen dreigl . Ond mae Llywodraeth Cymru wedi newid y gofynion mynediad ar gyfer yr hyfforddwyr i gynnwys cymhwyster hyfforddiant yn cyfateb i Lefel A neu 6 mis o brofiad o ddarparu hyfforddiant. Mae'r newid yma yn her o ran adnabod swyddogion o fewn gwasanaethau penodol sydd yn cwrdd â'r gofynion hyn. Pery ymdrechion i geisio datrys y rhwystr.

2.11 Yn ogystal mae disgwyliad fod arweinyddion yr Awdurdod Lleol - aelodau ac uwch swyddogion - yn cwblhau rheng 6 o'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol - a hynny drwy gyfrwng clipiau fideo. Mae hyn yn deillio o'r gofyn fod Gofyn a Gweithredu yn rhan o newid cyfundrefnol ac nid dim ond rhaglen hyfforddiant. Roedd pob pennaeth gwasanaeth wedi gwneud hyn ym Mehefin 2019.

**Prevent**

2.12 Mae'r strategaeth Prevent yn cynnwys datblygu ystod eang o weithgareddau gan gynnwys cymorth ymarferol, cyngor a chefnogaeth ac ystod o ddigwyddiadau a rhaglenni cefnogi unigolion a sefydliadau i wrthbwyso ideolegau maleisus.

2.13 Yn ystod y cyfnod adrodd mae rhaglen hyfforddiant cynhwysfawr wedi digwydd o fewn ysgolion Ynys Mon gyda 100% o'n hysgolion wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant (lefel 1 neu 2) sydd yn cynnwys modiwlau ar radicaleiddio. Mae sleidiau hyfforddiant pwrpasol Lefel 1 a 2 ar gael i holl ysgolion ar hyd y flwyddyn gan bod hi'n debygol i ysgol gyflogi gweithiwr o'r newydd ar unrhyw bryd ac mae hyfforddiant Lefel 2 wyneb yn wyneb wedi cael ei gynnal yn dymhorol i 64 o athrawon, 19 gweithwyr ieuenctid ac 20 o weithwyr Blynyddoedd Cynnar, Dechrau'n Deg.

2.14 Mae modiwl e ddysgu Prevent i'w lansio ar gyfer staff y Cyngor ym Medi 2019.

2.15 Yn ogystal mae hi'n ofyn statudol inni fod yn cynnal paneli 'CHANNEL' sydd yn

gyfarfodydd aml asiantaeth sydd yn rhoi ffocws i gefnogi pobl yn gynnar sydd wedi cael eu hadnabod fel rhai sydd mewn peryg o'u radicaleiddio. Mae'r panel yn gweithio mewn dull aml asiantaethol i adnabod unigolion, asesu natur y peryg a datblygu ffyrdd effeithiol a priodol i gefnogi'r unigolion. Mae trefniadau Paneli 'CHANNEL' mewn lle ac yn ymateb yn brydlon am yr angen i ymyrraeth pe bai'r angen yn codi. Nifer fechan iawn o achosion sydd yn cael eu cyfeirio mewn perthynas â hyn. Nid oes achos yn CHANNEL ar hyn o bryd.

## 3. Sicrhau Ansawdd a Chydymffurfiad

3.1 Mae angen i'r Bwrdd Strategol Diogelu Corfforaethol sicrhau bod y gwasanaethau'n gweithredu'r polisïau diogelu yn gyson, ynghyd â darparu cymorth i'r gwasanaethau hynny ble mae angen. Ni all y gwasanaethau ddibynnu ar brosesau sicrwydd allanol yn unig. Mae gan y Bwrdd Strategol Diogelu Corfforaethol rôl allweddol yn sicrhau fod gwasanaethau yn gweithredu eu systemau hunan sicrwydd ac yn darparu her i'r naill a'r llall. Fel cam cyntaf cynhaliwyd awdit gan y gwasanaethau o'u trefniadau penodi diogel. Mae'r gwaith yma yn parhau.

3.2 Cyflwynwyd Diogelu Corfforaethol fel adran newydd o'r Hunanasesiadau Her Gwasanaeth eleni er mwyn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol bod y Cyngor yn ymgymryd â'i gyfrifoldebau. Crynhowyd yr ymatebion a darparwyd adroddiad i'r Penaethiad. Nodwyd y bu trafodaeth bositif a nododd pob gwasanaeth ond un bod eu perfformiad yn Dda o ran Diogelu Corfforaethol. Roedd yr ymatebion gan y Gwasanaethau yn canolbwyntio'n bennaf ar yr elfen DBS o Ddiogelu Corfforaethol, a roddodd sicrwydd fod y broses DBS yn cael ei rheoli'n dda yn y mwyafrif o wasanaethau. Graddiodd un Gwasanaeth, sef Dysgu, ei berfformiad fel Digonol yn gyffredinol gan nad oeddent yn teimlo bod eu dull presennol o ddefnyddio Taenlen Excel yn ei gwneud yn hawdd i fonitro pryd oedd y gwiriadau DBS i fod i gael eu hadnewyddu. Byddant yn cydweithio â'r Adain TGCh er mwyn gwella hyn ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, nodwyd yn yr Adolygiadau gwasanaeth yr angen i Wasanaethau ddeall bod Diogelu Corfforaethol yn llawer mwy na chydymffurfiaeth â pholisïau DBS. Adnabuwyd meysydd ar gyfer eu gwella ac argymhellir y bydd y rhain yn cael eu monitro gan y Bwrdd Diogelu Corfforaethol dros y 12 mis nesaf er mwyn sicrhau bod y gwelliannau hyn yn cael eu gwneud.

- Fe ddylai'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol adolygu'r holl ymatebion gan y gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn fodlon â pherfformiad Da ar gyfer Diogelu Corfforaethol.
- Gwella'r nifer sydd wedi cwblhau'r asesiad ar y Porth Polisi, yn enwedig o fewn y Gwasanaethau Oedolion, Dysgu a'r Gwasanaeth Tai. Fe ddylai'r bwrdd hefyd ystyried sut mae staff allan yn y gymuned, ac sydd heb fynediad i'r Porth Polisi, yn gallu darllen a derbyn y polisïau Diogelu.
- Fe ddylai'r Cyngor gynyddu'r ddealltwriaeth o Ddiogelu Corfforaethol o fewn y Gwasanaethau. Dylid gwneud hyn drwy hyfforddiant cyffredinol a hyfforddiant lefel uwch fel bo'n briodol.
- Sicrhau bod DBS gan yr holl staff sydd angen un.

- Dylid ychwanegu cwestiynau pellach i'r Hunan-Asesiad er mwyn tystiolaethu bod Gwasanaethau yn ymgymryd â'u rolau o ran Diogelu Corfforaethol.

3.3 Mae trefn penodol o hunan asesu blynyddol diogelu yn cael ei datblygu, a bydd yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Strategol Diogelu Corfforaethol er mwyn sicrhau her a chefnogaeth. Bwriedir adrodd ymhellach i'r Aelodau ynghylch y canfyddiadau.

3.4 Cynhaliwyd sawl archwiliad mewnol yn y cyfnod perthnasol:

3.4.1 Archwiliad Trafnidiaeth Ysgol – yn Medi 2017. Lefel Sicrwydd Cyfyngedig. Gwnaed gwaith i leihau'r risgiau, ac yn Ebrill 2018 nodwyd fod Lefel Sicrwydd rhesymol yn bod. Diweddarwyd Polisi Cludiant a bellach mae'n cynnwys yr amod bod yr Adran Trafnidiaeth Cyngor Sir Ynys Môn yn rheoli ac yn trefnu yr holl gytundebau cludiant ysgol angenrheidiol gyda'r darparwyr gwasanaeth priodol. Mae hyn yn cynnwys cwblhau gwiriadau GDG ar gyfer pob gyrrwr ac ar gyfer pob Cymhorthydd Teithiwr ysgol. Noder: cyflogir Cymorthyddion Teithiwr, ble tybir yn addas, ar Wasanaethau Ysgol Cynradd yn unig, neu os oes anghenion yn deillio o Anghenion Dysgu Ychwanegol y plentyn. Mae'r Polisi Cludiant hefyd bellach yn cyfeirio at cydymffurfio â gofynion y Côd Ymddygiad Wrth Deithio.

3.4.2 Cafwyd archwiliad ôl archwilio Diogelu Corfforaethol - lefel sicrwydd rhesymol. Mae'r gweithredu a oedd ei angen wedi ei gynnwys yn y Cynllun Gweithredu Diogelu 2018/20. Mae archwiliad ôl archwilio o'r archwiliad yma wedi ei gynnal ym mis Gorffennaf 2019.

3.4.3 Cafwyd archwiliad o barodrwydd i gwrdd â gofynion Contest: yn cynnwys y dyletswydd Prevent. Lefel sicrwydd rhesymol. Eto bydd y gweithredu a oedd ei angen yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Gweithredu Diogelu 2018/20.

## 4. Archwiliadau Allanol a'u derbyniwyd yn ystod y cyfnod

4.1 Adroddiad Arolygaeth ar y Gwasanaeth Plant a'u Teuluoedd
https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-12/181210-gwasanaethau-plant-ynys-mon-cy.pdf

## 5. Y bwriad wrth edrych ymlaen

5.1 Fel sydd wedi ei nodi ar gychwyn yr adroddiad hwn, mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu ac uchafu'r maes Diogelu trwy sicrhau ei fod yn derbyn ystyriaeth drawsadrannol a sylw cyngor cyfan - yn hytrach na'i fod yn cael ei weld fel cyfrifoldeb rhai gwasanaethau yn unig. Bydd y Bwrdd Diogelu Strategol yn datblygu at yr hyn sydd wedi ei gyflawni er mwyn sicrhau trosolwg o'r agenda diogelu ehangach, a chryfhau eu trefniadau herio a dal i gyfrif.

5.2 Mae'r meysydd blaenoriaeth wedi eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Diogelu Strategol.

# Atodiad 1

## Polisi Diogelu Corfforaethol

## Cynllun Gweithredu 2018/19 – 2019/20

## Corporate Safeguarding Policy

## Action Plan 2018/19 – 2019/20

**Cyflwyniad a Chyd-destun**

Mae'r Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol yn adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd gan y cynllun blaenorol ac mae'n cynnwys rhaglenni ehangach. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar weithredu awdurdod cyfan. Nid yw camau unigol y gellir eu cynnwys ar lefel gwasanaeth unigol wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu hwn: oherwydd byddant yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynlluniau Darparu'r Gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn: ac yn cael eu monitro. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar faterion ar draws gwasanaethau: a phrif feysydd y dylai'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol gynnal trosolwg ohonynt. Yn ogystal â'r Dyletswyddau Diogelu sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014, cyfeirir at faterion diogelu ehangach. Mae crynodeb byr o'r meysydd hynny wedi'u cynnwys:-

| | |
|---|---|
| Dyletswydd Atal | Dyletswyddau cyfreithiol o dan **Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015**. Rydym yn amcanu at: -<br><br>▪ Atal pobl rhag cael eu denu gan derfysgaeth, wrth gyflawni ein gwahanol swyddogaethau.<br>▪ Nodi a chefnogi pobl fregus fel rhan o'n cyfrifoldebau diogelu ehangach.<br>▪ Sefydlu polisïau a gweithdrefnau priodol.<br>▪ Sicrhau bod staff yn wybodus am yr hyn y mae angen iddynt ei wneud os byddant yn dod ar draws neu'n dod yn ymwybodol o bobl sy'n cael eu tynnu i mewn neu'n cynllunio gweithred derfysgol.<br>▪ Cynnal cofnodion llawn a phriodol o gamau a gymerir fydd yn gwrthsefyll y broses graffu.<br><br>Mae gan Fwrdd Contest Gogledd Cymru Gynllun Gweithredu Rhanbarthol: ac mae'r camau sydd yn y cynllun hwn yn cynorthwyo'r Awdurdod Lleoli i gyflawni gofynion perthnasol y Cynllun Rhanbarthol.<br><br>Mae'r Prif Weithredwr Cynorthwyol yn derbyn ac yn adolygu Proffil Lleol Gwrthderfysgaeth a bydd yn rhoi gwybod i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth am unrhyw risg newydd/gynyddol o radicaleiddio neu eithafiaeth er mwyn gallu diweddaru'r gofrestr risg gorfforaethol. |
| Caethwasiaeth Fodern | Dyletswyddau cyfreithiol o dan **Ddeddf Caethwasiaeth Fodern** 2015. Rydym yn amcanu at: -<br><br>▪ Gyhoeddi Datganiad Blynyddol, nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn y sefydliad nac yn ein cadwyn gyflenwi.<br>▪ Penodi Pencampwr Atal Caethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol.<br>▪ Nodi a chefnogi pobl fregus fel rhan o'n cyfrifoldebau diogelu ehangach. |

| | |
|---|---|
| | ▪ Hysbysu'r Swyddfa Gartref ynghylch Dioddefwyr Posibl Caethwasiaeth Fodern.<br>▪ Cyfeirio dioddefwyr posibl fel ymatebwr cyntaf i awdurdod cymwys, (Uned Caethwasiaeth Fodern Masnachu Pobl – MSHTU), drwy'r Dull Cyfeirio Cenedlaethol.<br>▪ Cyfeirio unrhyw blant sydd o bosibl yn destun masnachu plant i'r Eiriolwyr Annibynnol ar Fasnachu Plant (ICTAs).<br>▪ Sefydlu polisïau a gweithdrefnau.<br>▪ Sicrhau bod staff yn gwybod beth y mae angen iddynt ei wneud os byddant yn dod ar draws neu'n dod yn ymwybodol o bobl sy'n cael eu tynnu i mewn neu'n cynllunio gweithred derfysgol.<br>▪ Cynnal cofnodion llawn a phriodol o gamau a gymerir fydd yn gwrthsefyll y broses graffu<br><br>Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, byddwn hefyd yn ystyried y cysylltiadau â'r rhaglen Llinellau Sirol (gangiau cyffuriau cyfundrefnol), sy'n galw am gydweithio i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â gweithgarwch Llinellau Sirol, fel Masnachu Pobl, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, troseddu, troseddu treisgar, troseddau cyffuriau, troseddau ariannol, cam-fanteisio ar oedolion bregus. Wrth i'r rhaglen hwn ddatblygu, gellir cynnwys dyletswyddau ychwanegol at y safonau/gweithgareddau diogelu hyn.<br><br>Mae gan Fwrdd Caethwasiaeth Gogledd Cymru Gynllun Gweithredu Rhanbarthol: ac mae'r camau sydd yn y cynllun hwn yn cynorthwyo'r Awdurdod Lleoli i gyflawni gofynion perthnasol y Cynllun Rhanbarthol.<br><br>Annwen Morgan, Prif Weithredwr Cynorthwyol, yw'r Pencampwr Atal Caethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol. |
| Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) | Rydym yn amcanu at: -<br><br>▪ Amddiffyn plant ac oedolion yn ein hardal a allai fod mewn risg neu sy'n cael eu cam-drin, eu hesgeuluso a mathau eraill o niwed ac; -<br>▪ Atal plant ac oedolion yn ein hardal rhag bod mewn risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso a mathau eraill o niwed.<br>▪ Sicrhau bod arfer diogelu, cynllunio strategol a chomisiynu gwasanaethau ar draws yr holl asiantaethau partner yn gwella'n barhaus ac yn hybu canlyniadau da i blant ac oedolion a allai fod mewn risg yn yr ardal leol.<br>▪ Amddiffyn plant a phobl ifanc yn gadarn trwy ddull aml-asiantaeth gyda phartneriaid a chymunedau. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn adlewyrchu gofynion Strategaeth CSE Gogledd Cymru. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i chwarae rhan lawn yng Ngrŵp Gweithredol CSE Gogledd Cymru, a chefnogi gweithgorau rhanbarthol a chenedlaethol i raeadru a datblygu modelau arfer gorau o safbwynt mynd i'r afael â Cham-fanteisio'n Rhywiol ar Blant.<br><br>Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, byddwn hefyd yn ystyried y cysylltiadau â'r rhaglen Llinellau Sirol (gangiau cyffuriau cyfundrefnol), sy'n galw am gydweithio i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â gweithgaredd Llinellau Sirol, fel Masnachu Pobl, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, troseddu, troseddu treisgar, troseddau cyffuriau, troseddau ariannol, cam-fanteisio ar oedolion bregus. Wrth i'r rhaglen hon ddatblygu, gellir cynnwys dyletswyddau ychwanegol at y safonau/gweithgareddau diogelu hyn. |
| Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | Dyletswyddau Cyfreithiol – **Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015**<br><br>▪ Gofyn a Gweithredu - Prosiect cenedlaethol wedi'i dargedu ar draws Awdurdodau Cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dyletswydd sefydliadol i annog gweithwyr proffesiynol perthnasol i "Ofyn" i ddioddefwyr posibl mewn amgylchiadau penodol (ymholi wedi'i dargedu) a "Gweithredu" er mwyn sicrhau bod niwed o ganlyniad i drais a cham-drin yn cael ei leihau<br>▪ Darparu Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Merched, Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol<br>▪ Mae'n cynnwys cyfathrebu, hyfforddi, datblygu polisi, rhannu gwybodaeth, llwybrau cyfeirio at wasanaethau arbenigol, casglu ac adolygu data<br><br>Y Bwrdd Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru yw'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol: gan ddarparu dull partneriaeth i atal niwed difrifol a achosir gan drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Ngogledd Cymru. Maent yn arwain ac yn cefnogi'r broses o weithredu'r ddeddf: gan ddatblygu, cymeradwyo a monitro'r strategaeth ranbarthol; gan sicrhau bod materion yn cael sylw strategol ac effeitiol yng Ngogledd Cymru.<br><br>Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn adlewyrchu'r blaenoriaethau strategol rhanbarthol o ran ymwybyddiaeth a darparu'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol.<br><br>Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol (Dros Dro) , yw'r Swyddog Arweiniol ar gyfer Gofyn a Gweithredu a'r Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd) yw'r Pencampwr Gofyn a Gweithredu |

**Cyfrifoldeb Pawb**

Yn eu Cynlluniau Darparu Gwasanaeth, bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn cynnwys targedau Diogelu ar gyfer y flwyddyn ac yn adrodd am gynnydd o fewn adolygiadau perfformiad corfforaethol.

**Cyfathrebu o fewn y Sefydliad**

Rhaid i'r cynrychiolwyr yn y Byrddau Rhanbarthol amrywiol y cyfeirir atynt uchod ac eraill - Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru a Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru, Bwrdd Cymunedau, sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol (strategol) am brif faterion a drafodwyd ar sail ranbarthol: sydd angen ymateb lleol ar sail gorfforaethol. Dylai'r prif swyddogion, ar gais cadeirydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol (strategol), baratoi diweddariadau ynghylch y ddarpariaeth, prif faterion risg i blant ac oedolion mewn risg, yn cynnwys coladu a monitro nifer, natur a chanlyniadau atgyfeiriadau.

Bydd y Prif Weithredwr Cynorthwyol/Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn sicrhau bod Aelodau'r Cyngor ac uwch swyddogion arweiniol, aelodau eraill yr Uwch Dîm Arweiniol a Phenaethiaid yn cael eu briffio'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelu.

Pan fo angen darperir gwybodaeth/bwletinau/erthyglau diogelu angenrheidiol ar gyfer staff mewn deunydd cyfathrebu perthnasol i staff mewnol. Cyfrifoldeb y Bwrdd Diogelu Corfforaethol (Gweithredol) fydd hyn.

**Hyfforddiant**

Rhaid i bob Pennaeth Gwasanaeth sicrhau bod pob aelod o staff yn mynychu hyfforddiant Diogelu Sylfaenol, Cyffredinol neu Arbenigol ar lefel sy'n berthnasol i'w rôl. Mae gofynion hyfforddi penodol eraill wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu hwn. Bydd gan rai gwasanaethau anghenion hyfforddi penodol i'w rolau. Ni adlewyrchir hyn yn y cynllun hwn – gan fod y ffocws ar hyn o bryd ar godi ymwybyddiaeth gorfforaethol: a chydymffurfio o safbwynt dysgu/hyfforddiant mandadol drwy'r sefydliad.

**Strwythur y Cynllun Gweithredu**

Cyflwynir y cynllun gweithredu hwn yn erbyn 6 thema: gan gefnogi dull cydlynol o ddarparu'r camau drwy'r Awdurdod Lleol.

| Thema | Rhif yr Amcan | Canlyniad |
|---|---|---|
| Arweinyddiaeth a llywodraethu corfforaethol | Amcan 1 | Cefnogaeth lefel-uchel, polisïau a gweithdrefnau adrodd o fewn y Sefydliad |

| | | |
|---|---|---|
| Datblygiadau newydd a mawr – Perthnasedd o ran Diogelu | Amcan 2 | Bod effeithiau diogelu'n cael eu deall, bod tystiolaeth ohonynt a'u bod yn cael eu defnyddio i sicrhau camau lliniaru |
| Cyfathrebu ac Ymwybyddiaeth: | Amcan 3 | Gweithlu sy'n ymwybodol o brif feysydd diogelu/cam-fanteisio/cam-drin |
| | Amcan 4 | Gwell dealltwriaeth o anghenion unigolion sy'n cael eu hystyried mewn risg o CSE |
| Gweithlu Diogel a Medrus | Amcan 5 | Gweithlu sydd â'r gallu i gyflawni eu dyletswyddau diogelu'n effeithiol – trwy hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n gymesur â'u rolau a'u cyfrifoldebau. |
| | Amcan 6 | Recriwtio a rheoli gweithlu gan gydymffurfio'n llawn â gofynion statudol a gyda Pholisi Recriwtio a Dethol Cyngor Sir Ynys Môn, Polisi DBS, Polisi Recriwtio Mwy Diogel. |
| Cefnogaeth ac Ymyriadau Effeithiol | Amcan 7 | Sefydlu Prosesau, Gweithdrefnau a Systemau perthnasol sy'n adlewyrchu deddfwriaeth, canllawiau statudol a disgwyliadau presennol ac arfer gorau a fabwysiadwyd er mwyn i swyddogion wybod yn glir beth y dylid neu y gellid ei wneud mewn amgylchiadau penodol a diffinio cyfyngiadau disgresiwn proffesiynol. |
| Partneriaid, gwirfoddolwyr a gwasanaethau wedi'u comisiynu | Amcan 8 | Bod y Strategaeth Gaffael a'r Strategaeth Rheoli Contract yn alinio â Chod ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi Llywodraeth Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| | Amcan 9 | Sicrhau arferion diogel mewn gwasanaethau a gomisiynir a bod yr holl ddarparwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau diogelu'n effeithiol. |

**Dangosyddion Statws RAYG yn cyfeirio at gynnydd Rhaglenni/Prosiectau**

| | |
|---|---|
| **COCH** | **Hwyr**<br><br>Oedi o ran camau/amcanion neu ffactorau llwyddiant critigol o fwy na phedair wythnos<br><br>Materion/risgiau sylweddol a allai atal y prosiect rhag cael ei gwblhau'n brydlon neu o fewn y gyllideb |
| **AMBR** | **Ar ei Hôl Hi**<br><br>Oedi o ran camau/amcanion neu ffactorau llwyddiant critigol o fwy na phythefnos<br><br>Angen penderfyniadau gan y SRO/Cyfarwyddwr a/neu'r Bwrdd |
| **MELYN** | **Ar y Trywydd Iawn**<br><br>Y prosiect ar y trywydd iawn ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau'n brydlon |
| **GWYRDD** | **Cwblhawyd**<br><br>Cwblhawyd y cam/tasg/prosiect |

| **Arweinyddiaeth a Llywodraethu Corfforaethol**<br><br>**Amcan 1 - Cefnogaeth lefel-uchel, polisïau a gweithdrefnau adrodd o fewn y Sefydliad** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Prif Dasg** | **Pwy** | **Pryd** | **Cynnydd** | **RAYG** |
| Tîm Perfformiad Corfforaethol i adolygu prosesau perfformiad Cynllunio Busnes i sicrhau bod adroddiad yn cael ei roi i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol trwy<br><br>▪ Ddadansoddi'r Cardiau Sgorio Diogelu<br>▪ Cynnydd gan bob gwasanaeth yn erbyn eu targedau diogelu | Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad | 31 Mawrth 2020 | - Yn rhan o'r Sgorfwrdd Corfforaethol<br>- Rhan o broses Her gwasanaeth blynyddol<br>- Cyfarfod her i'w drefnu ym mis Medi er mwyn craffu ar ddatganiadau y gwasanaethau i'r Her Gwasanaeth<br>- Templed hunanwerthuso blynyddol ar gyfer gwasanaethau wedi ei ddatblygu.  Angen ei gymeradwyo a gweithredu Ebrill 2020<br>- Adroddiad blynyddol Diogelu Corfforaethol i Bwyllgor Craffu yn yr Hydref. | |
| Lansio'r Polisi Diogelu Corfforaethol Diwygiedig: gan ddefnyddio'r Porth Polisi i sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r Polisi Diogelu Corfforaethol Diwygiedig; a pharatoi | Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Ansawdd a Diogelu Plant | 31 Rhagfyr 2018 | Cwblhawyd – Lefelau cydymffurfio – 95%. Mae angen meddwl am sut i gyrraedd staff nad oes | . |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| adroddiadau i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol ar lefelau cydymffurfio | | | ganddynt fynediad i gyfrifiadur.. | |
| Pob gwasanaeth i wneud hunan archwiliad o sampl o 10% o'u swyddi presennol i sicrhau bod ganddynt wiriad DBS a geirdaon | Pob Pennaeth Gwasanaeth | 30 Medi 2019 | Ar waith. Disgwylir ganfyddiadau a chamau gwella y gwasanaethau | |
| Adolygu polisïau perthnasol sy'n ymwneud â lleoliadau mewn perchnogaeth gyhoeddus ac adnoddau i sicrhau eu bod yn ddigonol er mwyn sicrhau nad ydynt yn rhoi llwyfan i eithafwyr ac nad ydynt yn cael eu defnyddio i rannu safbwyntiau eithafol | Penaethiaid Gwasanaethau sy'n gyfrifol am leoliadau mewn perchnogaeth gyhoeddus | 31 Hydref 2019 | Cwblhawyd – mae angen ei lansio ochr yn ochr â thasgau cysylltiedig eraill . | |
| Adolygu'r polisi chwythu'r chwiban i egluro: -<br>▪ Dylai staff gael eu grymuso i godi amheuon o arfer cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol<br>▪ Cyfrifoldeb ar staff i roi gwybod am weithgareddau troseddol sy'n digwydd o fewn ein sefydliad ein hun a'n cadwyni cyflenwi. | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) /Swyddog Monitro | 30 Medi 2019 | Wedi'i gwblhau. Cymeradwywyd. Cyhoeddwyd y polisi i'w dderbyn ar draws y sefydliad. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ar ôl paratoi'r polisi, ei gyfleu drwy'r sefydliad. Adolygu'r polisi bob blwyddyn a monitro ei effeithiolrwydd. | | | | |
| Mabwysiadu'r protocolau rhannu gwybodaeth angenrheidiol a ddatblygwyd gan y byrddau rhanbarthol – Bwrdd Contest a Chaethwasiaeth Fodern | Prif Weithredwr Cynorthwyol (AM) | I'w gadarnhau | Mae'r cam hwn yn dibynnu ar y cynnydd a wneir gan y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel o ran datblygu'r Protocolau Rhannu Gwybodaeth.<br><br>Mae CSYM wedi cynnig cymorth i'r Bwrdd gyda hyn.<br><br>Mae Caroline Turner wedi llofnodi ar ran CSYM mewn perthynas â CONTEST. Mae angen trafod y Protocol Rhannu Gwybodaeth ymhellach yn y Bwrdd Rhanbarthol Cymunedau Mwy Diogel.<br><br>Rhoddir y Proffil Gwrthderfysgaeth Lleol i Annwen Morgan, sydd yn gyfrifol am gydlynu'r dasg o rannu unrhyw risgiau allweddol gyda'r gwasanaeth perthnasol. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu taenlen i gofnodi unrhyw gamau gweithredu dilynol o'r Proffil Gwrthderfysgaeth Lleol ac yn pennu unigolion i fod yn gyfrifol amdanynt. O bryd i'w gilydd, bydd y Prif Weithredwr Cynorthwyol yn cyflwyno'r daenlen i Fwrdd Partneriaeth Cymunedau Diogelach Gwynedd a Môn, a fydd yn monitro cynnydd wrth weithredu'r camau.<br><br>PREVENT<br>TASG NEWYDD | Prif Weithredwr Cynorthwyol (AM) | Awst 2019 | Mae hyn wedi ei sefydlu | |
| **Datblygiadau newydd a mawr – Perthnasol i Ddiogelwch**<br><br>**Amcan 2 - Bod effeithiau diogelu Wylfa Newydd yn cael eu deall, bod tystiolaeth ohonynt a'u bod yn cael eu defnyddio i sicrhau camau lliniaru gan datblygwr** | | | | |
| **Prif Dasg** | **Pwy** | **Pryd** | **Cynnydd** | |
| Comisiynu astudiaeth o oblygiadau diogelwch Wylfa Newydd | Swyddfa Rheoli Rhaglen – Wylfa Newydd | 31 Awst 2018 | Mae'r gwaith wedi ei gwblhau a'r bennod ar gyfer yr Adroddiad Effaith Lleol wedi ei darparu. | |
| Sicrhau y defnyddir y dystiolaeth o'r astudiaeth i sicrhau camau lliniaru gan y datblygwr | Prif Weithredwr Cynorthwyol/ Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. (CT) | 31 Mawrth 2020 | Awgrymir y caiff y camau hyn eu gohirio nes ein bod yn gliriach o'r cynllun yn y dyfodol | |

| **Cyfathrebu ac Ymwybyddiaeth**<br><br>**Amcan 3 - Gweithlu sy'n ymwybodol o brif feysydd diogelu/cam-fanteisio/cam-drin**<br><br>**Amcan 4 - Gwell dealltwriaeth o anghenion unigolion sy'n cael eu hystyried mewn risg o CSE** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Prif Dasg** | **Pwy** | **Pryd** | **Cynnydd** | |
| Bod Uwch Swyddogion yr Awdurdod Lleol – Aelodau ac Uwch Swyddogion – yn cwblhau Lefel 6 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Gofyn a Gweithredu – trwy gyfres o glipiau fideo.<br><br>***VAWDASV*** | Uwch Dîm Arweinyddiaeth<br><br>Penaethiaid Gwasanaeth<br><br>Aelodau | 31 Awst 2018 | Mae'r uwch swyddogion wedi ei gwblhau. 100%<br><br>Anogir gwasanaethau i sicrhau ei fod yn rhan o broses gynefino uwch swyddogion newydd ac yn dilyn unrhyw newidiadau mewn perthynas ag Aelodau | |
| Sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant 'Lefel 1 o'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol<br><br>VAWDASV - boed hyn drwy e ddysgu neu'r llyfrynnau. | Penaethiaid Gwasanaeth | 31 Medi 2019 | 71%<br><br>Anogir gwasanaethau i fwrw ymlaen â hyn a sicrhau ei fod yn rhan o broses gynefino staff newydd. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Adolygu'r wybodaeth ddiogelu a ddarparwyd yn y sesiwn Sefydlu Gorfforaethol i sicrhau ei fod yn cynnwys diffiniad cyffredinol o ddiogelwch a chodi ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol o'r prosesau o fewn y sefydliad a lle i fynd i gael cyngor a chymorth | Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Ansawdd a Diogelu Plant | 30 Medi 2018 | Wedi'i gwblhau ac yn parhau | |
| Datblygu adran Diogelu Corfforaethol ar Monitor<br><br>TASG NEWYDD | I'w gytuno | I'w gytuno | Ar waethaf sawl cais am enwebiadau ar gyfer y grŵp tasg nid oes yr un enwebiad wedi cyrraedd. | |
| Sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sylfaenol – Caethwasiaeth Fodern | Penaethiaid Gwasanaeth | 31 Hydref 2019 | 49%<br><br>Rhaid atgoffa staff i gwblhau'r hyfforddiant. Mae'r diffyg cynnydd yn effeithio ar lansiad y modiwl e-ddysgu Prevent. | |
| Codi ymwybyddiaeth ymysg darparwyr addysg, darparwyr gofal plant ac unrhyw asiantau preifat a gwirfoddol sy'n gweithio gyda phlant y ***Ddyletswydd Atal*** a chyfrifoldebau diogelu cysylltiedig. | Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar (Gwasanaeth Plant a Theuluoedd)<br><br>Uwch Swyddog Diogelu<br><br>(Addysg**)** | 31 Mawrth 2019. | Wedi'i gynnwys yn yr hyfforddiant Lefel 1 a 2 ar gyfer ysgolion, swyddogion lles Addysg a TRAC.<br><br>Darparwyd sesiynau codi ymwybyddiaeth i ddarparwyr gofal plant. Mae'n debyg y bydd angen rhaglen barhaus | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | a chysylltiadau â phrosesau comisiynu. | |
| Mae'r ddyletswydd Prevent yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddeall yr amrywiaeth o weithgareddau a lleoliadau yn eu hardal ac i gymryd camau priodol a chymesur i sicrhau fod plant sydd yn mynychu lleoliadau o'r fath yn cael eu diogelu'n gywir. Bydd y Prif Weithredwr Cynorthwyol yn codi'r mater gyda'r Bwrdd CONTEST rhanbarthol yn y cyfarfod nesaf er mwyn ceisio cael eglurder ynglŷn â sut mae'r Bwrdd yn ystyried y dylem ymateb fel rhanbarth i ran hon y ddyletswydd PREVENT.<br><br>Bydd camau pellach yn dibynnu ar benderfyniad y bwrdd CONTEST rhanbarthol.<br><br>TASG NEWYDD | Prif Weithredwr Cynorthwyol | Hydref 2019 | Disgwyl cyfarfod nesaf o'r Bwrdd Contest | |
| Lefel 2 Gofyn a Gweithredu<br><br>▪ Gwasanaethau i nodi'r rhai sydd mewn sefyllfa i ofyn a gweithredu<br>▪ Gwasanaeth i nodi'r unigolion hynny fydd yn cael eu hyfforddi fel hyfforddwyr<br>▪ Sefydlu cynllun 5 mlynedd i gyflwyno Lefel 2 ar draws gwasanaethau mewn grwpiau blaenoriaeth i gyfrannu at y cynllun rhanbarthol | Penaethiaid Gwasanaeth gyda chymorth yr Uned Datblygu Gweithlu | 31 Mawrth 2020 | Mae oedi wedi digwydd yn genedlaethol mewn perthynas â chyflwyno Hyfforddiant Gofyn a Gweithredu Lefel 2 a bydd newidiadau pellach i ofynion mynediad y cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr yn cael effaith ddifrifol ar ein gallu i gyflwyno'r hyfforddiant. Rydym yn bwriadu hyfforddi | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***VAWDASV*** | | | un swyddog ym mis Gorffennaf: a sicrhau cyllid iddi gyflawni ar draws y gwasanaethau (disgwyl i ysgolion).<br><br>Bydd angen i addysg nodi sut maent yn bwriadu cyflwyno i ysgolion. | |
| Lefel 3 Gofyn a Gweithredu<br><br>▪ Nodi'r rhai o fewn y Cyngor fydd yn cael eu hyfforddi fel Pencampwyr Gofyn a Gweithredu. Awgrymir cymhareb o un Pencampwr i bob deg hyfforddwr Gofyn a Gweithredu.<br>***VAWDASV*** | Penaethiaid Gwasanaeth | 31 Mawrth 2019 | Swyddog Diogelu ac Adolygu Annibynnol<br><br>Gwasanaethau Plant<br><br>Bydd angen i addysg nodi sut maent yn bwriadu cyflwyno i ysgolion | . |
| Sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sylfaenol –Atal | Penaethiaid Gwasanaeth | 31 Hydref 2019 | Lansio ym mis Medi | |
| Sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sylfaenol CSE. Modiwl E Ddysgu | Penaethiaid Gwasanaeth | 31 Mawrth 2020 | | |

| **Cyflogaeth Ddiogel a Moesegol**<br><br>**Amcan 5 - Gweithlu sydd â'r gallu i gyflawni eu dyletswyddau diogelu'n effeithiol – trwy hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n gymesur â'u rolau a'u cyfrifoldebau.**<br><br>**Amcan 6 - Recriwtio a rheoli gweithlu gan gydymffurfio'n llawn â gofynion statudol a gyda Pholisi Recriwtio a Dethol Cyngor Sir Ynys Môn, Polisi D Polisi Recriwtio Mwy Diogel.** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Prif Dasg** | **Pwy** | **Pryd** | **Cynnydd** | |
| Eglurir y cyfrifoldebau diogelu o fewn templed y swydd ddisgrifiad ar Monitor | Pennaeth Swyddogaeth Adnoddau Dynol a Thrawsnewid Corfforaethol | 31 Ebrill 2018 | Cwblhawyd | |
| Adolygu'r Polisi Recriwtio a Dethol er mwyn cynnwys polisi ysgrifenedig ar gyflogaeth foesegol o fewn y sefydliad (Caethwasiaeth Fodern) | Pennaeth Swyddogaeth Adnoddau Dynol a Thrawsnewid Corfforaethol | 31 Ebrill 2018 | Cwblhawyd | |
| Dylai'r Gwasanaeth Dysgu adolygu ei bolisi gwirfoddoli er mwyn cynnwys yr angen am ddau eirda. | Pennaeth Gwasanaeth Dysgu | 31 Rhagfyr 2018 | Cwblhawyd | |
| Dylai Penaethiaid Gwasanaeth sicrhau fod trefniadau cadarn mewn lle o fewn eu gwasanaeth er mwyn cynnal cofnod canolog o swyddi sydd angen gwiriad DBS gan gynnwys prosesau gwirio digonol er mwyn adnabod achosion ble mae methiannau yn erbyn y gofynion. | Penaethiaid Gwasanaeth | 31 Rhagfyr 2019 | Gofynnwyd i bob gwasanaeth gadarnhau eu trefniadau | |
| Dylai Penaethiaid Gwasanaeth sicrhau fod trefniadau cadarn mewn lle o fewn eu gwasanaeth er gan | Penaethiaid Gwasanaeth | 31 Mawrth 2020 | Gofynnwyd i bob gwasanaeth gadarnhau eu trefniadau. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gynnwys prosesau gwirio digonol mewn perthynas â<br><br>- Chael a gwirio geirdaon mewn perthynas â swyddi sydd wedi eu rheoleiddio<br>- Nifer sydd wedi mynychu hyfforddiant diogelu<br>- A oedd asesiadau risg ffurfiol wedi eu cwblhau a mesurau priodol mewn lle yn y sefyllfaoedd eithriadol rheini y mae cyflogai yn cychwyn gweithio cyn fo gwiriad DBS wedi ei ddychwelyd (pan fod angen DBS i'r swydd honno).<br>- A oes asesiadau risg ffurfiol wedi eu cwblhau a mesurau priodol mewn lle pan fo pryderon diogelu yn codi neu'n cael eu hamau mewn perthynas â chyflogai sydd eisoes mewn swydd. | | | | |
| **Cefnogaeth ac Ymyriadau Effeithiol**<br><br>**Amcan 7 - Sefydlu Prosesau, Gweithdrefnau a Systemau sy'n adlewyrchu deddfwriaeth, canllawiau statudol a disgwyliadau presennol ac arfer go a fabwysiadwyd er mwyn i swyddogion wybod yn glir beth y dylid neu y gellid ei wneud mewn amgylchiadau penodol a diffinio cyfyngiadau disgres proffesiynol** | | | | |
| **Prif Dasg** | **Pwy** | **Pryd** | **Cynnydd** | |
| Datblygu gwybodaeth, llwybrau cyfeirio a chanllaw arfer da i godi ymwybyddiaeth ynghylch Caethwasiaeth Fodern a'r ddyletswydd i gyfeirio i'r NRM os oes pryder bod masnachu'n digwydd i bwrpas cam-fanteisio. | Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Ansawdd a Diogelu Plant | 31 Mawrth 2020 | Disgwyl arweiniad gan Llywodraeth Cymru | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu gwybodaeth, llwybrau cyfeirio a chanllaw arfer da i gefnogi staff i ddarparu ymateb cyson i oedolion a phobl ifanc mewn risg o radicaleiddio ac eithafiaeth ar draws yr Awdurdod Lleol. | Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Ansawdd a Diogelu Plant | 31 Hydref 2019 | Cwblhawyd – angen ei weithredu gyfochr a lansio'r modiwl e ddysgu | |
| Datblygu a mabwysiadu Cylch Gorchwyl ar gyfer Panel Channel y Cyngor ac yn datblygu dogfen gyfarwyddyd ar gyfer Cadeiryddion y panel Channel.<br><br>NEWYDD - PREVENT | Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Ansawdd a Diogelu Plant | Awst 2019 | Mae dogfen ddrafft wedi'i chwblhau a nawr yn cael ei hystyried ar gyfer ei mabwysiadu fel dogfen ranbarthol. | |
| **Partneriaid, gwirfoddolwyr a gwasanaethau wedi'u comisiynu**<br><br>**Amcan 8** Bod y Strategaeth Gaffael a'r Strategaeth Rheoli Contract yn alinio â Chod Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi<br><br>Amcan 9 Sicrhau arferion diogel mewn gwasanaethau a gomisiynir a bod yr holl ddarparwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau diogelu'n effeithiol. | | | | |
| **Prif Dasg** | **Pwy** | **Pryd** | **Cynnydd** | |
| Adolygu'r Strategaeth Gaffael a'r Strategaeth Rheoli Contract: a sicrhau ymrwymiad a pherchnogaeth gwasanaeth i sicrhau ein bod yn alinio â Chod ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi Llywodraeth Cymru | Prif Weithredwr Cynorthwyol (AM) | 31 Mawrth 2019 | Mae peth o'r ddogfennaeth caffael wedi ei adolygu i gynnwys rhai o'r cwestiynau o'r pecyn a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Adolygu'r broses o ddyfarnu, gosod a rheoli Contract yn nhermau fframwaith cyson ar gyfer ystyriaethau diogelu. Lle y bo'n briodol, bydd angen cynnwys egwyddorion y ddyletswydd atal yn ysgrifenedig fel rhan o'r contractau hynny ar ffurf addas. | Dafydd Bulman | 31 Mawrth 2019 | Nifer o gymalau Diogelu i'w cynnwys ymhob contract wedi cael eu datblygu. Mae gwaith wedi digwydd iddynt gynnwys egwyddorion y dyletswydd Prevent.<br><br>Mae adroddiad yn barod ar gyfer CSB - Strategol o ran Arfer Da mewn Contractio - Diogelu. | |
| Paratoi datganiad ysgrifenedig blynyddol i sicrhau nad yw masnachu pobl a chaethwasiaeth yn digwydd yn y sefydliad a'r gadwyn gyflenwi. | Prif Weithredwr Cynorthwyol (AM) | 31 Mawrth 2019 | Wedi ei gwblhau | |
| Ar ôl cwblhau'r gwaith Cysylltu/Diogelu dylai bob Pennaeth Gwasanaeth sefydlu rhaglen ar gyfer adolygu contractau presennol i sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau/gofynion a nodwyd, yn cynnwys sut maent yn bwriadu monitro cydymffurfiaeth gan y darparwyr gyda'r gofynion | Penaethiaid Gwasanaeth | 31 Mawrth 2020 | | |

Atodiad 2

# Adroddiad Asiantaeth Bartner Blynyddol i'r BDPGC

**Fersiwn 2 – 4/2/**

**Mae'r adroddiad asiantaeth bartner diweddaraf ar gyfer 18/19 wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu materion allweddol o fewn adborth y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ar adroddiad blynyddol Gogledd Cymru. Rhaid cwblhau adroddiad yr asiantaeth bartner erbyn 10/5/19 a'i ddychwelyd at [regionalsafeguarding@denbighshire.gov.uk](mailto:regionalsafeguarding@denbighshire.gov.uk)**

**Bydd holl adroddiadau'r asiantaeth bartner yn cael eu cyflwyno yn y Cyfarfod Bwrdd ym mis Gorffennaf. Rydym wedi atodi cyflwyniad PowerPoint gyda'r adroddiad - i chi ei gwblhau, i nodi'r 5 materion allweddol o'ch adroddiad y dylid tynnu sylw'r Bwrdd atynt.**



| **Maes Blaenoriaeth** | **Sylwadau** | **Tystiolaeth archwilio** |
|---|---|---|
| 1 – **Gwnewch sylwadau ar bresenoldeb a chyfranogiad eich asiantaeth mewn Cyfarfodydd Bwrdd, gwaith y Bwrdd ac mewn is-grwpiau.** | Mae Ynys Môn yn cyfrannu tuag at waith y bwrdd a hynny o safbwynt ariannol ac amser swyddogion.<br><br>**Bwrdd Rhanbarthol**<br><br>Alwyn Rhys Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro<br>Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaeth a Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro<br><br>**Is-grŵp CPR**<br><br>Anwen Huws, Rheolwr Gwasanaeth<br>Mae Anwen Huws hefyd yn mynychu grŵp ffocws a gynhelir gan Brifysgol Caerdydd mewn perthynas â chomisiwn i nodi gwersi a ddysgwyd o CPR ar lefel Cymru gyfan.<br>'Rydym yn cyfrannu at waith o grwpiau o ran MAPFs a CPRs<br><br>**Grŵp Cyflawni Gwynedd a Môn**<br>Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaeth - Cadeirydd<br>Anwen Huws, Rheolwr Gwasanaeth<br>Llŷr Bryn Roberts, Rheolwr Gwasanaeth<br>Lisa Capper, Swyddog Diogelu Annibynnol (yn arwain ar Amddiffyn Plant)<br>Stephen Woods, Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | Cofnodion y cyfarfodydd perthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| | (Gwynedd & Môn)<br>Delyth Lloyd Griffiths – Uwch Swyddog Diogelu (Addysg) Gwynedd & Môn<br><br>**Polisïau a Gweithdrefnau**<br><br>Llŷr Bryn Roberts, Rheolwr Gwasanaeth<br>Mae Anwen Huws, Rheolwr Gwasanaeth, hefyd wedi bod yn cyfrannu'n rheolaidd at y cyfarfodydd ymgynghori mewn perthynas â'r Gweithdrefnau Diogelu arfaethedig ar gyfer Cymru Gyfan<br><br>**Is-grŵp Gweithlu/Hyfforddiant**<br>Malcom Vaughan, Uwch Reolwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (swydd ar y cyd rhwng Gwynedd a Môn)<br><br>**Grŵp Gwella Ymarfer Aml asiantaethol Gwynedd a Môn**<br>Anwen Huws, Rheolwr Gwasanaeth<br>Lisa Capper, Swyddog Diogelu Annibynnol (yn arwain ar Amddiffyn Plant)<br><br>Mae presenoldeb a chyfranogiad Ynys Môn yn y grwpiau rhanbarthol a lleol wedi bod yn gyson. | |
| **2- Rhowch sylwadau ar y gwaith mae eich asiantaeth wedi ei gwblhau mewn perthynas â blaenoriaethau'r Bwrdd?**<br><br>• **Plant mewn perygl o Gam-fanteisio Troseddol a Rhywiol**<br>• **Ymddygiad Rhywiol Niweidiol**<br>• **Trais yn y Cartref** | **Plant sydd mewn Perygl o Gam fanteisio Troseddol a Rhywiol**<br>Mae gan y gwasanaeth banel hir-sefydlog sy'n trafod yr achosion CSE a CCE mwyaf cymhleth a gyfeirir ato. Mae'r gwasanaeth ymyrraeth gynnar ac ataliol wedi buddsoddi mewn Gweithiwr Perthnasau Iach newydd a fydd yn gweithio'n uniongyrchol gyda, ac o fewn grwpiau o plant sydd wedi perygl o gael eu cam-fanteisio arnynt. Mae bid lwyddiannus am gyllid ICF wedi rhoi'r cyfle i ni ariannu Gweithiwr Cymdeithasol Perthnasau Iach yn y gwasanaeth ymyrraeth ddwys. Trefnodd y gwasanaeth 4 o gyflwyniadau ar ddiwrnod CSE ar 18 Mawrth (diwrnod codi ymwybyddiaeth o CSE CCE) yn canolbwyntio ar y gwaith yr ydym yn ei wneud gyda phlant a phobl ifanc yn Ynys Môn. Roedd ffocws ar y model cysyniadol ar gyfer cam fanteisio: ymagwedd aml asiantaethol sy'n cymryd i ystyriaeth yr ymateb ar sail yr unigolyn, y teulu a'r gymuned. Ein nod yw sefydlu model cysyniadol ar gyfer CSE CCE ar yr Ynys. Mae gweithwyr penodol wedi derbyn hyfforddiant PACE er mwyn cefnogi'r datblygiad hwn ac mae'r holl asiantaethau sy'n cydweithio gyda ni yn y maes hwn wedi rhoi adborth positif o'r hyfforddiant.<br><br>**Ymddygiad rhywiol niweidiol**<br>Mae ymddygiad rhywiol niweidiol yn flaenoriaeth i'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd; | Cofnodion<br>Cylch Gorchwyl |

| | | |
|---|---|---|
| | oherwydd mae angen i ni ddatblygu mwy o wydnwch yn y gwasanaeth i ymateb i achosion priodol sy'n ymwneud ag ymddygiadau problemus a rhywiol. Mae'r holl staff wedi bod ar sesiwn hanner diwrnod i godi ymwybyddiaeth. Bydd staff penodol yn mynychu'r hyfforddiant AIMS llawn yn ystod y flwyddyn nesaf unwaith y bydd y model AIMS newydd wedi ei ddiweddaru yn barod. Bydd y Gweithiwr a'r Gweithiwr Cymdeithasol Perthnasau Iach yn darparu ymyriadau'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant sy'n arddangos ymddygiadau rhywiol problemus a niweidiol ar draws y gwasanaeth. Mae ysgolion wedi hyfforddi, ym mis Tachwedd 2018 99 o aelodau staff yn y maes AIMS (ar draws Gwynedd a Môn). Mae bron pob ysgol nawr yn gallu cwblhau rhestr wirio AIMS. Mae hyfforddiant pellach wedi ei gynllunio ar gyfer flwyddyn nesaf: gan gynnwys hyfforddiant penodol ar gyfer rheini sydd yn cadeirio cyfarfodydd RAMP.<br><br>**Camdriniaeth Ddomestig:**<br>Mae camdriniaeth ddomestig yn parhau i fod yn her ac yn flaenoriaeth i wasanaethau cyhoeddus yn Ynys Môn, yn enwedig yr Awdurdod Lleol a'r Heddlu. Ymddengys bod y ffigyrau a'r ystadegau yn Ynys Môn yn cadarnhau bod digwyddiadau domestig ymysg y mwyaf cyffredin yn y boblogaeth o gymharu ag ardaloedd eraill ledled y DU. Gyda hyn mewn golwg, rydym wedi sefydlu gweithgor i edrych ar y model ymyrraeth yr ydym yn ei ddarparu ar hyn o bryd ac i adolygu'r holl wasanaethau a gomisiynir mewn perthynas â chamdriniaeth ddomestig. Rydym wedi ymestyn sgôp yr IFSS i gynnwys camdriniaeth ddomestig. Bydd y gweithgor yn dilyn dau achos a fydd yn derbyn y gwasanaeth dwys hwn gan yr IFSS a Gorwel.<br><br>Mae Gwasanaeth Plant a Theuluoedd a Gwasanaethau Oedolion Ynys Môn yn cyfrannu at, ac yn aelodau sefydlog o'r Cynadleddau Asesu Risg Aml Asiantaethol (MARAC).<br><br>Bu Caroline Turner, Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynrychioli'r Awdurdod Lleol ar Fwrdd VAWSADV Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae'r Awdurdod Lleol wedi parhau i weithredu gofynion y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol: Lefel 1 a 6. Roeddem yn barod i ymestyn hyfforddiant Gofyn a Gweithredu Grŵp 2 a 3 yn Ebrill 2019 tan i Lywodraeth Cymru ddweud eu bod yn newid y gofynion mynediad i'r cwrs achrededig Lefel 2 'Hyfforddi'r Hyfforddwr'. Mae nifer o'r partïon yng Ngogledd Cymru wedi herio'r cynigion hyn oherwydd diffyg ymgynghori ac rydym am ddisgwyl am ymateb cyn ystyried ein sefyllfa ni. | |
| **3- Nodwch unrhyw gyraeddiadau/gwelliannau allweddol sy'n** | **Corfforaethol**<br><br>Mae diogelu'n flaenoriaeth gorfforaethol ac mae'r Awdurdod Lleol wedi sefydlu'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol ac mae gan bob gwasanaeth swyddog dynodedig sy'n arwain ar Ddiogelu. Yn ystod | Cofnodion y CSB |

| | | |
|---|---|---|
| **berthnasol i arfer diogelu dros y deuddeg mis diwethaf yn eich asiantaeth?** | 2018/19, sefydlodd yr Awdurdod Lleol ei ail Gynllun Diogelu Corfforaethol a oedd yn cynnwys camau gwella mewn perthynas â:-<br>- Arweinyddiaeth a Llywodraethiant Corfforaethol<br>- Datblygiadau Newydd a Mawr – Perthnasedd Diogelu<br>- Cyfathrebu ac Ymwybyddiaeth<br>- Gweithlu Diogel a Medrus<br>- Cymorth ac Ymyriadau Effeithiol<br>- Partneriaeth, gwirfoddolwyr a gwasanaethau a gomisiynir<br><br>Llwyddiannau Allweddol<br>i. **Ail-lansio'r Polisi Diogelu Corfforaethol wedi'i adolygu** – Rhagfyr 2018 drwy'r Porth Polisi a monitro derbyniad y polisi hwnnw<br>ii. **Cerdyn Sgorio Diogelu Corfforaethol** wedi cael ei ddatblygu fel rhan o'r Adolygiadau Gwasanaeth unigol<br>iii. **Wylfa Newydd –** Asesiad Effaith a chynigion lliniaru wedi'u datblygu. Gwrandawiad y DCO wedi edrych ar faterion Diogelu yn Ionawr 2019. Wedi parhau i ymateb i'r datblygwyr ar faterion diogelu yn unol â'r pryderon a'r camau lliniaru a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Effeithiau Lleol. Mewnbwn i'r A106 wedi'i gwblhau.<br>iv. **Caethwasiaeth Fodern** - Modiwl E-ddysgu wedi'i lansio. Gwasanaethau ar draws yr Awdurdod Lleol wedi cymryd rhan yn Ymgyrch Octopws - a oedd yn ymwneud â chyflogaeth deg a moesegol mewn safleoedd golchi ceir. Mae camau gweithredu i adlewyrchu ein hymrwymiad i'r Còd Ymddygiad ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflawni yn parhau i fynd rhagddynt.<br>v. **Canllawiau Ymarfer Diogelu ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor wedi cael eu lansio.**<br>vi. **Prevent –** Y polisi a'r Canllawiau Ymarfer ar gyfer 'Dim Llwyfan' wedi cael eu datblygu ar gyfer eu cymeradwyo gan y bwrdd strategol yn Ebrill 2019<br>vii. **Cyngor ar Ddiogelu i Yrwyr Bysus Ysgol –** Mae Lisa Capper, Swyddog Diogelu ac Adolygu Annibynnol, wedi llunio canllawiau ymarfer da ar gyfer gyrwyr bysus ysgol yn dilyn gwersi a ddysgwyd o nifer o Gyfarfodydd Strategaeth Gamdriniaeth Broffesiynol. Mae'r rhain yn darparu cyfres o ganllawiau ar gyfer gyrwyr bysus a phobl ifanc ar safon yr ymddygiad a ddisgwylir. Y nod yw eu cyflwyno ar sail wirfoddol ond ystyriwyd gwneud y rhain yn rhan orfodol o fanylebau ar gyfer y gwasanaeth pan fydd y gwasanaeth/darpariaeth yn cael eu hail-dendro yn y dyfodol.<br>viii. **Llurgunio Organau Rhywiol Merched** - Dathlodd Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn 'Ddiwrnod Gwaith Cymdeithasol y Byd. ' Gwahoddwyd Hibo Wardere, yn wreiddiol o Somalia, | Cynllun Gweithredu<br><br>Wedi adolygu Polisïau a Gweithdrefnau<br><br>Pecynnau Gwaith Unigol |

| | | |
|---|---|---|
| | ac yn ymgyrchydd yn erbyn anffurfio organau cenhedlu benywaidd i siarad â ni am ei phrofiad o ddioddef llurgunio ei horganau rhywiol. Roedd gwrando arni yn brofiad arbennig. | |
| | **Gwasanaeth Plant a Theuluoedd**<br><br>Daeth Adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru ar Arolwg 2018 i'r casgliad bod ***Diogelu Plant yn cael ei flaenoriaethu*** yn yr adran a'u bod ar y cyfan wedi gweld gweithwyr medrus a oedd yn cael cefnogaeth yn darparu ymatebion amserol a chymesur. O ran ymarfer gadarnhaol, nodwyd:-<br><br>- Model Risg Gwynedd/Thornton a'r modd yr oedd y sesiynau mentora a hyfforddiant ar gyfer staff unigol wedi arwain at welliannau cadarnhaol yn eu hymarfer:<br>- Roedd partneriaid yn bositif am y gwaith sy'n cael ei wneud ar y cyd: a<br>- Roedd y defnydd a wnaed o'r polisi uwch gyfeirio anghydfodau wedi arwain at ganlyniadau positif ar gyfer y plentyn a'r asiantaethau dan sylw.<br>- | Adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru ar Arolwg 2018 |
| | Rydym yn cynnal **gwerthusiadau systematig, wedi eu cynllunio o ymarfer** ac mae'r rhain yn dangos fod y gwasanaeth yn gwneud cynnydd o ran cwrdd â'i amcanion i wella ei arferion diogelu.<br><br>Rydym wedi canolbwyntio yn ystod y flwyddyn i ddatblygu **Cryfder ar y Cyd**: y model ar gyfer Diogelu Plant. Yn seiliedig ar ymgysylltiad eang ar draws y gwasanaeth, rydym wedi datblygu model sy'n seiliedig ar ymagwedd sy'n canolbwyntio ar gryfder sy'n ymgorffori rhai elfennau o Ymagwedd Arwyddion o Ddiogelwch ochr yn ochr â Model Risg Gwynedd/Thornton i ddadansoddi niwed sylweddol.<br><br>Mae hyn hefyd wedi cynnwys<br><br>- Adolygu'r wybodaeth a anfonir at blant, teuluoedd a swyddogion proffesiynol cyn y gynhadledd.<br>- Y bwriad i gyflwyno E-bost/Egress diogel<br>- Adolygu'r Agenda a'r cofnodion Diogelu Plant er mwyn cyfleu gwybodaeth mewn modd sydd â ffocws mwy penodol<br>- Adolygu'r Adroddiadau Amddiffyn Plant er mwyn cyfleu gwybodaeth mewn modd sydd â ffocws mwy penodol<br>- Adolygu diwyg y Cynllun Diogelu Plant a'i rôl ganolog yng ngwaith y grŵp craidd o safbwynt sicrhau canlyniadau diogelu. Mae'n anelu at ddatblygu cynllun sy'n diffinio'r canlyniadau diogelu; ac sy'n darparu ffocws ar gyfer mesur y pellter a deithiwyd o ran diwallu'r canlyniadau hynny. Y Model Risg yw'r fframwaith craidd a ddefnyddir o hyd i ddod i farn ynghylch y pellter a deithiwyd o ran lleihau risg i blentyn/plant. | Cynllun Gwella'r Gwasanaethau Plant ac Archwiliadau ac Adroddiadau Unigol a chynlluniau gweithredu<br><br>Pecynnau Gwaith Unigol<br><br>Data Perfformiad |

| | | |
|---|---|---|
| | - Sicrhau bod y cynllun yn esbonio'n glir yr ymyraethau/ymweliadau sydd eu hangen i sicrhau newid o ran y canlyniadau a nodwyd yn y Cynllun Diogelu Plant.<br><br>Rydym wedi cwblhau gwaith sylweddol ac rydym yn awr yn darparu hyfforddiant ar gyfer pob grŵp ymarfer. Mae asiantaethau partner wedi bod yn rhan o'r gwaith hwn a byddwn yn cyflwyno cyfres o gyfleoedd dysgu ar gyfer partneriaid aml asiantaethol. Rydym wedi cytuno i ddatblygu proses ar gyfer goruchwylio/hwyluso ar lefel asiantaethol achosion lle nad oes cynnydd wedi ei wneud er mwyn cefnogi grwpiau craidd i adolygu achos ac adnabod opsiynau a datrysiadau.<br><br>Rydym wedi canolbwyntio ar wella'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â **chynnal Ymchwiliadau A47**. Rydym wedi adolygu ein templed adrodd er mwyn sicrhau bod Atodiad Niwed Sylweddol Model Risg Gwynedd/Thornton yn sail i'r dadansoddiad ynghylch a yw plentyn wedi, neu a yw'n debygol o ddioddef niwed sylweddol. Rhoddwyd hyfforddiant i ymarferwyr i gefnogi'r gwelliannau ymarfer yr oedd eu hangen er mwyn sicrhau bod yr ymagwedd tuag at ymholiadau A47 yn cwrdd â gofynion y Canllawiau Statudol newydd, Gweithio gyda'n Gilydd. Mewn archwiliad ansawdd arbrofol, nodwyd arfer dda o safbwynt y ffaith bod nifer o ymchwiliadau A47 a gynhaliwyd, yn cynnwys asesiad Gofal a Chymorth lle nodwyd anghenion ychwanegol posibl.<br><br>Mae gan yr holl blant perthnasol **Gynllun Diogelu Plant**. Dangosodd ein harchwiliad bod y cynlluniau at ei gilydd, yn nodi'r glir yr hyn a oedd yn achosi pryderon a'r hyn oedd yn ddisgwyliedig o bob person fel rhan o'r cynllun ar gyfer diogelu'r plentyn. Dangosodd yr archwiliad hefyd fod achosion yn cael eu huwchgyfeirio'n briodol i'r Cyfarfod Porthora Cyfreithiol gan weithwyr cymdeithasol.<br><br>Gwnaed cryn dipyn o waith gyda phartneriaeth, gan gynnwys y sector gwirfoddol, y trydydd sector a gofalwyr er mwyn cryfhau'r swyddogaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) (Teulu Môn). Mae staff Teulu Môn wedi ymgysylltu gyda nifer o asiantaethau partner mewn perthynas â gwella ansawdd cyfeiriadau. Mae ansawdd cyfeiriadau gan bartneriaid yn parhau i amrywio ond bu gwelliant yn hyn o beth yn dilyn y buddsoddiad gan Teulu Môn. Mae staff Teulu Môn yn rhagweithiol yn eu hymholiadau er mwyn gwella eglurder cyfeiriadau unigol ac er mwyn cefnogi safonau cyffredinol y cyfeiriadau a dderbynnir. Rydym wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â Heddlu Gogledd Cymru o ran eu gwaith ymagweddau wedi ei sylfaenu ar brofiadau plentyndod andwyol, adnabod anghenion ymyrraeth gynnar ac ymateb i CID16s. Treuliodd yr Heddlu amser yn Teulu Môn yn cysgodi Swyddogion Ymgysylltu. Mae'r Gwasanaeth yn cynllunio ar gyfer cyflwyno Canolfan Cymorth Cynnar ar hyn o bryd, yn seiliedig ar fodel Sir y Fflint. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ers Mehefin 2018, mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi cychwyn rhaglen beilot gyda Heddlu Gogledd Cymru o'r enw **Camau Cynnal gyda'n Gilydd**. Rhagwelir y bydd y rhaglen o gymorth i leihau'r pwysau ar yr heddlu ac ar bartneriaid cyflawni allweddol ac y bydd yn gwella canlyniadau ar gyfer pobl trwy ganolbwyntio ar drawsnewid plismona yn ymagwedd Profiadau Plentyndod Andwyol (ACE) aml asiantaethol a fydd yn galluogi ymyrraeth gynnar ac atal yr hyn sy'n achosi'r problemau er mwyn sicrhau nad yw materion yn dwysáu. Bydd hyn yn darparu gwasanaeth mwy llyfn ac effeithiol a fedr ymateb yn well i anghenion unigolion a chymunedau lleol yn Ynys Môn, yn enwedig y rhai mwyaf bregus.<br><br>Tystiolaeth o well **trosolwg gan uwch reolwyr** o achosion sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant gan y Rheolwr Gwasanaeth. Cynhelir cyfarfod misol gyda'r Swyddog Adolygu Annibynnol (sy'n arwain ar Amddiffyn Plant) ac Arweinwyr Ymarfer er mwyn trafod y plant sydd wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant am oddeutu 10 mis – er mwyn sicrhau ffocws dwys ar y camau camu fyny/camu lawr sy'n angenrheidiol.<br><br>Gan fod yr Uned Ddiogelu'n ymwneud â diogelu oedolion a phlant, rydym yn cydnabod y buddion niferus a ddaw o rannu arbenigedd a phersbectif yn enwedig mewn perthynas â<br><br>- Deall y **Ddeddf Galluedd Meddyliol a Diogelu Rhag Colli Rhyddid**<br>- Asio'r **Cyfarfodydd Pryderon Proffesiynol ar gyfer Oedolion a'r Cyfarfodydd Strategol Proffesiynol mewn perthynas â Chamdriniaeth:** ac asesiadau o achosi, oherwydd rhywbeth a wnaed neu na wnaed, niwed sylweddol i blentyn ble mae'r unigolion hynny hefyd yn gweithio neu'n gwirfoddoli gyda phlant neu oedolion a all fod mewn perygl.<br><br>**Mae data perfformiad** yn dangos y gall plant a'u teuluoedd fod yn hyderus fod penderfyniadau amserol yn cael eu gwneud ynghylch unrhyw achosion honedig y ceir gwybod amdanynt fod plentyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Nid oes unrhyw restr aros ar gyfer dyrannu achosion ble mae angen gwneud ymholiadau ynghylch diogelu. Mae pob cyswllt sy'n ymwneud â diogelu'n cael ymateb cyflym a chynhwysfawr gyda chamau asesu a rheoli risg yn seiliedig ar dystiolaeth.<br><br>Mae gwybodaeth perfformiad ynghylch amseroldeb cyfarfodydd, cyfnodau cofrestru ac ail-gyfeirio yn parhau i fod o fewn y targedau. Mae gwelliant o ran amseroldeb y grwpiau craidd. Mae hwn yn faes ble mae'r gwasanaeth yn parhau i ganolbwyntio ar ei wella.<br><br>Ni chafwyd yr un **apêl yn erbyn cofrestriad** yn ystod y cyfnod yr adroddir arno. | |

| | | |
|---|---|---|
| **4. Tynnwch sylw at yr heriau allweddol y mae eich sefydliad yn ei wynebu gydag arfer diogelu.** | Mae'r Awdurdod Lleol yn ymateb i ac yn gwneud **cynnydd parhaus o ran yr heriau y mae'n eu hwynebu.** Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Ymarfer Gwasanaeth. Cyfeiriwch at rif 3 uchod.<br><br>Mae archwiliadau'n dangos fod rhaid meysydd allweddol y mae angen canolbwyntio arnynt<br><br>- Tystiolaeth o ddymuniadau a theimladau'r plentyn a bod y plentyn wedi cael y cyfle i ddeall ei gynllun/chynllun<br>- Yr heriau sy'n gysylltiedig â chadw crynodeb effeithiol o berthnasau cymhleth, rhyng-ddibyniaethau a chofnodiadau hanesyddol sylweddol mewn systemau cofnodi achosion.<br><br>Rydym wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad mewn perthynas â **Gweithdrefnau Amddiffyn Cymru Gyfan** drafft : a bydd angen i ni weithio o fewn ein sefydliad a chydag eraill i gefnogi gweithrediad.<br><br>Er ein bod yn frwd ynghylch lansio ***Cryfder ar y Cyd,*** rydym yn cydnabod bod newid yn gallu bod yn heriol i ni a'n partneriaid. Gall ymarferwyr nodi risgiau ac mae ganddynt nifer o declynnau/asesiadau i nodi risgiau, fodd bynnag, mae nodi cryfderau'r teulu a'r ffactorau diogelu sydd gan y teulu oddi mewn iddo i gadw'r plentyn yn saff yn fwy o her iddyn nhw a'n hasiantaethau partner. Bydd ei hymagwedd gynhwysol tuag at ddatblygu'r model yn beth da i ni oherwydd rydym yn gweithio gyda phartneriaid i'w weithredu.<br><br>O ran yr hyn y mae archwilio a gwerthuso'n ei ddweud wrthym am yr heriau yr ydym ni ac asiantaethau eraill yn eu hwynebu:-<br><br>- Tystiolaeth bod y grŵp craidd wedi mynd ati i gyd-gynhyrchu y gwaith o ddatblygu'r cynllun gyda'r rhieni; er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyfathrebu mewn modd dealladwy; sicrhau y rhennir perchnogaeth.<br>- Y Cynllun Diogelu yw'r hyn sy'n gyrru gwaith y grŵp craidd.<br>- Rhaid i adroddiadau a chyfraniadau i gynadleddau amddiffyn plant gan yr holl asiantaethau fod yn llai ail-adroddus a rhaid iddynt ddarparu diweddariad mwy cryno o'r cynnydd a wnaed, yr hyn sy'n parhau i achosi pryder a'r hyn y mae angen ei newid.<br>- Mae'r ffaith bod yr heddlu yn canoli'r ddesg sgrinio a gwneud penderfyniadau yn arwain at gynnal mwy o gyfarfodydd strategaeth dros y ffôn heb gyfraniadau asiantaethau eraill. | Cynllun Gwella'r Gwasanaethau Plant<br><br>Archwiliadau unigol ac adroddiadau ar ansawdd ymarfer: a chynlluniau gweithredu<br><br>Adroddiadau i'r LDG |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae angen i asiantaethau ystyried y modd y gallai technoleg gefnogi cyfraniad yr holl asiantaethau i gyfarfodydd strategaeth rhithiol pan fo angen.<br>- Dylai NWSCB roi ystyriaeth i anghenion datblygu ymarferwyr ar draws pob asiantaeth o ran asesu'r niwed i blant ble mae amheuaeth y gall eu rhieni/gofalwyr fod wedi eu cam-drin yn rhywiol neu bod tebygrwydd y gallent wneud hynny.<br>- Gweithio gyda chydweithwyr iechyd i gefnogi gwelliant yn ansawdd adroddiadau meddygon teulu i Gynadleddau | |
| **5. Rhowch dystiolaeth o sut y mae Plant/ Pobl ifanc / Teuluoedd / gofalwyr wedi bod yn rhan o ddatblygu'r gwasanaeth yn eich asiantaeth.** | Rydym yn gwybod bod angen i ni ddatblygu ein trefniadau. Mae'r datblygiadau hyd yma wedi canolbwyntio'n bennaf ar gyfranogiad plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.<br><br>Anogir rhieni, gofalwyr a phlant i fynychu cynadleddau amddiffyn plant. Mae cyfranogiad rhieni a gofalwyr mewn cynadleddau yn dda ond yn gyffredinol, mae plant a phobl ifanc yn dewis peidio mynychu. Dylai adroddiadau i gynadleddau achos adlewyrchu dymuniadau a theimladau'r plentyn ac mae'r cadeirydd yn canolbwyntio ar hyn yn y gynhadledd. Mae gennym gapasiti yn awr i gynnig i'r plentyn gael cyfarfod gyda'r Cadeirydd cyn y gynhadledd. Rydym yn sicrhau bod y plentyn/person ifanc yn deall ei hawl i eiriolaeth.<br><br>Rydym yn gweithio i wella'r wybodaeth a ddarperir ar gyfer y plant a'r teuluoedd cyn y gynhadledd. Rydym yn ceisio cynnwys rhieni yn y broses o hon. Nid yw hyn wedi bod yn llwyddiannus. Y dull un-i-un ydi'r un mwyaf llwyddiannus ac mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol (sy'n arwain ar Amddiffyn Plant) yn cael barn y rheini drwy siarad hefo nhw cyn ac ar ddiwedd y cynadleddau achos ac yn ystod yr adolygiad o achosion IFSS. Mae'n darparu adroddiad chwarterol sy'n crynhoi'r prif ganfyddiadau fel rhan o'i rôl Trosolwg a Herio. Mae'r negeseuon a geir gan y teuluoedd yn bwerus, e.e. Defnyddiwyd y fformat newydd ar gyfer cyflwyno adroddiadau yn ddiweddar. Dyma oedd yr ail gynhadledd adolygu. Roedd yn well gan y teulu y fformat newydd oherwydd roedd yn glir ac yn hawdd i'w ddeall. Nid oedd angen i weithiwr cymdeithasol dreulio 2 awr hefo nhw yn egluro beth yr oedd popeth yn ei feddwl (fel digwyddodd gyda'r adroddiad i'r gynhadledd gyntaf) ac roeddynt yn deall yr adroddiad hwn. | |
| **6. Mewn perthynas ag arfer diogelu, sut ydych yn sicrhau ansawdd ymarfer?** | Mae'r Gwasanaethau Plant wedi mabwysiadu a gweithredu ei Fframwaith Ansawdd ar gyfer Gwella Ymarfer. Nod y fframwaith hwn yw nodi'r ymagwedd y bydd y Gwasanaethau Plant yn ei chymryd ar mwyn sicrhau eu bod:<br><br>• Yn darparu ymarfer proffesiynol diogel | Gwella'r Fframwaith Ansawdd Ymarfer |

- Yn cefnogi'r plant/oedolion iawn, yn y ffordd iawn, ar yr adeg iawn
- Yn gwerthuso a yw'n gwneud gwahaniaeth o ran gwella ymarfer
- Yn darparu cyd-destun proffesiynol sy'n cefnogi dysgu, adlewyrchu, bod yn agored a darparu her gefnogol
- Yn mynd â'r agenda gwelliant y tu draw i gydymffurfiaeth gyda gweithdrefn sy'n arddangos ymrwymiad i wella ansawdd yr ymarfer gwaith cymdeithasol a ddarperir ar gyfer plant, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Mae'n darparu cyfres o brosesau sicrwydd cynlluniedig a systematig a ddefnyddir i siapio dysgu a gwelliant, gan symud ar hyd y sbectrwm o reoli ansawdd i wella ansawdd yn seiliedig ar ymagwedd o werthuso, dysgu a gwella. Yn adroddiad y llynedd, fe wnaethom roi manylion am ein ymagweddau tuag at Ddiffinio Ansawdd, Sicrhau Ansawdd, Gwerthuso Ansawdd a Dysgu a Gwella.

Rydym yn defnyddio amryw o ffynonellau a dulliau i sefydlu sylfaen dystiolaeth am ansawdd ymarfer yn y gwasanaeth. Yn seiliedig ar y sylfaen dystiolaeth hon, rydym yn symud ymlaen i ddysgu a gwella'n seiliedig ar sylfaen systemig a chynlluniedig. Mae archwiliadau rheolaidd a chynlluniedig o ffeiliau achosion ac Archwiliadau Aml-asiantaethol yn arfer sydd wedi sefydlu'n gadarn. Mewn perthynas penodol â'r adroddiad hwn, fe wnaed yr isod:

- Cynhaliwyd archwiliadau rheolaidd, misol o'r ffeiliau achosion ar draws y gwasanaeth gan Arweinwyr Ymarfer, Swyddogion Adolygu Annibynnol, Rheolwyr Gwasanaeth
- Arfarniad thematig o ymarfer – penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â chyfeiriadau gafodd eu cau yn dilyn ymchwiliadau A47:
- Arfarniad thematig o ymarfer – Yr holl Gynlluniau Diogelu Plant yn erbyn Safonau'r Gwasanaeth o ran canolbwyntio ar anghenion, risgiau a chryfderau plant a theuluoedd a chanlyniadau. amserlenni ac atebolrwydd clir ar gyfer gweithredu.
- Arfarniad thematig o ymarfer – Archwiliad gan Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol – deg o deuluoedd yr oedd eu plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant er mwyn mesur ansawdd y gwasanaethau a gawsant yn erbyn Safonau'r Gwasanaeth
- Arfarniad thematig o ymarfer – Proses Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus
- Adolygiadau Rheoli mewn achosion penodol
- MAPFS

Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol â rôl bwysig o ran Trosolwg a Goruchwylio ac adrodd yn barhaus ac yn systematig bob chwarter gan ganolbwyntio ar themâu, materion a dysgu.  Mae ganddynt hefyd rôl bwysig o safbwynt herio ac uwch gyfeirio.

Archwiliadau unigol

Ansawdd
Adroddiadau
Ymarfer

Cylchoedd Dysgu

Cyflwyniadau

| | | |
|---|---|---|
| **7. Nodwch enghraifft o arfer da lle mae canlyniadau cadarnhaol wedi'u cyflawni mewn perthynas ag arfer diogelu.** | Yn ystod y 6 mis diwethaf, cafwyd tystiolaeth gadarnhaol ac adborth ynghylch cyd weithio ar 6 o achosion amddiffyn plant rhwng Gwasanaethau Arbenigol Plant a grwpiau ymarfer eraill ar draws Gwasanaeth Plant a Theuluoedd Ynys Môn. Mae'r achosion hyn wedi bod naill ai'n blant anabl unigol neu'n blant anabl sydd wedi bod yn rhan o grŵp mwy o frodyr a chwiorydd.<br><br>Mae'r rhain wedi bod yn achosion cymhleth lle roedd angen i weithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill feddu ar sgiliau, profiad a gwybodaeth sy'n berthnasol i Weithdrefnau Amddiffyn Plant, ond yr un mor bwysig cael sgiliau, profiad a gwybodaeth ynghylch anghenion plant anabl ag anghenion cymhleth.<br><br>Trwy gydweithio'r achosion hyn, bu'n bosibl cefnogi staff i feithrin hyder a gallu yn y ddau faes arbenigedd ar draws y gwasanaeth.  Mae wedi bod o fudd i ddulliau cyd o weithio ar gyfer gyda phlant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth yn y dyfodol | |
| | Mae tri phlentyn dros 10 oed sy'n destun Cynllun Amddiffyn Plant fel mesur diogelu oherwydd-:<br><br>- Bod yn agored i ymddygiad eu rhieni fel trais yn y cartref gyda'r tad yn dramgwyddwr, defnydd cyffuriau anghyfreithlon y tad a materion iechyd meddwl.<br>- Tad â statws troseddwr rhyw, o ganlyniad i ddatgelu ei hun i eraill ar ddau achlysur gwahanol - wedi'i ddedfrydu i 12 mis o garchar gan dreulio 6 mis yn y carchar<br>- Mam yn parhau mewn perthynas gyda'r tad ac yn caniatáu iddo fyw ar yr aelwyd ar ôl ei ryddhau; yn erbyn cyngor proffesiynol.<br>- Y tad heb gydweithio ag asesiad risg arbenigol (Lucy Faithfull) ac yn parhau i wrthod derbyn ei risg i eraill.<br>- Roedd y plant yn profi cael eu diarddel o fewn eu cymuned o ganlyniad i ymddygiad eu tad yn ogystal â phrofi esgeulustod o'u hanghenion corfforol, emosiynol ac addysgol a methiant y rhieni i gymryd rhan yn y gwaith o ddarparu cymorth i weithredu a chynnal newid .<br><br>Bu i'r Awdurdod Lleol gychwyn Achos Gofal yn y Llys. Er i'r llys farnu fod trothwy niwed sylweddol wedi'i gyflawni ac wedi gwneud Gorchmynion Gofal Dros Dro mewn perthynas â'r tri phlentyn, barnodd y llys i'r  tri phlentyn yn aros yng ngofal rhieni.  Cafodd hyn ei rheoleiddio dan  adran 38 (6) o Ddeddf Plant 1989 a'i gefnogi gan Gontract Disgwyliadau wedi'i lofnodi. Roedd hyn yn golygu bod gan y tri phlentyn statws Plant y Gofelir Amdanynt, ond fod mesur diogelu mwyaf llym o ran gwahanu'r plant o ofal rhieni ac o bosibl fel grŵp o frodyr a chwiorydd wedi ei osgoi. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gadawodd Tad yr aelwyd. Llofnododd y fam ymrwymiad gyda'r llys i beidio â chaniatáu iddo fynd i mewn i gartref y teulu a / neu i gael cyswllt heb oruchwyliaeth gyda'r plant. Roedd hyn yn golygu bod y risg yn cael ei rheoli a chaniatawyd i'r fam ganolbwyntio ar y plant a dangos ei gallu i rianta'r plant fel yr unig ofalwr. Roedd mam yn ymgysylltu'n gadarnhaol â darpariaethau gwasanaeth cymorth yn ystod yr achos. Cafwyd tystiolaeth o welliant yn ei gallu i ddiwallu anghenion unigol y plant ym mhob parth craidd. O ganlyniad, argymhellodd y Gweithiwr Cymdeithasol ar ran yr Awdurdod Lleol fod anghenion parhaol y tri phlentyn yn cael eu diwallu yng ngofal parhaus eu mam. Fodd bynnag, oherwydd lefel uchel o 'gydymffurfiad cuddiedig' yn y gorffennol, argymhellwyd hefyd y dylid goruchwylio'r achos am 12 mis drwy Orchymyn Goruchwyliaeth. Bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn parhau i adolygu a chraffu'r cynllun yma.<br><br>Cwblhawyd yr achos o fewn yr amserlen ofynnol o 26 wythnos. Roedd Gwarcheidwad Plant yn cefnogi cynllun yr Awdurdod Lleol, a gadarnhawyd gan y Llys.<br><br>Fel mesur diogelu parhaus, llofnododd mam ymrwymiad pellach gyda'r llys i beidio â chaniatáu i'r tad fynd i'r cyfeiriad cartref na chaniatáu iddo gysylltu â'r plant nes iddo gydweithio a'r 'asesiad risg'. Wrth wneud hyn roedd yn gwybod pe bai'n torri'r ymrwymiad hwn y gallai gael dirwy fawr neu ei dedfrydu i garchar. | |

Atodiad 2



# Adroddiad Asiantaeth Bartner Blynyddol i'r BDOGC

**Fersiwn 2 – 4/2/19**

**Mae'r adroddiad asiantaeth bartner diweddaraf ar gyfer 18/19 wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu materion allweddol o fewn adborth y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ar adroddiad blynyddol Gogledd Cymru.**

**Rhaid cwblhau adroddiad yr asiantaeth bartner erbyn 10/5/19 a'i ddychwelyd at**

**regionalsafeguarding@denbighshire.gov.uk**

**Bydd holl adroddiadau'r asiantaeth bartner yn cael eu cyflwyno yn y Cyfarfod Bwrdd ym mis Gorffennaf. Rydym wedi atodi cyflwyniad PowerPoint gyda'r adroddiad - i chi ei gwblhau, i nodi'r 5 materion allweddol o'ch adroddiad y dylid tynnu sylw'r Bwrdd atynt.**

| Maes Blaenoriaeth | Sylwadau | Tystiolaeth archwilio |
|---|---|---|
| 1 – **Gwnewch sylwadau ar bresenoldeb a chyfranogiad eich asiantaeth mewn Cyfarfodydd Bwrdd, gwaith y Bwrdd ac mewn is-grwpiau.** | Mae Ynys Môn yn cyfrannu at waith y bwrdd: o ran cyllid ac amser swyddogion.<br><br>**Bwrdd Rhanbarthol**<br><br>Presenoldeb Alwyn Jones, Pennaeth Oedolion<br><br>**Grŵp Darparwyr**<br><br>Yn cael ei gadeirio gan Alwyn Jones, Pennaeth Oedolion<br><br>Anwen Huws, Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Olwena Davey, Cydlynydd Diogelu Oedolion<br><br>**Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau**<br><br>Olwena Davey, Cydlynydd Diogelu Oedolion<br><br>**Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion**<br><br>Olwena Davey, Cydlynydd Diogelu Oedolion<br><br>Mae Anwen Huws, Rheolwr Gwasanaeth ac Olwena Davey, Cydlynydd Diogelu Oedolion wedi cyfrannu yn rheolaidd hefyd i gyfarfodydd ymgynghori mewn perthynas â'r Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan arfaethedig | Presenoldeb a chyfraniadau yn cael eu cydnabod yng nghofnodion yr holl grwpiau. |

| | | |
|---|---|---|
| **2- Gwnewch sylwadau ar y gwaith y mae eich asiantaeth wedi'i wneud gyda Blaenoriaethau'r Bwrdd?**<br><br>**Gwella Canlyniadau:**<br>· Eich sicrhau bod ymatebion effeithiol, effeithlon a chydlynol i'r anghenion dynodedig gan oedolion mewn perygl yn golygu gwell canlyniadau iddyn nhw.<br>·<br>· **Ymgysylltu'n Well:**<br>· Dangos fod llais y defnyddwyr gwasanaeth yn ganolog i'n gwaith a bod safbwyntiau oedolion mewn perygl, eu teuluoedd ac ymarferwyr rheng flaen yn datblygu arferion ac yn siapio gwasanaethau.<br>·<br>· **Gwella Dealltwriaeth a Dysgu Parhaus:**<br>· Sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r oedolion sydd fwyaf mewn perygl yn ein rhanbarth a'u diogelu nhw'n effeithiol.<br>Datblygu a gwella'r ffordd y byddwn yn gweithio yn barhaus fel bod canlyniadau i oedolion mewn perygl yn gwella.<br>·<br>· **Arweinyddiaeth Gadarn a Thystiolaeth o Gydymffurfedd:**<br>· Darparu arweinyddiaeth strategol mewn perthynas â diogelu, a<br>· Sicrhau fod Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru **yn gallu darparu yn erbyn eu swyddogaeth statudol** yn effeithiol<br>· | Mae cysylltiadau rhwng yr Awdurdod Lleol ac asiantaethau partner mewn perthynas â diogelu wedi eu sefydlu'n dda. Mae hyn yn sicrhau yr ymdrinnir ag adroddiadau yn gyflym ac yn gynhwysfawr. Dengys ein dangosyddion perfformiad ein bod yn cwblhau ymholiadau o fewn y cyfnod 7 niwrnod mewn dros 90% o achosion.<br><br>Lle bynnag y bo'n bosib, gofynnir am farn yr unigolion am eu profiad diogelu a sut y gellir cyflawni hyn. Er nad oes modd gwneud hynny bob amser oherwydd diffyg tystiolaeth neu gapasiti yr unigolyn, ymgysylltir ag aelodau'r teulu / eiriolwyr a gofynnir am eu barn. Defnyddiwyd eiriolaeth hefyd i gefnogi unigolion neu aelodau'r teulu os nodwyd yr angen ychwanegol hwnnw.<br><br>Rydym wedi drafftio ein polisi a'n gweithdrefn ac rydym yn y broses o'u cymeradwyo a'u gweithredu fel eu bod yn cefnogi'r gwaith o Ymdrin ag Achosion Unigol o Oedolion mewn Perygl: sicrhau fod y person yn ganolog i'w profiad diogelu. Rydym hefyd yn datblygu ein templedi cofnodi a rhaglenni enghreifftiol i gynorthwyo i weithredu'r polisi/gweithdrefn er mwyn gwella'r modd yr ydym yn cefnogi barn yr unigolyn i sicrhau fod llais y person neu ei eiriolwr yn ganolog drwy gydol y broses.<br><br>Darperir hyfforddiant drwy gydol y flwyddyn drwy gyfrwng cynadleddau, digwyddiadau hyfforddi ac e-ddysgu. Nodir anghenion hyfforddi yn ystod sesiynau goruchwylio. Nodir gofynion hyfforddi drwy ddeddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau sy'n esblygu. Hysbysir yr Uwch Dîm Rheoli a Grŵp Darparu GaM am yr holl hyfforddiant a ddarperir. | Tystiolaeth drwy gyfathrebu uniongyrchol rhwng asiantaethau a chofnodion achos.<br><br>Tystiolaeth mewn cofnodion achosion unigol ar WCCIS.<br><br>Adrodd yn chwarterol |

| | | |
|---|---|---|
| | Rydym yn cyfrannu at yr agenda rhanbarthol ac isranbarthol ac yn cynorthwyo i yrru gwelliannau ar lefel ranbarthol.<br><br>Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi staff i bontio rhwng y darpariaethau Diogelu Oedolion Bregus (POVA) a'r dyletswydd a126 Oedolion mewn Perygl hyd nes bydd y Gweithdrefnau Cymru Gyfan yn cael eu gweithredu. | |
| **3- Nodwch unrhyw gyraeddiadau/gwelliannau allweddol sy'n berthnasol i arfer diogelu dros y deuddeg mis diwethaf yn eich asiantaeth?** | **Sail Gorfforaethol**<br><br>Mae Diogelu yn flaenoriaeth gorfforaethol: mae'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol mewn lle gan yr Awdurdod Lleol ac mae Arweinydd Diogelu dynodedig ym mhob gwasanaeth. Yn ystod 2018/19 sefydlodd yr Awdurdod Lleol ei ail Gynllun Diogelu Corfforaethol oedd yn cynnwys camau gwella mewn perthynas â:-<br><br>– Arweinyddiaeth a Llywodraethiant Corfforaethol<br>– Datblygiadau newydd a mawr – Perthnasedd Diogelu<br>– Cyfathrebu ac Ymwybyddiaeth<br>– Gweithlu Diogel a Medrus<br>– Cefnogaeth ac Ymyrraeth Effeithiol<br>– Partneriaid, gwirfoddolwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd<br><br>Prif Lwyddiannau<br><br>i. **Ail lansio'r Polisi Diogelu Diwygiedig** – Rhagfyr 2018, drwy'r Porth Polisi, gan fonitro lefelau derbyn<br><br>ii. Datblygwyd **Cerdyn Sgorio Diogelu** fel rhan o'r Adolygiadau Gwasanaeth Unigol. | Cofnodion a chamau gweithredu cyfarfodydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol. |

| | | |
|---|---|---|
| | iii. **Wylfa Newydd** – Datblygwyd Asesiad o Effaith a chynigion Lliniaru. Archwiliodd y gwrandawiad DCO faterion yn ymwneud â Diogelu ym mis Ionawr 2019. Gwnaethom barhau i ymateb i'r datblygwr ynghylch materion diogelu yn unol â'r pryderon a'r camau lliniaru a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Effaith Leol. Cwblhawyd y mewnbwn i'r cytundeb S106.<br><br>iv. **Caethwasiaeth Fodern** – Lansiwyd modiwl e-ddysgu. Cymerodd gwasanaethau ar draws yr Awdurdod Lleol ran yn yr Ymgyrch Octopws – oedd yn ymwneud â chyflogaeth deg a moesegol mewn perthynas â safleoedd golchi ceir. Mae camau i weithredu ein hymrwymiad i'r Côd Ymddygiad ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi yn parhau.<br>v. **Prevent** – Datblygwyd Polisi Dim Llwyfan a Chanllawiau Ymarfer i'w cymeradwyo gan y bwrdd strategol ym mis Ebrill 2019.<br>Presenoldeb yng nghyfarfod y Panel Chanel rhanbarthol i rannu arfer dda a sicrhau cysondeb rhanbarthol.<br>vi. **Anffurfio Organau Cenhedlu Merched (FGM)** - Dathlodd Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn 'Ddiwrnod Gwaith Cymdeithasol y Byd' drwy wahodd Hibo Wardere, yn enedigol o Somalia ac ymgyrchydd yn erbyn anffurfio organau cenhedlu merched (FGM) i siarad â ni am ei phrofiad o FGM, fel dioddefwr, a rhoddodd gyflwyniad addysgiadol ac ysbrydoledig i staff.<br><br>**Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS)**<br><br>Rydym wedi gwneud gwelliannau sylweddol yn y maes hwn: cynyddwyd capasiti o ganlyniad i dderbyn arian ychwanegol. Mae hyn wedi arwain at<br><br>– Gynnydd yn nifer yr asesiadau a gwblhawyd<br>– Lleihau'r rhestr aros<br>– Gweithio gyda'r Awdurdod Rheoli fel eu bod yn deall eu | Adroddiad ar y polisïau a gwblhawyd / heb eu cwblhau i'r Uwch Dîm Rheoli.<br><br>Tystiolaeth o'r cerdyn sgorio ar gael.<br><br>Copïau o asesiadau a chynigion ar gael.<br><br>Hyfforddiant gorfodol i bawb yn yr ALl. |

| | | |
|---|---|---|
| | cyfrifoldebau<br>– Adolygu ein gwybodaeth i’r cyhoedd. | |
| | **Trin Achosion Unigol o Oedolion Mewn Perygl**<br><br>Bu cynnydd sylweddol mewn adroddiadau diogelu yn ystod y flwyddyn ac maent yn cael eu sgrinio yn y lle cyntaf gan y gwasanaeth Un Pwynt Mynediad / Rheolwyr Tîm. Yn ystod y flwyddyn, rheolwyd 93.5% o’r risgiau diogelu. | Copïau ar gael. |
| | **Protocol Pryderon Proffesiynol**<br><br>Gan fod yr Uned Ddiogelu’n gyfrifol am ddiogelu oedolion a phlant, rydym yn cydnabod nifer o fanteision a ddaw yn sgil rhannu arbenigedd a phersbectif, yn arbennig mewn perthynas â<br><br>– Deall y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid<br>– Cydblethu Cyfarfodydd Pryderon Proffesiynol Oedolion a Chyfarfodydd Proffesiynol Strategaeth Cam-drin: ac asesiadau o achosi niwed sylweddol i blant drwy weithred neu anweithred lle mae’r unigolion hynny hefyd yn gweithio, neu’n gwirfoddoli, gyda phlant neu oedolion a all fod mewn perygl. | Cofnodion ar gael. |
| | **Protocol Hunan Esgeulustod Gogledd Cymru**<br><br>Ers cyflwyno’r protocol hwn, gwelwyd gwelliannau sylweddol mewn gwaith rhyngasiantaeth rhagweithiol gydag unigolion sydd â chapasiti cyfreithiol ac sy’n esgeuluso eu hunain. Mae hyn wedi arwain at gyd-ddealltwriaeth ymysg gweithwyr proffesiynol ac, mewn nifer o achosion, mae wedi arwain at well canlyniadau i unigolion na fyddent o bosib wedi cael mynediad i wasanaethau cyn hynny. | Tystiolaeth o bresenoldeb staff. |

| | | |
|---|---|---|
| | **BIPBC**<br><br>Mae cyd-weithio gyda chydweithwyr o BIPBC mewn perthynas â chyfraddau atgyfeirio o ysbyty Cefni wedi bod yn fuddiol gyda threfniadau mewn lle yn awr i adrodd bob chwarter er mwyn datblygu cyd-ddealltwriaeth a gwella ansawdd i ddinasyddion. | Cyflwynir tystiolaeth i AGC yn flynyddol.<br><br>Adrodd bob chwarter i'r grŵp darparu Gwynedd a Môn.<br><br>WCCIS<br><br>Adroddiad bob chwarter<br><br>Ffeiliau achos WCCIS |
| **4. Tynnwch sylw at yr heriau allweddol y mae eich sefydliad yn ei wynebu gydag arfer diogelu.** | Mae cynnydd mewn perthynas â cheisiadau i'r Llys Gwarchod gymeradwyo Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid cymunedol yn araf am nad oes gennym feddyg sy'n fodlon gweithio yn bennaf gyda'r gymuned Anableddau Dysgu. Rydym yn blaenoriaethu adolygu ceisiadau a lleoliadau newydd. Fodd bynnag, mae diffyg cefnogaeth feddygol yn creu heriau i ni. Mae hyn yn creu risg y bydd yr ALl yn wynebu heriau cyfreithiol mewn perthynas â thua 45 o unigolion sydd wedi colli rhyddid yn anghyfreithlon yn y gymuned. Mae gwaith yn parhau i sefydlu cysylltiadau gyda meddygon a fyddai o bosib yn fodlon cwblhau'r asesiadau. Mae safon yr atgyfeiriadau yn parhau yn anghyson, gan olygu bod rhaid dilyn achosion i fyny, derbyn caniatâd a chasglu mwy o wybodaeth. Mae cymhlethdod yr achosion yn amrywio hefyd. Fodd bynnag, mae cysylltiadau cryf yn bodoli rhwng asiantaethau ynghyd ag ymrwymiad i'r prosesau diogelu. | Dialog rhwng ymgynghorwyr / meddygon teulu unigol.<br>Dialog gyda BIPBC gan ofyn am restri o staff 12(2) i ddechrau gwneud cyswllt. |

| | | |
|---|---|---|
| **5. Rhowch dystiolaeth o sut y mae Oedolion mewn Perygl / Teuluoedd / gofalwyr wedi bod yn rhan o ddatblygu'r gwasanaeth yn eich asiantaeth.** | Parhau mae ymdrechion i geisio cael adborth gan rai sydd wedi dioddef camdriniaeth ac sydd wedi bod drwy'r broses ddiogelu. Mae hyn yn parhau i fod yn her gan nad yw nifer o ddioddefwyr yn gallu ymgysylltu oherwydd anallu neu amharodrwydd.<br><br>Os nad oes gan berson gapasiti mewn perthynas â digwyddiad diogelu penodol, rhoddir cyngor i Deuluoedd / Eiriolwyr a gofynnir am eu barn. Gwahoddir Teuluoedd / Eiriolwyr i gynadleddau achos.<br><br>Ar hyn o bryd, rydym yn cryfhau ein mecanweithiau adrodd i wella'r modd y mae galluedd meddyliol a barn y person neu ei eiriolwr yn cael eu cofnodi. | Tystiolaeth yn cael ei gofnodi mewn archwiliadau mewnol ac aml-asiantaeth sy'n cael ei adrodd yn ôl i staff, Rheolwyr drwy Grŵp Darparu Gwynedd a Môn. |
| **6. Mewn perthynas ag arfer diogelu, sut ydych yn sicrhau ansawdd ymarfer?** | Mae Gwasanaethau Oedolion wedi mabwysiadu a gweithredu Fframwaith Gwella Ansawdd Ymarfer. Nod y fframwaith yw amlinellu'r dull y bydd y gwasanaeth yn ei ddilyn i sicrhau ei fod yn<br><br>• Darparu ymarfer proffesiynol diogel<br>• Cefnogi'r oedolion cywir, yn y ffordd gywir, ar yr amser cywir<br>• Arfarnu a yw'n gwneud gwahaniaeth o safbwynt gwella ymarfer<br>• Darparu cyd-destun proffesiynol sy'n cefnogi dysgu, myfyrio, bod yn agored a her gefnogol<br>• Mynd â'r agenda gwella y tu hwnt i gydymffurfio â gweithdrefnau yn unig a sicrhau ymrwymiad i wella ansawdd yr ymarfer a ddarperir | Tystiolaeth o archwiliadau mewnol ac amlasiantaethol sy'n cael ei adrodd yn ôl i staff, Rheolwyr drwy Grŵp Darparwyr GaM. |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'n darparu set o brosesau systematig a gynlluniwyd y gellir eu defnyddio i siapio dysgu a gwella, gan symud ar hyd y sbectrwm o reoli ansawdd i wella ansawdd yn seiliedig ar ddull o arfarnu, dysgu a gwella. Mae'r gwasanaeth wedi cychwyn proses reolaidd, wedi ei chynllunio, o archwilio ffeiliau achos, gyda Rheolwyr Tîm, Rheolwyr Gwasanaeth a'r Cydlynydd Diogelu Oedolion yn gwneud y gwaith. Mae arfarniadau thematig o ymarfer wedi eu cynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan ddechrau gyda goruchwyliaeth.<br><br>Rydym wedi cynnal nifer o archwiliadau aml-asiantaeth yn unol â gofynion y Grŵp Darparwyr Lleol. Mae'r gwasanaeth – drwy ei Dîm Rheoli Gwasanaeth, Gweithdai Gwasanaeth Cyfan, Goruchwyliaeth, Cyfleoedd Datblygu Proffesiynol - yn ystyried tystiolaeth arfarnu ymarfer: fel ei bod yn glir pa welliannau sydd eu hangen a bod modd eu cyflawni.<br><br>Mae'r Cydlynydd Diogelu Oedolion yn darparu swyddogaeth Drosolwg bwysig ac yn adrodd yn rheolaidd ac yn systematig bob chwarter gan amlygu themâu, materion a dysgu. Yn ogystal, maent yn cyflawni swyddogaeth herio ac uwchgyfeirio bwysig. Rydym wedi ailstrwythuro'r adnoddau sydd gennym er mwyn cryfhau'r swyddogaeth hon fel ein bod yn cynnal archwiliadau annibynnol misol rheolaidd ac a gynlluniwyd yn edrych yn benodol ar ymarfer a gwneud penderfyniadau ynghylch diogelu: ac yn darparu trosolwg annibynnol cymesur, fydd yn cael effaith bositif ar ymatebion amserol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ni chomisiynwyd unrhyw Adolygiadau Ymarfer Oedolion na Fforwm Proffesiynol Aml-Asiantaeth (MAPF) yn ymwneud ag Ynys Môn drwy'r Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion na'r Grŵp Darparu Lleol yn ystod y cyfnod adrodd. Rydym wedi sicrhau fod staff rheng flaen yn ymwybodol o'r cynlluniau gweithredu a'r argymhellion o'r Adolygiad Diogelu Oedolion, dysgu ar lefel genedlaethol ac ymchwil allweddol. | |
| **7. Nodwch enghraifft o arfer da lle mae canlyniadau cadarnhaol wedi'u cyflawni mewn perthynas ag arfer diogelu.** | Cafodd P ei hasesu a phenderfynwyd ei bod angen gofal 24 awr y dydd yn dilyn cyfnod pan ddirywiodd ei chyflwr corfforol a meddyliol yn gyflym. Mynegodd P, wrth Eiriolwyr, ei bod yn dymuno dychwelyd adref a chyflwynwyd cais i'r Llys Gwarchod er mwyn derbyn penderfyniad.<br><br>Cyn y gwrandawiad, cafodd gwaith aml-asiantaeth rhagorol ei wneud rhwng P, y teulu, Gweithiwr Cymdeithasol, Therapydd Galwedigaethol, Nyrs Seiciatrig Gymunedol a'r Seiciatrydd gan edrych ar nifer o opsiynau fyddai'n galluogi P i ddychwelyd adref. Roeddent yn cynnwys; cefnogaeth deuluol, cymorth gan dechnoleg, gofal cartref, gofal dydd ayb. Yn ogystal, rhoddwyd cyfle i P ddychwelyd adref am ymweliad gyda chefnogaeth y gwasanaeth eiriolaeth a theulu er mwyn ceisio cadarnhau barn P. Yn ystod yr ymweliad roedd P yn teimlo'n ddryslyd ac yn ofidus. | Cofnod achos unigol ar WCCIS. |

| | | |
|---|---|---|
| | Barnodd y barnwr mai'r hyn fyddai orau i P fyddai iddi aros mewn cartref gofal. Erbyn hyn, mae'r Gweithiwr Cymdeithasol a'r teulu yn dweud fod P yn rhoi'r argraff ei bod yn hapus yn y cartref ac mae hi wedi creu perthynas gadarnhaol gyda rhai aelodau penodol o staff a phreswylwyr.<br><br>Gellir dadlau mai'r canlyniad gorau i P fyddai iddi ddychwelyd adref, ond roedd yr ymweliad â'i chartref yn cadarnhau i P, a'r gweithwyr proffesiynol oedd yn ymwneud â'i hachos, nad oedd hyn yn bosib bellach. Fodd bynnag, cafodd dymuniadau P eu cyflwyno i'r llys a daethpwyd i farn wirioneddol annibynnol er mwyn sicrhau fod ei hawliau dynol yn cael eu parchu. | |

Atodiad 3

HYFFORDDIANT

2018/19

| | | |
|---|---|---|
| YMWYBYDDIAETH DIOGELU SYLFAENOL | 6 | BASIC SAFEGUARDING AWARENESS |
| HYFFORDDIANT DIOGELU | 12 | SAFEGUARDING TRAINING |
| DIOGELU AR GYFER POBL BROFFESIYNOL | 14 | SAFEGUARDING FOR PROFESSIONALS |
| DIOGELU OEDOLION - GWEITHIO YN RHYNG ASIANTAETHOL | 12 | SAFEGUARDING ADULTS - MULTIAGENCY WORKIN |
| DIOGELU SYLFAENOL PLANT AC OEDOLION | 51 | BASIC SAFEGUARDING CHILDREN AND ADULTS |
| DIOGELU CYFFREDINOL PLANT AC OEDOLION | 195 | GENERAL SAFEGUARDING CHILDREN AND ADULTS |

2019/20 (Diwedd Mehefin/End June)

| | | |
|---|---|---|
| DIOGELU SYLFAENOL PLANT AC OEDOLION | 86 | BASIC SAFEGUARDING CHILDREN AND ADULTS |
| DIOGELU CYFFREDINOL PLANT AC OEDOLION | 47 | GENERAL SAFEGUARDING CHILDREN AND ADULTS |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **11 Medi, 2019** |
| **Pwnc:** | **Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Diweddariad ar gynnydd gwaith y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng R Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Rhys H Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc** |
| **Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini<br>01248 752578<br>AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio:

**A1** Nodi:

- Y cynnydd hyd yma gyda gwaith y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion o safbwynt cyflawni ei raglen waith cyfredol sy'n cynnwys herio cadarn o berfformiad ysgolion unigol
- Y meysydd gwaith y rhoddwyd sylw iddynt drwy'r trefniadau newydd a gyflwynwyd wrth gysgodi GwE
- Deilliannau'r hunan arfarniad diweddar i fesur effaith y Panel a'r gwerth a ychwanegwyd
- Yr angen i adolygu cylch gwaith y Panel er mwyn sicrhau aliniad parhaus efo blaenoriaethau corfforaethol

**A2** Argymell:

- Ei fod yn cytuno bod y Panel yn parhau i herio perfformiad ysgolion unigol yn gadarn
- Bod y Panel yn cynnwys monitro'r ffrydiau gwaith canlynol yn ei flaen raglen waith:
    - i. gweithredu rhaglen wella'r Gwasanaeth Dysgu
    - ii. y ddarpariaeth Blynyddoedd nas Gynhelir (blynyddoedd cynnar)
- Bod y Pwyllgor yn dod i gasgliad am gadernid gwaith monitro'r Panel hyd yma.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor / blaenoriaethau trawsnewid. Mae Cynllun y Cyngor yn cynnwys uchelgais i weithio gyda phobl Ynys Môn, eu cymunedau a chyda phartneriaid er mwyn sicrhau bydd y gwasanaethau gorau posibl yn cael eu darparu a fydd yn gwella ansawdd bywyd pawb ar hyd a lled yr Ynys. Un o 3 nod y Cynllun ydy

“creu amodau a fydd yn galluogi pawb i gyrraedd eu potensial llawn.” Mae gwaith y Panel yn allweddol i gefnogi ysgolion a’r Cyngor i wireddu’r nod hwnnw.

**3 – Egwyddorion fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu’r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae’r eitem yn ei chael ar unigolion a **chymunedau [ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu’n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 – Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

Ar gais y Panel:

1. A yw’r Pwyllgor Sgriwtini yn fodlon â’r gwaith o wnaed gan y Panel hyd yma?
2. A yw’r camau gweithredu a gymerwyd gan y Panel hyd yma yn ddigon cadarn ac a yw cyflymder y gwaith yn briodol?
3. Oes unrhyw awgrymiadau i gryfhau ymhellach ar waith y Panel?
4. A oes unrhyw feysydd eraill y mae angen i’r Panel eu craffu?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

## 1. CYD-DESTUN

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, bydd Aelodau’n ymwybodol bod craffu wedi datblygu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf drwy waith y 3 phanel sgriwtini. Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi’r cynnydd a wnaed hyd yma mewn perthynas â’r **Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion.**

**Trefniadau Llywodraethu’r Panel**

Bydd yr Aelodau’n ymwybodol o’r trefniadau llywodraethu cadarn sydd mewn lle fel sylfaen i waith y Panel[1] a bwriedir parhau i gynnal cyfarfodydd misol o’r Panel i’r dyfodol. Sefydlwyd proses o adrodd ar gynnydd yn chwarterol gan y Cyng. Gwilym Owen Jones, cadeirydd y Panel.

Erys i aelodaeth y Panel fod fel yr adroddwyd i’r Pwyllgor yn ystod y chwarter diwethaf[2]:

[1] Cyfarfod o’r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 20 Ebrill a 27 Mehefin 2017
[2] Cyfarfod o’r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 9 Ebrill, 2019

**Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion: Aelodaeth**

| Cynghorydd | Pwyllgor Sgriwtini |
|---|---|
| Gwilym Owen Jones (cadeirydd) | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| Margaret M Roberts | |
| Kenneth P Hughes | |
| Vaughan Hughes | |
| | |
| Alun Roberts (is-gadeirydd) | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| John Arwel Roberts | |
| Richard Griffiths | |
| **Aelod Cyfetholedig o'r Pwyllgorau Sgriwtini** | |
| Mr Keith Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |

## 2. FFOCWS GWAITH Y PANEL ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn cynnwys cyfeiriad at 3 cyfarfod olaf y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion – ac o ganlyniad mae'n cwmpasu'r cyfnod **Mai → Gorffennaf, 2019**:

- **Myfyrio a chynllunio ymlaen** – derbyniodd gyfarfod mis Mai[3] y Panel adborth ar lafar a myfyrdodau gan Aelodau yn sgil sesiynau cysgodi cychwynnol GwE. Mae'r myfyrdodau cychwynnol hyn wedi galluogi'r Panel i wneud trefniadau gyda GwE ar gyfer y cyfnod nesaf, yn cynnwys cyflwyno profforma adborth i'w gwblhau ar ddiwedd pob ymweliad cysgodi. Bydd y broses hon yn cryfhau ymhellach ar y trefniadau llywodraethu sy'n sail i'r llif gwaith hwn, gan ddarparu tystiolaeth ar y cyd o fyfyrdodau ac argraffiadau Aelodau ynghyd â mecanwaith ar gyfer sicrhau fod negeseuon allweddol yn cael mwy o ystyriaeth gan y Panel

- **Cydweithio yn y Cyfnod Sylfaen i godi safonau** – ym mis Mehefin[4] cafodd y Panel gyfle i weld gwaith disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ac i graffu ar effaith prosiect cydweithio ar safonau. Roedd y prosiect cydweithio ar draws 4 ysgol gynradd gyda'r Panel yn cael cyfle i arsylwi gwaith disgyblion trwy arddangosfa gynhwysfawr. Rhoddwyd gwybod i'r Panel am yr elfennau unigryw i'r model cydweithio hwn → dalgylchoedd unigol yn cymryd cyfrifoldeb eu hunain dros godi safonau. Hefyd, model o gydweithio ar draws dwy ddalgylch uwchradd. Dyma enghraifft o'r Cyngor yn adeiladu ar ei brofiad drwy hunan-asesiad pellach a chyflwyno dull arloesol o ymgymryd â gweithgaredd craffu[5]

- **Trefniadau cysgodi GwE** – Bydd aelodau'n ymwybodol o'r trefniadau sydd bellach mewn lle i aelodau'r Panel gysgodi gweithgareddau GwE. Rhoddwyd y trefniadau yma mewn lle yn sgil penderfyniad gan y Pwyllgor[6]:

[3] Cyfarfod o'r Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion a gynhaliwyd ar 16 Mai, 2019
[4] Cyfarfod o'r Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2019
[5] Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o sgriwtini Cyngor Sir Ynys Môn yn dwyn y teitl Trosolwg a Chraffu – Addas ar gyfer y Dyfodol? Hydref, 2018
[6] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, 2018

"(PENDERFYNWYD) Trefnu i Aelodau gysgodi gwaith GwE unwaith mae'r trefniadau angenrheidiol wedi cael eu gwneud gan GwE mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaeth Dysgu."

Mae'r fframwaith llywodraethu ar gyfer y trefniadau cysgodi hyn yn gynnwys trefniadau adrodd yn ôl gan Aelodau yn sgil gweithgareddau cysgodi unigol, gyda'r amcanion canlynol:

i. Dod â'r Panel yn nes at waith disgyblion a hefyd safonau mewn ysgolion
ii. Creu'r amodau i Aelodau werthfawrogi'n llawn gymhlethdodau a heriau dysgu ee trwy gyfarfod â staff dysgu rheng flaen i drafod materion yn gyffredinol
iii. Cefnogi'r Panel i ddatblygu ei raglen waith ymhellach

Yn ystod y cyfnod hwn, adroddodd yr Aelodau yn ôl ar 8 maes allweddol yn gysylltiedig â gweithgareddau cysgodi dros dymhorau y Gwanwyn a'r Haf:

- **Cyfarfod Penaethiaid Ysgolion – tracio cynnydd (25/03/19)**
- **Prosiect Shirley Clarke – trosolwg (29/03/19)**
- **Taith Ddysgu Rhifedd (05/06/19)**
- **Cwricwlwm newydd: ysgolion cynradd dalgylch David Hughes (08/06/19)**
- **Cyfarfod Grŵp Arweinyddiaeth 'Camu' (11/06/19)**
- **Prosiect Ymchwil Gweithredol Asesu Ffurfiannol Haen 2: Shirley Clarke (25/06/19)**
- **Cyfarfod Adolygu Haen 2 – Prosiect Shirley Clarke (28/06/19)**
- **Cyfarfod Cynllunio Blaenoriaethau dalgylch David Hughes (model rhesymeg) (08/07/19)**

I grynhoi, bu i'r Panel flaenoriaethu amser dros y misoedd diwethaf i gyflwyno'r rhaglen cysgodi gweithgareddau GwE gan sicrhau amodau sy'n cefnogi craffu effeithiol gan Aelodau Etholedig. Wrth symud ymlaen, bydd y Panel yn ail afael ar ei raglen o herio perfformiad ysgolion unigol gan adeiladu ar ei waith dros y blynyddoedd diwethaf. Isod, mae crynodeb o'r gwaith hyn dros y 10 mis diwethaf, fesul sector:

**Rhaglen y Panel o Herio Perfformiad Ysgolion Unigol**
**Hydref, 2018 → Chwefror, 2019**

| Sector | Categori | Pryd |
|---|---|---|
| Cynradd | Gwyrdd | Hydref, 2018 |
| Cynradd | Melyn | |
| Cynradd | Gwyrdd | Tachwedd, 2018 |
| Cynradd | Melyn | |
| Uwchradd | Melyn | Rhagfyr, 2018 |
| Cynradd | Ambr | Ionawr, 2019 |
| Cynradd | Gwyrdd | Chwefror, 2019 |
| Cynradd | Ambr | |

- **Estyn (24/06/19)** - ym mis Gorffennaf[7], derbyniodd y Panel adroddiad llafar gan gadeirydd ac is-gadeirydd y Panel ar gyfarfod yr oeddent wedi'i fynychu gydag Estyn ym Mehefin, 2019. Nodwyd y materion canlynol yn arbennig:
    - ❖ Roedd cyfraniad y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion yn thema yn ystod y cyfarfod a hefyd y manteision ddaw yn sgil Aelodau'n cysgodi GwE
    - ❖ Cyfeiriodd Estyn at y ffaith nad oedd y ddarpariaeth Blynyddoedd nas Gynhelir (blynyddoedd cynnar) wedi'i chynnwys yn sgôp rhaglen waith y Panel hyd yma
    - ❖ Nododd Estyn bod angen mwy o sylw i gefnogi CYSAG.

Argymhellir y dylai'r Panel gynnwys monitro'r canlynol yn ei raglen waith:

i. Crynodeb o adroddiadau arolygu Estyn a gyhoeddwyd ar gyfer ysgolion ar yr Ynys
ii. Proffil o'r Awdurdod Addysg Lleol yn erbyn safonau Estyn
iii. Crynodeb o adroddiadau arolygu Estyn a gyhoeddwyd ar gyfer y ddarpariaeth Blynyddoedd nas Gynhelir (blynyddoedd cynnar) ar Ynys Môn

**3. MESUR CANLYNIADAU AC EFFAITH Y PANEL**

3.1 **Cyd-destun**

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae cofnodi ac asesu effaith Sgriwtini yn her gan nad yw canlyniadau gweithgareddau sgriwtini bob amser yn ddirnadwy ac nid oes modd eu mesur mewn ffordd systematig bob tro. Yn ogystal â hyn, nid yw'n hawdd mesur effeithiolrwydd gallu Sgriwtini i ddylanwadu ar y sawl sy'n gwneud penderfyniadau drwy siarad a thrafod. Fodd bynnag, mae taith y Panel hwn yn enghraifft o sgriwtini yn ychwanegu gwerth ac yn dylanwadu ar y ffordd y mae'r Cyngor wedi gweithredu cynigion.

3.2 **Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion**

Mae craffu ar gynnydd ysgolion wedi aeddfedu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i gyfraniad y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion. Ym mis Mawrth[8], cynhaliodd aelodau'r Panel hunan-arfarniad o'i effaith gan adolygu 4 agwedd o'i waith:

- Beth weithiodd yn dda
- Nodi'r effaith y mae'r Panel yn ei gael
- Meysydd i'w gwella
- Anghenion datblygu aelodau

3.3 **Deilliannau'r Hunan-arfarniad gan Aelodau'r Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion**

3.3.1 Defnyddiwyd y cwestiynau canlynol fel fframwaith i ganiatáu Aelodau i arfarnu cyfraniad y Panel:

**C1** Yn nhermau gwaith y Panel, beth oedd yr uchafbwyntiau i chi fel aelodau unigol o'r Panel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?
**C2** Yn eich tyb chi, pa effaith gafodd y Panel wrth herio a dal ysgolion i gyfrif?
**C3** A oes unrhyw agweddau o waith y Panel y gellid eu gwneud yn wahanol wrth symud ymlaen?
**C4** Pa anghenion datblygu sydd gennych er mwyn eich cefnogi yn eich rôl?
**C5** Unrhyw sylwadau cyffredinol am ddylanwad a / neu effaith gwaith y Panel ar y broses gwneud penderfyniadau?

3.4 Mae'r ffrwd gwaith hon wedi darparu tystiolaeth o'r canlyniadau cadarnhaol a ganlyn:

[7] Cyfarfod o'r Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf, 2019
[8] Cyfarfod o'r Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion a gynhaliwyd ar 22 Mawrth, 2019

- Tîm o Aelodau, o blith yr holl bleidiau gwleidyddol a grwpiau, sydd wedi datblygu lefel uchel o wybodaeth am gymhlethdodau addysg ac ysgolion a lefel o arbenigedd yn y maes gwasanaeth
- Datblygu model o weithio sy'n canolbwyntio ar grŵp llai, gan annog presenoldeb da a gwaith tîm
- Creu'r amodau cywir ar gyfer Sgriwtini effeithiol ee gwelliant gwirioneddol yn lefel a dyfnder y cwestiynau a ofynnir gan y Panel
- Mae gweithgarwch sgriwtini'n cael ei gynllunio'n dda, yn effeithiol ac yn wrthrychol ac yn seiliedig ar dystiolaeth o ystod o ffynonellau
- Mae gan Aelodau Etholedig well dealltwriaeth o gymhlethdodau a risgiau ysgolion er mwyn gallu craffu yn effeithiol, dal i gyfrif a nodi blaenoriaethau wrth symud ymlaen

3.5 Fel rhan o'r hunan-arfarniad nodwyd meysydd i'w datblygu gan aelodau'r Panel a'u crynhoi o dan 7 thema allweddol:

- Cysgodi gweithgareddau GwE
- Blaen raglen waith y Panel
- Cylch gwaith
- Amlder cyfarfodydd
- Anghenion datblygu'r Aelodau
- Cyswllt efo Sesiynau Briffio Aelodau
- Mesur canlyniadau ac effaith Sgriwtini

Cynhwyswyd y themâu hyn ym mlaen raglen waith y Panel a pharheir i adrodd ar gynnydd i'r Pwyllgor hwn yn chwarterol.

Amgaeir copi o'r adroddiad ar yr hunan-arfarniad (**Atodiad 1**).

**4. MATER I'W UWCHGYFEIRIO I'R RHIANT BWYLLGOR EI YSTYRIED**

Cyfeirir y mater a ganlyn er ystyriaeth gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio:

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ddod i gasgliad am gadernid gwaith monitro'r Panel hyd yma.

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| D/B |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| D/B |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Adroddiad ar hunan-arfarniad y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion |

| **9 – Papurau Cefndir (cysylltwch ag Awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|

| |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW |

**Cyng. Gwilym Owen Jones**
**Cadeirydd y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion**
**Dyddiad: 13/08/19**

# MESUR EFFAITH SGRIWTINI

# HUNAN ARFARNIAD GAN AELODAU'R PANEL SGRIWTINI ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION

Panel Sgriwtini - 22 Mawrth 2019

**CYNNWYS**

1. Cefndir

2. Rôl y Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion

3. Mesur Deilliannau ac Effaith Sgriwtini

4. Cwestiynau Hunan Arfarnu

5. Casgliadau

6. Camau Nesaf

## 1. Cefndir

1.1 Cyhoeddodd Estyn adroddiad ar ansawdd Gwasanaethau Addysg yr Awdurdod Lleol ar gyfer pobl ifanc ar Ynys Môn yn ystod mis Gorffennaf 2012. Bryd hynny, barnwyd bod ansawdd cyffredinol y gwasanaethau yn anfoddhaol.

1.2 Yn yr adroddiad, gwnaed saith argymhelliad i'r Awdurdod ac roedd yn ofynnol iddo gynhyrchu Cynllun Gweithredu Ôl-Arolygiad (CGOA). Cyflwynwyd CGOA i'r Cyngor llawn ar 4 Hydref 2012.

1.3 Ar 21 Tachwedd 2012, sefydlodd y Pwyllgor Sgriwtini a Hamdden y Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion (y Panel).

1.4 Bu'r Panel yn cyfarfod ers 2012. Sefydlwyd y Panel er mwyn gwella dealltwriaeth Aelodau am faterion addysg ac i gynyddu atebolrwydd Penaethiaid a Llywodraethwyr Ysgolion am berfformiad ysgol.

1.5 Mae gan y Panel wyth Aelod. Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn enwebu pedwar Aelod a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn enwebu pedwar Aelod.

1.6 Mae'r Panel yn cyflwyno adroddiadau cynnydd rheolaidd i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

## 2. Rôl y Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion

- Gwella perfformiad pob ysgol ar Ynys Môn drwy ddarparu her gadarn ar berfformiad ysgolion unigol.
- Monitro Cynllun Cyflawni/Gwella'r Gwasanaeth Dysgu (ynghyd â chynlluniau olynol).
- Annog ysgolion i rannu arfer dda, gan gymryd i ystyriaeth gwersi a ddysgwyd a phrofiad ysgolion unigol.
- Gwella gwybodaeth aelodau lleol am yrwyr perfformiad allweddol a heriau sy'n wynebu ysgolion ar Ynys Môn.
- Rhoi hyder i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Sgriwtini, y Pwyllgor Gwaith a rheoleiddwyr fod Aelodau yn monitro perfformiad ysgolion.
- Cynorthwyo'r Gwasanaeth Dysgu gyda rhaglenni addysg a phrosiectau cyffredinol a chynyddu gwybodaeth am drefniadau cydweithio rhwng y Cyngor a GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru) i godi safonau.

## 3. Mesur Deilliannau ac Effaith Sgriwtini

3.1 Mae mesur ac asesu effaith Sgriwtini yn her oherwydd nad yw canlyniadau gweithgareddau sgriwtini yn amlwg bob amser ac yn aml nid yw'n bosib eu mesur mewn ffordd systematig. Yn ogystal, nid yw'n hawdd mesur effeithiolrwydd gallu Sgriwtini i ddylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau drwy drafodaeth a dadl.

3.2 Mae craffu ar ysgolion, y Gwasanaeth Dysgu a GwE wedi aeddfedu o ganlyniad i gyfraniad a gwaith y Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion. Mae'r Panel wedi cyfarfod â Phenaethiaid, Cadeiryddion Cyrff Llywodraethu Ysgolion ynghyd â swyddogion o GwE a'r Gwasanaeth Dysgu.

3.3 Cyflwynwyd Cynllun Gweithredu'r Gwasanaeth Dysgu i'r Panel a thynnwyd sylw at faterion sydd angen rhoi sylw iddynt neu weithredu arnynt. Roedd y materion allweddol yn cynnwys:

- Sicrhau bod pob corff llywodraethol yn mabwysiadu'r Cytundeb Partneriaeth rhyngddynt a GwE/y Gwasanaeth Dysgu.
- Sicrhau fod ysgolion yn gweithredu'r Fframwaith Cynhwysiant Digidol yn briodol.
- Sicrhau fod cyrff llywodraethu'n cyflawni eu cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â gweithredu fel ffrind beirniadol drwy herio Penaethiaid a sicrhau atebolrwydd.
- Cynnal adolygiad hunan arfarnu o'r Gwasanaeth Dysgu [yn unol â chanllawiau Estyn].
- Moderneiddio Dalgylch Amlwch ac addysg Chweched Dosbarth.
- Parhau i gryfhau cysylltiadau gyda'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynghorau Ynys Môn a Gwynedd, a chryfhau atebolrwydd.
- Paratoi ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol.

3.4 O ganlyniad, pwrpas yr hunan arfarniad hwn oedd gosod fframwaith er mwyn i Aelodau'r Panel adolygu pedwar agwedd:

| Beth sydd wedi gweithio'n dda | Nodi pa effaith mae'r Panel wedi'i gael | Meysydd i'w gwella | Anghenion datblygu aelodau |
|---|---|---|---|

## 4. Cwestiynau Hunan Arfarnu

4.1 Defnyddiodd Aelodau'r Panel bum cwestiwn fel fframwaith i alluogi iddynt arfarnu gwaith y Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion:

Q1. O safbwynt gwaith y Panel, beth oedd yr uchafbwyntiau i chi fel aelodau unigol o'r Panel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

Q2. Yn eich barn chi, pa effaith gafodd y Panel o ran herio a dal Ysgolion i gyfrif?

Q3. A oes unrhyw agweddau o waith y Panel y gellid eu gwneud yn wahanol wrth symud ymlaen?

Q4. Pa anghenion datblygu sydd gennych er mwyn eich cefnogi yn eich rôl?

Q5. Unrhyw sylwadau cyffredinol am ddylanwad a / neu effaith gwaith y Panel ar y broses gwneud penderfyniadau?

## 5. Casgliadau

5.1 Yn ystod mis Hydref 2018, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ar sgriwtini yn y Cyngor. Daeth i'r casgliad:

- *"... mae'r Cyngor wedi cryfhau ei swyddogaeth trosolwg a chraffu ac mae'n gwneud trefniadau i fodloni heriau'r dyfodol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:-*
  - *mae'r Cyngor yn cefnogi trosolwg a chraffu, ac mae'r trefniadau sydd eu hangen i helpu aelodau pwyllgorau trosolwg a chraffu i fodloni heriau'r dyfodol yn cael eu rhoi ar waith;*
  - *mae arfer pwyllgorau trosolwg a chraffu yn gwella, mae'r amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth y maent yn eu defnyddio wedi cynyddu, ac mae blaenraglenni gwaith y pwyllgorau craffu yn alinio â gwaith y Pwyllgor Gwaith; ac*
  - *mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn cyfrannu at welliannau mewn perfformiad a gwneud penderfyniadau, ac mae'r Cyngor yn gwerthuso ei effeithiolrwydd yn rheolaidd..."*

5.2 Ar 22 Mawrth 2019, cafodd Aelodau'r Panel gyfle i gyflwyno sylwadau ynglŷn â'r Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion. Y prif bwyntiau yn codi o'r sesiwn oedd:

**Q1. O ran gwaith y Panel, beth oedd yr uchafbwyntiau i chi fel aelodau unigol o'r Panel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?**

Cyfarfod â Phenaethiaid ysgolion yn rheolaidd a chlywed yn uniongyrchol am berfformiad ysgolion penodol gan y Penaethiaid.

Cyfarfod â Phenaethiaid, Cadeiryddion Llywodraethwyr a swyddogion o GwE. Mae'r wybodaeth a dderbynnir yn ddefnyddiol iawn er mwyn cael trosolwg o sut mae perfformiad ysgol yn cael ei gefnogi a'i fonitro.

Cymharu dulliau gwahanol Benaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr.

Mae'r Panel wedi ymgymryd â'i rôl mewn modd proffesiynol a chredaf ei fod wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu cysylltiadau a dealltwriaeth rhwng Aelodau a Phenaethiaid.

Medru cwrdd ag amrywiaeth o Benaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr. Mae'r Panel yn gallu cyfarfod ag ysgolion yn y categorïau Coch, Ambr, Melyn a Gwyrdd.

Medru ystyried perfformiad ysgol a materion sy'n effeithio ar ysgolion ar yr Ynys gyda fy nghyd-gynghorwyr mewn ffordd agored a gonest.

**Q2. Yn eich barn chi, pa effaith gafodd y Panel o ran herio a dal ysgolion i gyfrif?**

Mae'r Panel wedi cyfrannu at fonitro perfformiad ysgolion. Mae o wedi medru cyflwyno safbwyntiau adeiladol yn uniongyrchol i Benaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr mewn perthynas â pherfformiad Ysgolion.

Mae'r Panel yn gallu clywed yn uniongyrchol gan GwE a'r Gwasanaeth Dysgu sydd yn monitro ac yn cefnogi perfformiad ysgolion. Mae'r swyddogion yn gwrando ar bryderon ysgolion ac mae'r cyswllt rhwng y Panel, y Gwasanaeth Dysgu, GwE a'r ysgolion yn caniatáu i faterion a fyddai fel arall yn cael eu gohirio, gael sylw prydlon.

Yn y pendraw, cyfrifoldeb y Pennaeth a'r Corff Llywodraethol yw perfformiad ysgol. Er mwyn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â pherfformiad, rhaid cael partneriaeth rhwng y Gwasanaeth Dysgu, GwE ac Ysgolion. Credaf fod y Panel wedi darparu fforwm i bawb ganolbwyntio ar y dasg mewn llaw.

Mae'r Panel yn gallu uwchgyfeirio materion i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio os yw'n ystyried bod hynny'n briodol. Mae'r Panel yn darparu adroddiadau cynnydd rheolaidd i'r pwyllgor.

**Q3. A oes unrhyw agweddau o waith y Panel y gellid eu gwneud yn wahanol wrth symud ymlaen?**

Mae angen clywed gan ddisgyblion yr ysgolion er mwyn clywed yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud.

Mae Aelodau'n gwerthfawrogi'n fawr y cyfle i ofyn cwestiynau i Benaethiaid Ysgolion mewn cyfarfodydd ffurfiol o'r Panel. Byddai ymweld ag ysgolion yn rhoi cyfle i Aelodau weld sut mae ysgolion yn gweithredu ar lefel ymarferol ond ni ddylid gwneud hynny ar draul cynnal cyfarfodydd ffurfiol o'r Panel.

Rwy'n fodlon mynychu gweithgareddau a drefnir gan GwE er mwyn i mi wella fy nealltwriaeth o faterion addysg.

**Q4. Pa anghenion datblygu sydd gennych er mwyn eich cefnogi yn eich rôl?**

Angen gwybod am y Cwricwlwm Cenedlaethol Newydd ar gyfer ysgolion Cymru.

Mae'r sesiynau datblygu a gyflwynwyd gan yr Uwch Reolwr (Safonau a Chynhwysiad) ers mis Gorffennaf 2017 wedi bod yn dda iawn. Fe ddylent barhau.

Yn ogystal â bod yn Aelodau o'r Panel, mae pob un ohonom yn Llywodraethwyr Ysgol hefyd. Credaf y byddai'n briodol datblygu rôl Llywodraethwyr Ysgol ymhellach.

Byddai'n ddefnyddiol cael sesiwn ddatblygu ar sut mae arian yn cael ei ddyrannu i ysgolion a sut mae ysgolion yn gosod eu cyllidebau blynyddol.

**Q5. Unrhyw sylwadau cyffredinol am ddylanwad a / neu effaith gwaith y Panel ar brosesau gwneud penderfyniadau?**

Mae'r Panel yn gweithio'n dda. Bydd angen parhaus i addasu ond mae Aelodau'n fodlon gwrando ar awgrymiadau.

Erbyn hyn, rwy'n ymwybodol o rôl GwE wrth gefnogi ysgolion.

Rhaid i waith y Panel barhau. Mae Addysg yn wasanaeth hanfodol ac mae Aelodau angen fforwm fel hyn er mwyn annog, ac os oes rhaid, fynnu bod camau penodol yn cael eu cymryd er mwyn gwella.

Mae gwaith partneriaeth rhwng ysgolion, y Gwasanaeth Dysgu a GwE yn hanfodol. Credaf fod yr ysgolion sy'n perfformio orau yn gwerthfawrogi hyn. Mae gan y Panel rôl o ran sicrhau fod pawb yn cydweithio.

## 6. CAMAU NESAF

6.1 Prif ddyletswydd y Panel yw helpu ysgolion i roi'r addysg orau bosib i ddysgwyr. Er mwyn galluogi'r Panel i ymgymryd â'i ddyletswydd, mae arno angen gwybodaeth ar amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio ar ysgolion ynghyd â gwybodaeth ymarferol am yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad.

6.2 Rhaid i ffocws gwaith y Panel addasu er mwyn ymateb i Gwricwlwm Addysg newydd Cymru. Bydd cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn broses barhaus rhwng nawr a 2022. Bydd mwy o bwyslais yn y cwricwlwm ar baratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd. Bydd yn datblygu eu gallu i ddysgu sgiliau newydd ac i ddefnyddio eu gwybodaeth bynciol mewn modd mwy cadarnhaol a chreadigol. Yn ogystal, bydd fframwaith cymhwysedd digidol newydd yn cael ei gyflwyno er mwyn paratoi disgyblion ar gyfer y cyfleoedd a'r risgiau ynghlwm â'r byd ar-lein. Nod bwysig arall y cwricwlwm newydd yw rhoi mwy o ryddid i athrawon addysgu yn y modd fydd yn arwain at y canlyniadau gorau i'w disgyblion yn eu barn hwy.

6.3 Bydd y Panel yn parhau i gwrdd ond byddant yn datblygu trefniadau cysgodi gyda GwE ac yn ymweld ag ysgolion.

| THEMA | SUT |
|---|---|
| **Cyswllt â Sesiynau Briffio Misol Aelodau** | • Cryfhau'r cyswllt rhwng gwaith y Panel a Sesiynau Briffio Aelodau. |
| **Cysgodi gweithgareddau GwE** | • Aelodau i fynychu gweithgareddau yn unol â'r amserlen a ddosbarthwyd (Tymor y Gwanwyn 2019).<br>• Amserlen wedi'i diweddaru i'w dosbarthu i Aelodau'r Panel ynglŷn â gweithgareddau yn ystod Tymor yr Haf 2019. |
| **Blaen Raglen Waith y Panel** | Ychwanegu'r canlynol:<br>• Adborth gan Aelodau yn dilyn mynychu gweithgareddau cysgodi GwE.<br>• Cynllun Cyflawni/Gwella'r Gwasanaeth Dysgu<br>• Gwybodaeth am y Cwricwlwm Addysg Newydd i Gymru<br>• Clywed safbwynt disgyblion drwy gyfrwng ymweliadau ysgol<br>• Y Panel i barhau i gyfarfod gyda Phenaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr Ysgolion ond i gynnwys mwy o ymweliadau i ysgolion. |
| **Cylch Gorchwyl y Panel** | • Adolygu Cylch Gorchwyl y Panel. |
| **Amlder Cyfarfodydd** | • Trefnu adolygiad o pa mor aml i gynnal cyfarfodydd y Panel rhwng mis Mai 2019 ac Ebrill 2020. |
| **Anghenion Datblygu Aelodau** | Pynciau posib ar gyfer sesiynau datblygu Aelodau'r Panel:<br>• Cwricwlwm Addysg Newydd yng Nghymru<br>• Rôl Llywodraethwyr Ysgol<br>• Monitro perfformiad ysgolion (parhad)<br>• Pwysau Ariannol ar Ysgolion<br>• Datblygu sgiliau Iaith Gymraeg disgyblion |
| **Mesur Canlyniadau ac Effaith Sgriwtini** | • Aelodau Etholedig y Panel i gynnal hunan arfarniad pellach ymhen y 12 mis nesaf. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **11 Medi 2019** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2019/20 a'r tu draw i hynny** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)** |
| **Awdur yr Adroddiad:<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini<br>01248 752578<br>AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor:

**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2019/20

**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022 a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
| --- |
| |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Bellach, mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu

2.4 **Blwyddyn Ddinesig 2019/20**: cafodd raglen waith 2019/20 y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ei chadarnhau gan y Pwyllgor ym mis Mehefin, 2019[3].

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2019/20 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf (13 Mehefin, 2019).

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 13 Mehefin, 2019

| 8 – Atodiadau |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2017/18 - 2018/19 – 2019/20. |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI → HYDREF, 2019**
**[Fersiwn dyddiedig 03/09/19]**

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Medi, 2019 (11/09/19)** | **Medi, 2019 (newid dyddiad cyfarfod 23/09/19 → 11/09/19)** |
| Monitro Perfformiad Ch1: 2019/20 | Monitro Contractau Gofal Cymdeithasol |
| Monitro Gwelliannau Gwasanaethau Plant / Adroddiad Cynnydd y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | Trefniadau Diogelu (Gwasanaethau Cymdeithasol) |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2018/19 | Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion: Adroddiad Cynnydd |
| Polisi Gosod Tai (cyswllt lleol) | |
| | |
| **Hydref, 2019 (23/10/19)*** | **Cyfarfod Arbennig (24/10/19)** |
| Cynigion cychwynnol cyllideb 2020/21 | Cynllun Datblyu Lleol ar y Cyd – Adroddiad Monitro Blynyddol |
| Cynllun Ymgynghori ar gyllideb 2020/21 | Strategaeth Cyfleon Dydd (anableddau dysgu) (camau nesaf) |
| Panel Sgriwtini Cyllid: Adroddiad Cynnydd | Adroddiad Blynyddol Galw Gofal |
| Adolygiad Paneli Sgriwtini | Craffu Partneriaethau – adroddiad blynyddol ar waith y Pwyllgor |
| | |
| **Tachwedd, 2019 (newid dyddiad cyfarfod 04/11/19 → w/d 11/11/19)** | **Tachwedd, 2019 (12/11/19)** |
| | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| Monitro Perfformiad Ch2: 2019/20 | Partneriaeth Anghenion Addysgol Ychwanegol – Gwynedd a Môn |
| | Defnydd yr Iaith Gymraeg yn Weinyddiaeth Fewnol y Cyngor |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – trefniadau llywodraethiant |

*Tebygol y bydd angen newid dyddiad y cyfarfod i sicrhau aliniad efo cyhoeddiad Setliad Cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21.

**Eitemau i'w rhaglennu:**
Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Amlwch / ôl-16 / ardal Llangefni ac ardal Seiriol.
Cynllun cydraddoldeb strategol 2020/24 (Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, Chwefror 2020)

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO: 2017/2018 → 2019/2020

Cadeirydd: Cynghorydd Gwilym O Jones
Is-Gadeirydd: Cynghorydd Glyn Haynes

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio am y cyfnod Mai 2017 ymlaen, fel rhaglen dreigl a theclyn cynllunio pwrpasol. Adroddir ar y blaen raglen waith i bob cyfarfod arferol o'r Pwyllgor Sgriwtini i'r pwrpas o adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio / dynnu eitemau yn ôl. Ei phwrpas hefyd ydy sicrhau aliniad gyda blaen raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Cyswllt: Anwen Davies (Rheolwr Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752578
E-bost: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk

 Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2017** | | | | | | |
| **Mai, 2017** | | | | | | |
| **31 Mai 2017** | Ethol Cadeirydd | Ethol Cadeirydd | | | | |
| | Ethol Is Gadeirydd | Ethol Is Gadeirydd | | | | |
| **Mehefin, 2017** | | | | | | |
| **27 Mehefin 2017** | Adroddiad Blynyddol Cymunedau yn Gyntaf | Monitro perfformiad | | | | |
| | Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid | Gwybodaeth/ monitro perfformiad | | | | |
| | Aelodaeth Paneli a Byrddau | Enwebu Aelodaeth | | √ (Aelodau) | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **Hydref, 2017** | | | | | | |
| **9 Hydref 2017** | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | Monitro perfformiad | | | | |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Datblygu Cynllun Llesiant Môn a Gwynedd) | Monitro perfformiad/datblygu polisi | | | | |
| | Adroddiad Blynyddol Cyflwyniadau yn erbyn Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid | Monitro perfformiad | | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **Tachwedd, 2017** | | | | | | |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **14 Tachwedd 2017** | Cynllun Llesiant Drafft - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd (Diweddariad) | Datblygu Polisi | | | | |
| | Trawsnewid Gwasanaethau Diwylliant | Sgriwtini cyn penderfyniad | | | | √ |
| | Adroddiad ar y Gymraeg o fewn y Weinyddiaeth Fewnol | Monitro perfformiad | | | | |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad | √ | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **2018** | | | | | | |
| **Chwefror, 2018** | | | | | | |
| **6 Chwefror 2018** | Adroddiad - Perfformiad Ysgolion Môn2016 -2017 | Monitro perfformiad | | | | |
| | GwE- Adroddiad Blynyddol 2016/2017 | Monitro perfformiad | | | | |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad | √ | | | |
| | Aelodaeth Panel Sgriwtini – Adolygu Cynnydd Ysgolion | - | | √ (Aelodau) | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **Mawrth, 2018** | | | | | | |
| **8 Mawrth, 2018** | Cynllun Llesiant Drafft - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd | Datblygu Polisi | | | | √ |
| | Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid | Datblygu Polisi | | | | √ |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith/ Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **Ebrill, 2018** | | | | | | |
| **10 Ebrill 2018** | Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol –Gwynedd a Môn | Monitro perfformiad | | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **Mehefin, 2018** | | | | | | |
| **19 Mehefin 2018** | Aelodaeth Panel Sgriwtini Cyllid a Bwrdd Trawsnewid Addysg | - | | √ (Aelodau) | | |
| | Adroddiad Blynyddol Cymunedau yn Gyntaf | Monitro perfformiad | | | | |
| | Cynlluniau Adfywio Cymunedol – Amlwch a Biwmaris | Monitro Perfformiad | | | | |
| | Sgriwtini o Bartneriaethau | Monitro perfformiad (Pendnderfyniad Pwyllgor Sgriwtini Corfforathol 2/10/17) | | √ (Aelodau) | | |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad | √ | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **Gorffennaf, 2018** | | | | | | |
| **9 Gorffennaf 2018** | Medrwn Môn | Monitro Perfformiad | | | | |
| | Strategaeth Gwrthdlodi | Datblygu Polisi | | | | √ |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Medi, 2018** | | | | | | |
| **24 Medi 2018** | Adroddiad Blynyddol -Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ( Iechyd a Gofal Cymdeithasol) | Monitro perfformiad | | | | |
| | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | Monitro perfformiad | | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | | | √ (Aelodau) | | |
| **Hydref, 2018** | | | | | | |
| **15 Hydref 2018** | Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru | Ymgynghoriad | | √ (Holl Randdeiliaid) | | |
| | Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru | Monitro Perfformiad | | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | | | √ (Aelodau) | | |
| **Tachwedd, 2018** | | | | | | |
| **13 Tachwedd 2018** | Enwebu Aelod i'r Panel Sgriwtini Cyllid | - | | √ (Aelodau) | | |
| | Strategaeth Rhanbarthol Digartrefedd | Sgriwtini cyn penderfyniad | | | | √ |
| | Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol –Gwynedd a Môn | Monitro perfformiad | | | | |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – sgriwtini cychwynol o'r drefn lwodraethol a'r strwythur gweithredu y BGC | Monitro perfformiad | | | | |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **Rhagfyr, 2018** | | | | | | |
| **12 Rhagfyr 2018** | Adroddiad – Safonau Ysgolion Môn 2017-2018 | Monitro perfformiad | | | | |
| | GwE- Adroddiad Blynyddol 2017/2018 | Monitro perfformiad | | | | |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad | √ | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **2019** | | | | | | |
| **Chwefror , 2019** | | | | | | |
| **5 Chwefror 2019** | Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9) -Rol a chefndir y bwrdd ai ddylanwad ar feysydd penodol yn Ynys Mon | Cais Pwyllgor(24/9/18) | | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **Mawrth, 2019** | | | | | | |
| **12 Mawrth 2019** | Cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor ar gamau nesaf – Ffocws ar feysydd cyd weithio yn y cymuned | Monitro perfformiad | | | | |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus- craffu cynnydd ar weithredu'r Cynllun Llesiant | Monitro perfformiad | | | | |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith/ Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **Ebrill, 2019** | | | | | | |
| **9 Ebrill 2019** | Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy | Craffu cyn Penderfyniad | | | | |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad | √ | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **Mehefin, 2019** | | | | | | |
| **13 Mehefin 2019** | Cytundeb Rheoli Gwastraff | Craffu cyn Penderfyniad | | | | |
| | Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol - Gwynedd a Môn | Monitro perfformiad | | | | |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Monitro Perfformiad | | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **Gorffennaf, 2019** | | | | | | |
| **11 Gorffennaf 2019 [Cyfarfod Arbennig]** | Trawsnewid Gwasanaethau Gofal â Chefnogaeth (anableddau dysgu) | Craffu cyn Penderfyniad | | | | |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Rhan 9: Iechyd a Gwasanaethau | Monitro Perfformiad | | | | |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymdeithasol) | | | | | |
| | Forward Work Programme | Review | | √ (Members) | | |
| **Medi, 2019** | | | | | | |
| **11 Medi 2019** | Trefniadau Diogelu | Monitro Perfformiad | | | | |
| | Monitro Contractau Gofal Cymdeithasol | Monitro perfformiad | | | | |
| | Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad | √ | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **Hydref, 2019** | | | | | | |
| **24 Hydref 2019** **(Cyfarfod Arbennig)** | Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd - Adroddiad Monitro Blynyddol | Monitro perfformiad | | | | |
| | Strategaeth ar gyfer cyfleon dydd anableddau dysgu (camau nesaf) | Craffu cyn Penderfyniad | | | | |
| | Adroddiad Blynyddol: Galw Gofal | | | | | |
| | Sgriwtini o Bartneriaethau – Mesur Effaith (Uned Sgriwtini) | Hunan asesiad | | | | |
| **Tachwedd, 2019** | | | | | | |
| **12 Tachwedd 2019** | Partneriaeth Anghenion Addysgol Ychwanegol - Gwynedd a Môn | Monitro perfformiad | | | √ | |
| | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | Monitro perfformiad | | | | |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus - | Monitro Perfformiad | | | | |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith/ Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | sgriwtini o'r trefniadau llwodraethiant a strwythur gweithredu y BGC | | | | | |
| | Defnydd yr Iaith Gymraeg yn Weinyddiaeth fewnol | Monitro Perfformiad | | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **Rhagfyr, 2019** | | | | | | |
| **12 Rhagfyr 2019** **(Cyfarfod Arbennig)** | Adroddiad Safonau Ysgolion (Haf, 2019) | | | | | |
| | Adroddiad Blynyddol GwE 2018/19 | | | | | |
| | Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | | | | | |
| **2020** | | | | | | |
| **Chwefror, 2020** | | | | | | |
| **4 Chwefror 2020** | Medrwn Môn (i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad | | | | |
| | Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020/24 | Craffu cyn Penderfyniad | | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **Mawrth, 2020** | | | | | | |
| **10 Mawrth 2020** | Cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor ar gamau nesaf (i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad | | | | |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus - craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant | Monitro perfformiad | | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ | | |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | (Aelodau) | | |
| **Ebrill, 2020** | | | | | | |
| **7 Ebrill 2020** | Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol -Gwynedd a Môn | Monitro perfformiad | | | | |
| | Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad | √ | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |

| **EITEMAU I'W RHAGLENNU** | |
|---|---|
| **i'w gadarnhau** | Moderneiddio'r Gwasanaeth Hamdden Anstatudol (Craffu cyn penderfyniad) ) |
| **i'w gadarnhau** | Tai Gofal Ychwanegol ( Ardal Seiriol) – Adroddiad ar y cyd: Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, Oedolion |
| **i'w gadarnhau** | Bargen Twf Gogledd Cymru |
| **i'w gadarnhau** | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru: Ardal Ynys Môn |
| **i'w gadarnhau** | Heddlu Gogledd Cymru:Ardal Ynys Môn |
| **i'w gadarnhau** | Gwasanaeth Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru |
| **i'w gadarnhau** | Gwahoddiad i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru / Heddlu Gogledd Cymru |
| **i'w gadarnhau** | Trefniadau Sgriwtini - Bwrdd Gwasanethau Cyhoeddus (Adroddiad Blynyddol) (Mehefin, 2020) |





Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

This page is intentionally left blank